



Medi 2024

# Gwerthusiad Uned Atal Trais Cymru

## Astudiaeth Achos Systemau Cyfan: Abertawe

### Adroddiad astudiaethau achos

Ellie McCoy, Chloe Smith, Rebecca Harrison, Hannah Timpson a Zara Quigg

Liverpool John Moores University, Tithebarn Building, 79 Tithebarn Street, Liverpool, L2 2ER

Manylion cyswllt: [E.J.McCoy@ljmu.ac.uk](mailto:E.J.McCoy@ljmu.ac.uk)

# Uned Atal Trais Cymru – Gwerthusiad Blwyddyn 3 (2021/22)

## Astudiaeth Achos Systemau Cyfan: Abertawe – adroddiad astudiaethau achos

Ellie McCoy, Chloe Smith, Rebecca Harrison, Hannah Timpson a Zara Quigg

Sefydliad Iechyd y Cyhoedd (PHI), Prifysgol John Moores Lerpwl (JMU), *Canolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Atal Trais*

Medi 2024

ISBN: 978-1-83766-522-8

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023. Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open\[1\]\\_government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open[1]_government-licence/version/3/) ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oni nodir fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Yr adroddiad hwn

De Cymru yw un o'r 20 o ardaloedd a gafodd gyllid gan Lywodraeth y DU i sefydlu Uned Lleihau Trais. Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru yn 2019 gyda chymorth ymrwymadau ychwanegol gan bartneriaid yng Nghymru. Er mwyn llywio datblygiad parhaus Uned Atal Trais Cymru, comisiynwyd Prifysgol John Moores Lerpwl fel partner gwerthuso. Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o ganlyniadau rhaglen waith y gwerthusiad hwn, ac mae'n cyflwyno gwerthusiad o'r dull system gyfan a'r dull astudiaeth achos ar gyfer Abertawe. Cyflwynir yr adroddiad astudiaethau achos manwl hwn ochr yn ochr ag adroddiad systemau cyfan cysylltiedig. Mae'r gyfres o adroddiadau gwerthuso ar gael ar wefan yr Uned Atal Trais: <https://www.violencepreventionwales.co.uk/cy/> ac mae'n cynnwys:

- Blwyddyn 1 – Datblygu fframwaith gwerthuso ac adroddiad system gyfan Uned Atal Trais Cymru
- Blwyddyn 2 – Gwerthuso rhaglenni gwaith dethol
- Blwyddyn 3 – Gwerthuso dull astudiaethau achos system gyfan Abertawe
- Blwyddyn 4 – Gwerthuso dull astudiaethau achos system gyfan Caerdydd

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r bobl a'r sefydliadau canlynol am gefnogi gwerthusiad Uned Atal Trais Cymru:

- Cyllidwyr y gwerthusiad, Uned Atal Trais Cymru
- Aelodau tîm Uned Atal Trais Cymru, partneriaid ehangach a gweithredwyr y rhaglen a gefnogodd y broses o roi'r gwerthusiad ar waith
- Ceidwaid yr ymchwil a gefnogodd y broses o gasglu data a recriwtio

- Pawb a gymerodd ran yn yr astudiaeth, mewn cyfweiliadau a grwpiau ffocws
- Cydweithwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru am gynghori ar y broses o ddatblygu astudiaethau a chydweithwyr o Sefydliad Iechyd y Cyhoedd am gefnogi'r broses o gynnal yr astudiaeth a llunio'r adroddiad, gan gynnwys Alice Booth-Rosamond, Jade Craven a Dave Seddon.

## Terminoleg

---

### **Y defnydd o'r term 'trais difrifol'**

Mae Uned Atal Trais Cymru yn annog partneriaethau i beidio â defnyddio 'difrifol' fel term wrth ddiffinio trais. Drwy lens iechyd cyhoeddus, mae'n bwysig deall y gall ymyriadau (yn enwedig y rheini yn ystod y plentyndod cynnar) atal trais yn yr hirdymor, a gwella canlyniadau addysgol, rhagolygon cyflogaeth ac iechyd a llesiant unigolion a chymunedau. Maent hefyd yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ehangach ar gyfer yr economi a'r gymdeithas. Felly, byddwn yn cyfeirio ato fel 'trais' drwy'r adroddiad hwn, oni fyddwn yn dyfynnu o ffynhonnell yn uniongyrchol, neu'n cyfeirio ato, sy'n defnyddio 'trais difrifol' fel term.

### **Y defnydd o'r term 'trais gan bobl ifanc'**

Roedd y plant, y bobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol a gyfrannodd at Fframwaith Cymru Heb Drais, a gyd-gynhyrchwyd gan Uned Atal Trais Cymru a Peer Action Collective Cymru, yn glir bod y term 'trais gan bobl ifanc' yn derm hen ffasiwn. Roedd ymdeimlad y byddai'r term yn gallu cyfrannu at labelu a stereoteipio plant a phobl ifanc fel grŵp. Felly, byddwn yn cyfeirio ato fel 'trais ymhlith plant a phobl ifanc' drwy'r adroddiad cyfan hwn, oni fyddwn yn dyfynnu ffynhonnell yn uniongyrchol, neu'n cyfeirio ato, sy'n defnyddio 'trais gan bobl ifanc' fel term.

## Cynnwys

---

Trosolwg o'r gwerthusiad .....	1
Astudiaethau achos o ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais .....	8
Astudiaeth achos 1: CMET a'r Tîm Diogelu Cyd-destunol .....	8
Astudiaeth achos 2: Cyfiawnder Troseddol – Cyfleoedd Dysgu Digymell – Ymyriadau yn y Ddalfa .....	16
Astudiaeth achos 3: Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru .....	24
Astudiaeth achos 4: Ymddiriedolaeth St Giles.....	30
Astudiaeth achos 5: Fearless, Crimestoppers.....	36
Astudiaeth achos 6: Braver Choices, Media Academy Cymru.....	41
Astudiaeth achos 7: Tîm Atal Trais y GIG.....	50

## Trosolwg o'r gwerthusiad

### Cyflwyniad

Yn 2019, ariannodd y Swyddfa Gartref y broses o sefydlu Unedau Lleihau Trais mewn 18 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, gan gynyddu i 20 o heddluoedd yn 2022. Sefydlwyd yr Unedau i leihau lefelau trais gan ddefnyddio dull 'iechyd y cyhoedd' o atal trais. Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru gyda'r nod o atal pob math o drais. Mae Heddlu De Cymru, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhan o'r tîm amlasiantaethol. Mae dull gweithredu pedwar cam yr Uned Atal Trais (Ymwybyddiaeth, Eiriolaeth, Cymorth a Mabwysiadu) yn sicrhau bod dull iechyd y cyhoedd yn cael ei ymgorffori ym mhob rhan o'r system ehangach er mwyn sicrhau gweithgarwch atal trais cynaliadwy sy'n gweithio ymhellach i sicrhau bod dull iechyd y cyhoedd yn cael ei drosi'n ymarfer gweithredol i ddylanwadu ar newidiadau cynaliadwy ar lefel system.

Yn Abertawe, sy'n ardal lle ceir lefelau uchel o drais, mae'r Uned Atal Trais a phartneriaid yn cyflwyno amrywiaeth o ymyriadau a threfniadau amlasiantaethol i leihau ac atal trais, ac i ddefnyddio dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn o helpu plant a phobl ifanc sy'n cael eu cynnwys mewn achosion o drais/sy'n wynebu risg o gael eu cynnwys mewn achosion o drais. Mae'r Uned Atal Trais wedi ariannu amrywiaeth o ymyriadau ar lefel sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, sy'n cynnwys ymyriadau sy'n targedu achosion sylfaenol trais ac yn cynnig cymorth yn ystod yr hyn a ystyrir yn 'gyfle dysgu digymell'. Mae'r ymyriadau hyn yn rhan o system sydd wedi sefydlu amrywiaeth o ddulliau i dargedu trais, gan gynnwys:


Sector	Ymyriad/rhaglen/dull	Natur	Oedran
Awdurdod Lleol	Diogelu Cyd-destunol a phanel CMET Cyflynydd Ymyrryd yn Gynnar ac Atal	Dull wedi'i dargedu Ymyrryd yn gynnar	≥18 11-25
Cyfiawnder Troseddol	Ymyriadau Cyfleoedd Dysgu Digymell yn Nalfeydd yr Heddlu	Ymyriadau trydyddol	10-18
	Rhaglen GRIP/ Ymgyrch Sceptre	Ymataliad	Pob oedran
	Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru (WPSP)	Camau atal cyffredinol	4-18
Iechyd	Tîm Atal Trais y GIG	Ymyrryd yn Gynnar	Pob oedran
Cymunedol	Ymddiriedolaeth St Giles	Ymyriad uwchradd, wedi'i dargedu	11-18
	Fearless, Crimestoppers	Ymyriadau cynradd cyffredinol	Gweithwyr proffesiynol 11-16
	Braver Choices, Media Academy Cymru	Ymyriadau therapiwtig	10-17

### Dulliau gwerthuso

Comisiynodd Uned Atal Trais Cymru Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl i gynnal gwerthusiad systemau cyfan annibynnol yr Uned Atal Trais o atal trais, gan ganolbwyntio ar Abertawe. Mae'r gwerthusiad yn archwilio sut mae'r ymyriadau a'r dulliau gweithredu ledled Abertawe yn gweithredu i nodi unigolion sy'n wynebu risg o gael eu cynnwys mewn achosion o drais/sydd wedi'u cynnwys mewn achosion o drais, a'r mesurau a roddir ar waith i liniaru risg a'u hatal rhag cael eu cynnwys ymhellach mewn achosion o drais a throseddau. Ymysg y gweithgareddau gwerthuso roedd:



Adolygiad cyflym o lenyddiaeth i roi cyd-destun i'r ymchwil ac i helpu i ddehongli canfyddiadau ymchwil ac i ddatblygu argymhellion.



Cafodd tystiolaeth allweddol o raglenni, polisiâu a dogfennaeth weithredol eu casglu, eu hadolygu a, lle y bo'n bosibl, eu dadansoddi i archwilio datblygiad, gweithrediad, cyflawniad ac effaith ymyriadau'r Uned Atal Trais.



Cafodd cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol (n=23) eu cynnwys yn y broses o weithredu a chyflwyno ymyriadau ledled Abertawe a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais. Cynhaliwyd gweithdy i randdeiliaid (n=23) i ddatblygu argymhellion



Cyfweiliadau â defnyddwyr gwasanaethau (n=5) sy'n ymgysylltu â'r ymyriadau ledled Abertawe a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais i archwilio anghenion unigolion, rhwystrau i gael gafael ar gymorth, profiadau teithiau ac effaith cymorth. Datblygwyd astudiaethau achos ar gyfer ymyriadau (n=7).

## Canfyddiadau allweddol

Disgrifiwyd bod yr Uned Atal Trais yn dod â gwasanaethau a chydweithwyr ynghyd i ddatblygu rhwydweithiau a meithrin cydberthnasau er mwyn gweithio mewn partneriaeth. Roedd gweledigaeth glir a rennir ymysg partneriaid ar gyfer defnyddio dull iechyd y cyhoedd cydgysylltiedig o atal trais.

*“Bydd pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael yr amser a'r cyfleoedd i fyw bywydau ystyrlon... gan roi sgiliau iddynt. Rydym yn credu bod addysg yn hanfodol er mwyn sicrhau bod unrhyw berson ifanc yn symud yn gadarnhaol drwy fywyd”*

Ystyriwyd bod aelodau'r Uned Atal Trais yn cynnwys amrywiaeth dda o bartneriaid. Nododd partneriaid bod ganddynt ymwybyddiaeth dda o swyddogaeth yr Uned Atal Trais, gan nodi ei bod yn fwy nag elfen ariannu. Roedd hyn yn golygu bod eu gwasanaethau wedi'u cymeradwyo a oedd yn rhoi cymorth a chredadwyedd i gyflwyno mwy o ymyriadau yn y dyfodol. Nodwyd bod cydberthnasau a dulliau cyfathrebu rhwng yr Uned Atal Trais a darparwyr ymyriadau yn gadarnhaol, a bod gan yr Uned Atal Trais ddull hyblyg o ddeall anghenion a chefnogi gwasanaethau. Gwnaed argymhellion ar gyfer sicrhau bod adborth gan yr Uned Atal Trais yn cael ei raeadu i lawr a'i gyfeirio at staff llinell flaen er mwyn sicrhau eu bod yn deall sut mae eu gwaith yn cyd-fynd â'r agenda atal trais ehangach, ac i ddathlu eu gwaith. Cytunodd partneriaid hefyd y gallai'r Uned Atal Trais helpu i roi gwaith ymgysylltu ag ysgolion ar waith ag ymyriadau.

*“Mae'r Uned Atal Trais yn ddynamig iawn o ran risgiau ac o ran cyflwyno newidiadau, a dangos yr hyn y gallai'r gwasanaeth fod yn dibynnu ar yr anghenion. Maen nhw'n flaengar iawn yn hynny o beth”* (Rhanddeiliad)

Ystyriwyd bod y gwaith amlasiantaethol a chyfraniad partneriaid yn allweddol i'r dull unedig hwn. Rhoddwyd enghreifftiau ar gyfer cydleoili a datblygu llwybrau atgyfeirio a oedd wedi hyrwyddo prosesau gweithio ar y cyd, ymwybyddiaeth o wasanaethau ac ymwybyddiaeth o'r rhwystrau a wynebir gan bobl ifanc ac unigolion sydd ag anghenion

*“Yr unig ffordd y gallwn fynd i'r afael ag unrhyw fath o drosedd yn briodol yw drwy gael dull cydgysylltiedig a sicrhau bod pawb yn cydweithio”* (Rhanddeiliad)

cymhleth. Nododd partneriaid bod ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r gweithgareddau atal trais a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais, ynghyd â gwasanaethau cymorth ehangach ledled Abertawe. Fodd bynnag, awgrymodd y canfyddiadau y gall fod diffyg dealltwriaeth eang o hyd o'r gwasanaethau a ddarperir, ac y byddai'r bartneriaeth yn cael budd o gael mewnbwn cryfach gan ddarparwyr addysg ac iechyd meddwl.

Ystyriwyd bod rôl y tîm Cyd-destunol, Coll, Wedi'u Hecsbloetio a'u Masnachu (CMET) yn allweddol ar gyfer gwaith amlasiantaethol effeithiol ledled Abertawe, gan gyflwyno cyfle i ddod â phartneriaid gweithredol a strategol allweddol ynghyd i rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd er mwyn cael ymateb uniongyrchol a chydgyssylltiedig. Ystyriwyd bod y CMET yn allweddol wrth gefnogi gwaith cydweithredol, ymgysylltu â'r sector gwirfoddol a chwalu'r rhwystrau er mwyn atal pobl ifanc rhag cael eu troseddoli.

Ymysg y rhwystrau i gyflawni ar gyfer darparwyr ymyriadau roedd oedi wrth recriwtio a oedd yn effeithio ar y broses o roi ymyriadau ar waith, natur fyrhoedlog cyllid a oedd yn arwain at ansicrwydd swyddi i'r staff, a gweithio gydag adnoddau a gallu cyfyngedig mewn amgylchedd lle mae gan bobl ifanc anghenion cynyddol a chymhleth a lle ceir gofynion cynyddol ar y system gymorth. Ystyriwyd bod effaith pandemig COVID-19 wedi cynyddu'r cymhlethdodau hyn a'r gofynion ar wasanaeth, gyda bylchau mewn darpariaeth iechyd meddwl ar gyfer ymyriadau cynnar ac mewn argyfwng. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd deall lefel y gwaith a'r adnoddau sy'n ofynnol i gefnogi cymunedau'n effeithiol. Rhoddwyd enghreifftiau hefyd o rwystrau o ran cyfathrebu a rhannu gwybodaeth, a'r ymrwymiad sy'n ofynnol er mwyn lleihau achosion o ddyblygu gwaith, gweithio seilo a hyrwyddo ymwybyddiaeth o ymyriadau a'u buddiannau.

Roedd y canfyddiadau'n tynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio dull sy'n ystyriol o drama ar gyfer y gweithgareddau atal trais. Disgrifiodd partneriaid ffactorau risg i bobl ifanc, gan gynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, niwroamrywiaeth ac iechyd meddwl gwael. Gwnaethant hefyd nodi bod llawer o bobl ifanc wedi ymddieithrio o'r ysgol, gan dynnu sylw at y rôl hanfodol sydd gan addysg i'w chwarae yn creu ffactorau amddiffynnol ac yn cydnabod ffactorau risg. Nodwyd rhwystrau i deuluoedd ymgysylltu â gwasanaethau am eu bod wedi'u llethu drwy gael eu cynnwys gyda sawl sefydliad a phrofiadau negyddol blaenorol o gymorth a oedd wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth a diffyg ymgysylltiad rhieni. Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i wasanaethau gydweithio i roi cymorth teulu cyfan cofleidiol a hygyrch. Ystyriwyd bod cael staff profiadol a medrus yn allweddol i hyn, gan sicrhau y gallent weld y tu hwnt i'r ymddygiad/digwyddiad cychwynnol er mwyn meithrin ymddiriedaeth, eiriol dros y bobl ifanc a gwneud i bob cyswllt gyfrif.

*"Mae'n heriol. Rydych yn ceisio hyrwyddo'r gwaith cydweithredol newydd hwn ac yna mae pobl, sefydliadau ac unigolion yn dychwelyd i fod eisiau gweithio mewn seilos ac mae'n anodd iawn gwneud y math hwnnw o newid mewn diwylliant"* (Rhanddeiliad)

*"Efallai nad yw pobl yn deall effaith y trawma sy'n bosibl o bethau fel bod yn rhan o gang neu weld rhywun yn cael ei drywanu a'i frifo. "Rwy'n meddwl bod pobl yn diystyru trawma a sut y gall effeithio ar eich iechyd meddwl"* (Rhanddeiliad)

*"Wedi fy amddiffyn rhag perygl a'm haddysgu beth sy'n gywir a beth sy'n anghywir"* (person ifanc)

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn rhoi tystiolaeth o ganlyniadau unigol pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau a'r cymorth atal trais a ariennir gan yr Uned Atal Trais. Mae hyn yn cynnwys creu ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael a sut i gael gafael arno, chwalu rhwystrau a lleihau stigma, er mwyn gallu cael gafael ar gymorth, a meithrin cydberthnasau diogel y gellir ymddiried ynddynt er mwyn ymgysylltu â gwasanaethau. Roedd yr adborth gan ddarparwyr gwasanaethau a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn cynnwys bod gan bobl ifanc fwy o wybodaeth am risgiau ac ymwybyddiaeth ohonynt a'u bod yn gwneud dewisiadau hyddysg, yn datblygu strategaethau ymdopi amgen ac yn mwynhau iechyd a llesiant gwell, gan gynnwys mwy o wydnwch a mwy o hunan-barch a hyder. Roedd cymryd rhan mewn gweithgareddau ymyrryd hefyd yn cynnig strwythur a threfn, a chyfle i bobl ifanc feithrin sgiliau i'w helpu i symud ymlaen â'u bywydau. Roedd adroddiadau hefyd am effeithiau ehangach ar ffurf cydberthnasau gwell rhwng pobl ifanc a ffrindiau a theulu a llai o achosion o drais. Er enghraifft, dywedodd un person ifanc ei fod yn teimlo'n fwy diogel ar ôl cymryd rhan mewn gweithgareddau i atal troseddau cyllyll. Yn wir, roedd rhanddeiliaid yn gobeithio y byddai cymorth o'r ymyriadau yn arwain at lai fyth o achosion o drais, gyda phobl ifanc yn teimlo'n rhan o'u cymunedau ac yn ddiogel ynddynt.

*"Rwy'n siarad â MAC, ond rwy'n siarad â phobl eraill nawr hefyd, rwy'n siarad â'm ffrindiau a'm teulu" (person ifanc)*

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad hefyd yn rhoi tystiolaeth o effaith y gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Lleihau Trais ar draws y system ehangach. Arweiniodd y cyllid gan yr Uned Atal Trais at fwy o gapasiti mewn gwasanaethau gan olygu bod ganddynt gyrhaeddiad ehangach i ymgysylltu â mwy o weithwyr proffesiynol a phobl ifanc. Rhoddwyd enghreifftiau o welliannau o ran gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol, a oedd yn cynnwys mwy o ymarfer sy'n ystyriol o drawma. Dengys canfyddiadau hefyd waith partneriaeth a llwybrau gwell, mwy o gyrhaeddiad, ynghyd â datblygiad llwybrau hygyrch at gymorth ac ymwybyddiaeth ohonynt (gan gynnwys defnydd mwy priodol o lwybrau). Cafwyd adroddiadau o brosesau gwell i rannu gwybodaeth ac adrodd a oedd yn golygu y gellid targedu adnoddau ac ymatebion yn well.

*"Rwy'n meddwl bod angen i ni gael dulliau adrodd sy'n edrych ar ein heffaith a'n perfformiad a meddwl am dulliau o fesur llwyddiannau a chanlyniadau. Dydw i ddim yn meddwl ein bod yn mesur yr effaith mor gadarn ag y gallem fod yn ei wneud" (Rhanddeiliad)*

Tynnwyd sylw at rhwystrau o ran sicrhau bod data'n cael eu caffael yn effeithiol ac roedd partneriaid yn cydnabod pwysigrwydd casglu data, gan gynnwys ansawdd y data, er mwyn rhoi tystiolaeth o effaith a chefnogi cynaliadwyedd ymyriadau. Nodwyd yr angen am gymorth ychwanegol, o bosibl gan yr Uned Atal Trais er mwyn cefnogi system ganolog i ddod â'r holl wybodaeth a chudd-wybodaeth ynghyd. Roedd adroddiadau'r Swyddfa Gartref ar ddangosyddion perfformiad ar gyfer gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Lleihau Trais yn gyfyngedig o ran adlewyrchu gwir natur yr ymyriadau, a gellid eu haddasu a'u teilwra ymhellach ar gyfer yr ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais.

Dengys canfyddiadau'r gwerthusiad fod y model comisiynu a chyflawni yn cyfrannu at nodau cyffredinol ehangach lleihau trais a niwed ymysg plant a phobl ifanc, a'i fod yn creu cymunedau mwy diogel ledled Cymru. Er bod darparwyr y gwasanaethau yn bodoli cyn iddynt weithio gyda'r Uned Atal Trais, mae canfyddiadau gwerthuso yn dangos, heb y cyllid a'r cymorth gan yr Uned Atal Trais i sefydlu a chynnal llwybrau cymorth, na fyddai'r canlyniadau hyn drwy'r system wedi cael eu cyflawni. Gan ystyried cynaliadwyedd y gwasanaethau a gynigir, tynnodd partneriaid sylw at y ffaith na fyddai gan ddarparwyr yr un cyrhaeddiad i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd heb gyllid parhaus a hirdymor.



Nodwyd bod hyn yn bryder o ystyried y cymhlethdodau cynyddol a wynebir gan gymunedau a'r gofynion cynyddol ar y system. Mae canfyddiadau gwerthuso yn tynnu sylw at y ffaith bod gwaith partneriaeth effeithiol yn cefnogi dull cynaliadwy o atal trais ledled Abertawe. Mae enghreifftiau o arferion gorau o astudiaeth achos Abertawe yn cynnig gwersi pwysig i ardaloedd eraill ledled Cymru. Cytunwyd hefyd fod y model yn cynnig y cyfle i weithio'n agos gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, Diogelu Cyd-destunol yr Awdurdod Lleol a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i ddatblygu a chysoni strategaethau i wella cydlyniant a diogelwch cymunedol. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â chyflwyno'r Ddyletswydd Trais Difrifol.

### Argymhellion ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar draws y system

- Gallai'r Uned Atal Trais weithio gyda'r darparwyr atal cyffredinol i sicrhau bod lefelau uwch o sefydliadau addysgol ac ysgolion ledled Abertawe yn cymryd rhan. Gall fod angen cymorth y llywodraeth i annog ymgysylltiad.
- Ymysg yr enghreifftiau o arferion gorau, tynnwyd sylw at y gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau statudol a gwirfoddol mewn gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Atal Trais. Dylid ehangu ar hyn ymhellach ar draws y sector gwirfoddol er mwyn ymgysylltu'n well â chymunedau. Gellid defnyddio'r hyn a ddysgwyd gan y tîm diogelu cyd-destunol yma.
- Mae'r ymyriadau yn Abertawe yn enghreifftiau da o waith partneriaeth i wella adnoddau ar draws y system o ran gwaith sy'n ystyriol o drawma. Gellid cysylltu hyn â hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ym mhob rhan o'r gweithlu.
- Mae'r holl ymyriadau yn cynnwys mewnbyn ar lefel strategol a gweithredol sy'n bwysig ar gyfer cyflawni'n effeithiol, gyda gwaith gweithredol ar y llinell flaen yn llywio penderfyniadau strategol. Dylai'r Uned Atal Trais ystyried sut y gall ymgysylltu'n fwy anffurfiol â staff llinell flaen er mwyn cael proses adborth ddwyffordd.
- Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at fwch mewn darpariaeth cymorth iechyd meddwl (ar gam ymyrryd yn gynnar ac mewn argyfwng) a chynrychiolaeth ar lefel partneriaeth. Os nad ydych eisoes wedi gwneud hyn, dylid gwahodd cydweithwyr iechyd meddwl o'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach i banel CMET a gallai'r Uned Atal Trais archwilio'r broses o greu llwybr cymorth iechyd meddwl i mewn i ymyriad wedi'i ariannu gan yr Uned Atal Trais yn y dyfodol.
- Gallai partneriaid allweddol a'r Uned Atal Trais gydweithio i ddatblygu strategaeth gyfathrebu sy'n addas i bobl ifanc. Awgrymodd rhanddeiliaid y gallai'r ffocws symud i ffwrdd oddi wrth gario cyllyll a chanolbwyntio ar ddefnyddio iaith a rennir a straeon newyddion da.
- Lle y bo'n bosibl, byddai cyllid tymor hwy yn golygu y byddai llai o darfu ar y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y gweithlu a defnyddwyr gwasanaethau. Mae hefyd yn golygu y gellir cynnal gwerthusiad tymor hwy i allu deall gwir effaith ymyriadau. Dylai gwasanaethau atal trais weithio ochr yn ochr â'r Uned Atal Trais i ddatblygu achos busnes a model cynaliadwy y tu hwnt i gyllid yr Uned Atal Trais.
- Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol er mwyn cydweithio. Mae angen i ymyriadau sy'n cynnwys sefydliadau gwahanol gynnwys pob partner allweddol sy'n cymryd rhan o'r dechrau er mwyn llywio'r broses gynllunio a gweithredu. Bydd hyn yn cyfrannu at berchnogaeth a chyfrifoldeb a rennir. Gall aelodaeth amlasiantaethol yr Uned Atal Trais hwyluso gwasanaethau i rannu cyfrifoldebau.
- Mae aelodaeth panel CMET yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol sy'n rhan o'r Uned Atal Trais a gweithgarwch atal trais ehangach ledled Abertawe. Dylai hyn barhau i redeg, gan adolygu'r aelodaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob partner a sector yn cymryd rhan. Os nad yw hyn eisoes yn digwydd, dylid gwahodd adrannau iechyd cyhoeddus, a gallai'r Uned Atal Trais

weithio gyda chydweithwyr o'r byd addysg i nodi'r cydweithwyr sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r cyfarfodydd hyn.

- Gellid cofnodi cudd-wybodaeth a ddefnyddir ar gyfer CMET yn swyddogol er mwyn creu allbynnau mwy ffurfiol gan gynnwys argymhellion a arweinir gan gudd-wybodaeth i lywio cyfeiriad adnoddau ar draws y system. Byddai angen adnoddau a chapasiti ychwanegol i gefnogi hyn. Gallai'r Uned Atal Trais weithio gyda Chyngor Abertawe i archwilio dichonoldeb hyn.
- Mae'r gwaith a wneir gan y tîm diogelu cyd-destunol yn unigryw ac mae'n cefnogi dull diogelu sy'n ystyriol o drawma. Gallai Abertawe ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd i arddangos y gwaith hwn fel arfer gorau a'r hyn a ddysgwyd ar gyfer ardaloedd eraill ledled Cymru.

### Argymhellion ar gyfer dangos effaith ym mhob rhan o'r system

- Ym mlwyddyn gyntaf yr Uned Atal Trais, datblygodd yr Uned Atal Trais a Phrifysgol John Moores Lerpwl becyn cymorth gwerthuso i gefnogi'r Uned Atal Trais a darparwyr a ariennir ganddi i wella'r broses o ddangos effaith gweithgareddau atal trais ledled Cymru. Gellid defnyddio'r pecyn offer yn fwy eang i gefnogi gwerthusiad cyson. Gallai partneriaid yr Uned Atal Trais gydweithio i ddatblygu fframwaith canlyniadau safonol ymhellach ar gyfer model atal trais Uned Atal Trais Abertawe. Argymhellir y dylai rhan greiddiol o'r fframwaith hwn fod yn gyson ar draws gwasanaethau er mwyn dangos effaith systemau cyfan. Fodd bynnag, dylai'r fframwaith hwn hefyd sicrhau rhyddid i wneud addasiadau ar gyfer ymyriadau gwahanol. Dylai hyn gynnwys canlyniadau llai pendant a nodau wedi'u teilwra yn seiliedig ar anghenion a nodau cleientiaid unigol.
- Gall ymarferion mapio data a sicrhau ansawdd fod yn ddefnyddiol ar gyfer ymyriadau unigol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau y caiff y data priodol eu casglu i adlewyrchu'r ddarpariaeth ac effaith y ddarpariaeth honno.
- Dylid cyflwyno data ar ganlyniadau ar gyfer adroddiadau am achosion o fynd i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a throsedd, yn ogystal â data eraill, gyda naratif i ddangos effaith fyrdymor ac osgoi camddehongli.
- Gellid archwilio data ar ymyriadau ynghyd â setiau data ehangach o fewn Porth Atal Trais Cymru i olrhain effaith bosibl ar draws y system ehangach (er enghraifft data TIIG). Gall hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar gudd-wybodaeth data fod yn ddefnyddiol er mwyn i gydweithwyr ddeall y darlun ehangach a sut y gall data canlyniadau ddylanwadu ar weithredoedd.
- Dylai astudiaethau achos dienw barhau i gael eu datblygu ar draws ymyriadau mewn templed safonol i'w ddefnyddio wrth werthuso (yn fewnol ac yn allanol) i ddangos effaith gwasanaethau. Dylid cael cydsyniad gan ddefnyddwyr gwasanaethau cyn ei ddefnyddio ar gyfer y cyhoedd.
- Mae'r gwerthusiad yn tynnu sylw at ymarfer data arfer gorau a gynhaliwyd gan Gyngor Abertawe. Gellid ehangu'r ymarfer casglu data hwn a'i ymgorffori fel mater o drefn i ddwyn data ynghyd ar draws y system. Byddai angen adnoddau a chapasiti ychwanegol i gefnogi hyn. Gallai'r Uned Atal Trais a Chyngor Abertawe weithio ar y cyd i sicrhau y caiff y gudd-wybodaeth fwyaf priodol ei chasglu o bob rhan o'r system ehangach.
- Caiff y rhan fwyaf o'r ymyriadau eu gwerthuso'n lleol ac yn genedlaethol. Byddai'n ddefnyddiol i bartneriaid gwerthuso ddod ynghyd i sefydlu grŵp cynghori ar werthuso i rannu canfyddiadau (lle y caniateir hynny) ac i gysoni dulliau recriwtio i sicrhau nad ymchwilir yn ormodol i wasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau neu na ofynnir gormod ganddynt.

- Mae adborth gan bobl ifanc yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys llais defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio, gweithredu, darparu a gwerthuso ymyriadau. Dylai darparwyr gwasanaethau a gwerthuswyr barhau i sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd y broses o ddylunio a darparu ymyriadau, gan ymgorffori prosesau cyd-gynhyrchu lle y bo'n bosibl. Dylai hyn fod yn ffocws allweddol ar gyfer gwerthusiadau blwyddyn olaf gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Atal Trais i ddeall gwaddol yr Uned Atal Trais yn well ac i ddatblygu cynllun cynaliadwyedd.

## Astudiaethau achos o ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais

### Astudiaeth achos 1: CMET a'r Tîm Diogelu Cyd-destunol

Mae'r tîm Cyd-destunol, Coll, Wedi'u Hecsbloetio a'u Masnachu (CMET) yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr ieuencid sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer diogelu am fod rhywun wedi camfanteisio arnynt neu eu cam-drin y tu allan i'r teulu. Mae'r tîm yn gweithio i ymateb i anghenion unigol y bobl ifanc. Grŵp amlasiantaeth yw'r Panel CMET, sy'n cwrdd bob pythefnos i ystyried cyd-destunau, themâu a thueddiadau mewn perthynas â chamfanteisio (yn hytrach nag achosion unigol). Ymhlith y partneriaid mae Heddlu De Cymru, Diogelwch Cymunedol, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid a sefydliadau yn y trydydd sector. Mae'r panel hefyd yn darparu gwasanaethau cymorth arbenigol mewn perthynas â bregusrwydd fel camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, digartrefedd a thrais, neu'n hwyluso mynediad i hynny. Mae hefyd yn canolbwyntio ar leoliadau problemus a nodwyd ledled Abertawe a grwpiau cymheiriaid ac mae'n darparu gweithgareddau allgymorth wedi'i dargedu.

Mae diogelu cyd-destunol yn ymarfer sy'n gofyn am i weithwyr amddiffyn plant proffesiynol gydnabod cyd-destunau cydberthnasau i unigolion a chymryd camau gweithredol i newid y cyd-destunau hynny. Mae'r dull hwn yn ystyried rôl a risgiau cam-drin y tu allan i'r teulu wrth ddiogelu plant a phobl ifanc. Mae Abertawe yn un o bum safle peilot ledled Cymru a Lloegr (a'r unig un yng Nghymru) sy'n gweithio gyda Phrifysgol Swydd Bedford i ymgorffori system diogelu cyd-destunol o fewn ei Wasanaethau Plant.

### Gweithredu

Mae'r panel CMET yn annibynnol ar yr Uned Atal Trais, ond teimlwyd bod y cyllid gan yr Uned Atal Trais yn gwella ac yn cefnogi gwaith CMET a diogelu cyd-destunol yn Abertawe. Mae'r ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais, gan gynnwys St Giles, MAC, Fearless, Cyfleoedd Dysgu Digymell a'r Tîm Atal Trais (gweler yr astudiaethau achos eraill), wedi'u cynrychioli ar banel CMET ac yn gweithredu o fewn y fframwaith hwn.

Yn ystod 2021/22, cafodd gweithiwr ieuencid sy'n rhan o Dîm Diogelu Cyd-destunol Cyngor Abertawe ei ariannu gan yr Uned Atal Trais. Mae'r tîm (ar y cyd â Gwasanaeth Ieuencid Evolve) yn cynnwys dau uwch-weithiwr cymdeithasol a phum gweithiwr ieuencid (ariennir y rolau ychwanegol hyn gan yr awdurdod lleol) sy'n darparu presenoldeb gwaith ieuencid datgysylltiedig ac allgymorth, ochr yn ochr â mynediad at wasanaethau cymorth arbenigol a ddarperir gan YMCA Abertawe, Llamau (elusen digartrefedd flaenllaw) a Barod (gwasanaeth cymorth camddefnyddio sylweddau), mewn ardaloedd problemus a nodwyd yn Abertawe. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i thargedu at bobl ifanc 11-25 oed. Mae'r Uned Atal Trais hefyd wedi ariannu Cydlynnydd Ymyrryd yn Gynnar ac Atal Abertawe. Nod y dull hwn yw gwneud y canlynol:

- Darparu tîm ystwyth a hyblyg i weithio yn ystod y dydd, gyda'r nos, dros nos, yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau, gan weithio gyda phobl ifanc i ddarparu gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar ar y stryd lle y gallai rhywun gam-fanteisio'n droseddol ar bobl ifanc a lle y gallai pobl ifanc ddod yn rhan o drais, cario arfau, a dod yn rhan o gangiau a llinellau cyffuriau.
- Meithrin cydberthnasau, darparu gwybodaeth, cynnig cymorth a chasglu gwybodaeth am anghenion a phrofiadau'r bobl ifanc yn yr ardal, gan lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth ymatebol wedi'i ddylunio ar y cyd â phartneriaid a phobl ifanc.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfres o wasanaethau ychwanegol fel cymorth cyflogadwyedd, cwnsela, a chymorth tai yn ôl yr angen, a chyfeirio neu atgyfeirio pobl ifanc at wasanaethau a ddarperir gan Barod, Llamau a YMCA Abertawe.

## Cyflawni

Pan ddaw atgyfeiriad i law'r Tîm Gwaith Ieuencid, cynhelir asesiad cychwynnol ac os caiff unrhyw bryderon yn ymwneud â chamfanteisio neu ddiogelu cyd-destunol eu codi, caiff achos y person ifanc ei atgyfeirio at y tîm CMET, a fydd wedyn yn cyfeirio'r plentyn at weithiwr cymdeithasol er mwyn ymgymryd â phroses amddiffyn plant. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r hyn a all fod yn digwydd ym mywyd y person ifanc y tu allan i'w gartref, er enghraifft ei gydberthnasau â'i gyfoedion a'i grwpiau cyfeillgarwch yn ogystal â'i ysgol, ac unrhyw bresenoldeb posibl mewn gang neu aelodaeth o gang. Teimlwyd mai rôl CMET oedd datblygu fframwaith nad yw'n troseddoli pobl ifanc, gan ystyried llwybrau cefnogol a rôl bwysig ymyrryd yn gynnar, cymorth a help yn lle hynny.

Roedd anghenion y bobl ifanc a allai gael eu cefnogi gan y Tîm Gwaith Ieuencid neu eu hystyried o fewn cyd-destun y tîm CMET yn cynnwys: iechyd meddwl, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) heb ddiagnosis, Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASD), Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a chamfanteisio ar-lein, Plant sy'n Derbyn Gofal a phroblemau camddefnyddio sylweddau rhieni Teimlwyd hefyd fod pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar drais. Mae adroddiadau chwarterol i'r Uned Atal Trais yn tynnu sylw at natur gymhleth achosion a drafodir yn CMET. Mae gan CMET nifer o bobl ifanc sy'n destun Protocol (cyfres o gyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth a gynhelir bob chwe wythnos i drafod y risgiau, y cryfderau a'r materion diogelu sy'n gysylltiedig â'r math o niwed), y mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol amdanynt. Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn destun protocol am gyfnod o 97 i 126 diwrnod ar gyfartaledd.

Siaradodd un rhanddeiliad am ymchwiliad annibynnol diweddar i achosion o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr.<sup>1</sup> Nododd ei fod wrthi'n edrych ar yr argymhellion a'r canfyddiadau i archwilio bylchau i gefnogi plant anabl, yr ystyrir eu bod yn wynebu mwy o risg o niwed rhywiol ac achosion o feithrin perthynas amhriodol. Teimlwyd bod ymyrryd yn gynnar yn allweddol, a nododd rhanddeiliaid nad dim ond i'r rheini â phroblemau gweladwy neu yr ystyrir eu bod yn fwyaf agored i niwed/yn wynebu'r risg mwyaf y dylid darparu cymorth. Teimlwyd hefyd na ddylid o reidrwydd ganolbwyntio ar weithgareddau tarfu, ond ar sut i ennyn diddordeb pobl ifanc a'u haddysgu. Er enghraifft, cysylltu â phobl ifanc ar draws lleoedd a manau. Lle y cesglir gwybodaeth am leoliad penodol, bydd y Tîm Gwaith Ieuencid a gweithwyr proffesiynol eraill yn ymweld â'r lleoliad er mwyn codi ymwybyddiaeth y gymuned gyfan o gamfanteisio. Gall hyn hefyd gynnwys ystyried yr amgylchedd (e.e. ystyried goleuadau, tocio llwyni) a hyfforddi busnesau i fod yn fannau diogel (dweud wrthynt i bwy y dylid rhoi gwybod am bryderon a beth i'w wneud os byddant yn gweld rhywbeth yn digwydd). Mae'r adroddiadau chwarterol yn dangos bod CMET wedi darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol o amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys tîm iechyd a llesiant ysgol, gweithwyr proffesiynol amlasiantaeth, gwasanaethau cymdeithasol, a cheidwaid dinasoedd.

Nodwyd bod CMET yn ymwneud â hwyluso pobl a sicrhau bod y bobl gywir a all ymgysylltu â phobl ifanc yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd. Ystyriwyd bod galluogi plant a phobl ifanc i roi adborth ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod ble y gallant ddod o hyd i fannau diogel a cheisio cymorth, yn hanfodol i ddatblygu system diogelu cyd-destunol yn Abertawe. Mae a wnelo hyn â gweithwyr proffesiynol yn meithrin cydberthnasau â phobl ifanc ac yn eu hannog i fabwysiadu dull lleihau niwed. Caiff codau QR hefyd eu gosod o gwmpas ardaloedd problemus, y gall pobl ifanc eu sganio er mwyn rhoi gwybod am unrhyw beth y byddant yn ei weld yn gyfrinachol gan ddefnyddio gwefan Fearless (CrimeStoppers) a chael gafael ar amrywiaeth o gymorth yn y fan a'r lle.

---

<sup>1</sup> <https://www.iicsa.org.uk/reports-recommendations/publications>

*“Rydym wedi gwneud llawer o waith tarfu cadarnhaol da iawn. Un enghraifft oedd ardal glan môr lle roedd problem yn ymwneud â phobl yn camfanteisio ar bobl ifanc a oedd yn mynd yno. Gwnaethom lawer o waith gwahanol mewn perthynas â hynny gan ddefnyddio codau QR, Media Academy, St Giles, yr heddlu, diogelwch cymunedol. Roedd gan bawb un ffocws” (Rhanddeiliad)*

*“Rydym hefyd yn ceisio meddwl yn greadigol ynglŷn â sut i ddarparu'r cymorth a'r diogelwch hwnnw i bobl ifanc yn y manau lle maent yn treulio amser.” (Rhanddeiliad)*

## **Partneriaethau**

Ystyriwyd bod y cysylltiadau rhwng yr Uned Atal Trais a CMET yn gryf, gyda chysylltiadau strategol a gweithredol da sy'n adlewyrchu lefel y gwaith a'r cydweithio dan sylw. Teimlwyd bod CMET yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â thîm yr Uned Atal Trais, sy'n mynychu cyfarfodydd panel er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yn Abertawe, yn ogystal ag ystyried yr hyn a allai fod o fudd i'r ardal. Teimlwyd fod cydweithwyr o'r Uned Atal Trais yn deall sut mae arferion wedi datblygu mewn 'amser real' ac yn gallu codi ymwybyddiaeth o ran ble mae problemau'n bodoli am fod ganddynt safbwynt cyffredinol. Teimlwyd hefyd fod yr Uned Atal Trais yn gyfrwng i ddod â sefydliadau ynghyd.

*“Mae wedi mynychu ein panel CMET ac wedi siarad â ni'n eithaf aml, ac mae'n cysylltu â ni i ofyn am ein barn am yr hyn a fydd o fudd yn ein hardal ni. Felly mae'n gwrandao arnom o ran yr hyn rydym yn ei weld a'r hyn sy'n digwydd” (Rhanddeiliad)*

Ar gyfer CMET, teimlwyd bod dull amlasiantaeth amlwg ar waith. Nodwyd bod yr heddlu yn bartner allweddol a thynnwyd sylw at rolau addysg, iechyd, sefydliadau yn y trydydd sector (e.e. St Giles mewn rôl benodol) a meysydd cyfiawnder troseddol eraill, gan gynnwys gwasanaethau prawf a'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid. Nodwyd hefyd gyfranogiad meysydd allweddol eraill yn yr awdurdod lleol, gan gynnwys adrannau safonau masnach, cynllunio ac adfywio, a thrwyddedu. Cydnabuwyd bod yr holl bartneriaid yn darparu ymatebion gweithredol er mwyn nodi problemau, y ffordd orau o ymgysylltu â phobl ifanc, a sut i ymateb i heriau a rhwystrau a wynebir. Un enghraifft a roddwyd gan un o'r rhanddeiliaid oedd achos o drywanu yn Abertawe. Teimlwyd bod y digwyddiad hwn wedi cael effaith fawr ar y gymuned leol. Trefnwyd panel CMET eithriadol er mwyn dod â'r holl bartneriaid ynghyd i ystyried sut y gellid ymdrin â hyn ar lefel system er mwyn cefnogi'r gymuned yn gyflym.

*“Cafodd effaith enfawr ar y gymuned. Felly gwnaethom lwyddo i gynnal CMET eithriadol er mwyn dod â'r holl bartneriaid ynghyd. Gwnaethom drefnu bod ein gweithwyr ieuencid ynghyd â'n gweithwyr iechyd a llesiant emosiynol o'r Hybiau Cymorth Cynnar yn ymweld â'r ysgolion yr effeithiwyd arnynt, er mwyn darparu cymorth ar unwaith. Roeddem yn pryderu am y sgil-ffeithiau. Ymunodd Media Academy [Cymru] â ni...Felly, bu modd cynnal y trafodaethau hynny am drawma, sut i ymdrin â phethau, a chynllunio diogelwch yn y gymuned. Gwnaethom ymestyn oriau agor y clybiau ieuencid am resymau diogelwch, gan nad oedd pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel yn y gymuned. Gwnaethom drefnu gwasanaeth cwnsela er mwyn i bobl ifanc allu dod i siarad â chwrselydd” (Rhanddeiliad)*

*“Rydym yn gweithio gyda sefydliadau ehangach sy'n chwarae rolau mwy penodol... gan ddod â'r holl bethau gwahanol hynny ynghyd i ddarparu ymateb gweithredol... Rydym yn nodi gwahanol broblemau sy'n codi neu'n debygol o godi, ac yna'n ystyried yr hyn y gallwn ei wneud. Rydym wedi myfyrio ar y problemau hynny rydym wedi eu colli efallai, ac wedi ystyried pam aeth pethau o le?” (Rhanddeiliad)*

Yn lleol, teimlwyd bod darlun da ar draws sefydliadau o'r hyn sy'n digwydd a theimlwyd bod hyn yn cael ei lywio gan CMET ar y byrddau diogelwch cymunedol. Siaradodd un rhanddeiliad am

bwysigrwydd dull amlasiantaeth o ymdrin â chyfathrebu ac iaith. Fel enghraifft, nododd y gall negeseuon am bobl ifanc yn cario cyllyll allu arwain at fwy o bobl ifanc yn cario cyllyll er mwyn amddiffyn eu hunain, yn hytrach na'u hatal rhag gwneud hynny, gan dynnu sylw at y ffaith y gall arwain at ganlyniadau negyddol anfwriadol. Tynnodd sylw at y gwaith roedd rhaglen Braver Choices MAC yn ei wneud gyda phobl ifanc a chydweithwyr i geisio chwalu rhai o'r negeseuon hyn a hyrwyddo'r iaith gywir mewn strategaethau cyfathrebu.

*“Gwneud yn siŵr nad ydym yn creu negeseuon camarweiniol...mae Media Academy [Cymru] wedi bod yn gymorth mawr wrth ein helpu i ystyried ein dulliau cyfathrebu, sut rydym yn cyfathrebu â phobl ifanc a sut rydym yn eu targedu. Mae'r cymorth hwnnw wedi bod yn gam cadarnhaol iawn ymlaen i ni” (Rhanddeiliad)*

*“Ond os bydd angen gwasanaethau penodol arnom, er enghraifft os byddwn yn gweld bod problem fawr yn ymwneud â throeddau cyllyll, byddwn yn galw ar Media Academy [Cymru] gan ei fod yn arbenigo yn y maes hwnnw. Felly byddwn yn ymweld â'r ysgol neu'r ardal ac yn meithrin y cydberthnasau ac yn cydlynu popeth. Ond wedyn, byddwn hefyd yn galw ar y partneriaid a'r Uned Atal Trais am gyllid” (Rhanddeiliad)*

Cyfeiriodd rhanddeiliaid hefyd at y ffaith bod yr heddlu yn rhan o Hyb Diogelu Integredig Abertawe a bod y cydweithio hwn yn galluogi dull cydweithredol gwirioneddol, yn enwedig ar gyfer rhannu cudd-wybodaeth. Teimlwyd bod y Tîm Gwaith Ieuencid wedi cefnogi'r heddlu mewn perthynas â dulliau atgyfeirio cenedlaethol (NRMau). Roedd cydberthnasau â thimau plismona lleol wedi gwella hefyd ers sefydlu'r panel CMET. Teimlwyd bod meithrin y cydberthnasau hyn a chynnwys mwy o weithwyr proffesiynol mewn sgysiau strategol a gweithredol wedi helpu i wella dull sy'n fwy ystyriol o drawma ar gyfer atal trais yn Abertawe. Roedd hyn yn cynnwys newid diwylliannol yn null gweithredu gweithwyr proffesiynol a oedd yn dechrau archwilio *pam* y mae plentyn yn cario cylllell neu *beth* a wnaeth iddo wynebu achosion o gamfanteisio.

*“Felly yn fwy diweddar, pan fyddai'r heddlu yn mynd i mewn i eiddo ac yn siarad â'r Tîm Gwasanaeth Ieuencid ymlaen llaw, gan wybod bod plentyn yno ... gallent ganolbwyntio ar elfen blismona eu gwaith, a gallai gweithiwr cymdeithasol fod yno i gefnogi'r plentyn. Cyn hyn, byddem wedi cael ein galw ar ôl iddynt fynd i mewn i'r eiddo a gwneud yr hyn roedd angen iddynt ei wneud” (Rhanddeiliad)*

*“Pan fydd ymweliadau ar y cyd, efallai o safbwynt trwyddedu, â safle a allai fod yn gwerthu alcohol neu sylweddau anghyfreithiol ac rydych yn gwybod bod cudd-wybodaeth. Pan fyddant wedi gweithredu ar y cyd â'r tîm trwyddedu a'r heddlu a safonau masnach, rydyn ni wedi mynd yno hefyd, rhywbeth nad yw'n digwydd fel arfer. Felly rydym yn gwneud cynnydd mawr ac yn diogelu'r plant sy'n bresennol ... Felly mae pethau wedi gwella'n aruthrol o gymharu â dwy flynedd yn ôl” (Rhanddeiliad)*

Siaradodd un rhanddeiliad yn gadarnhaol am y posibilrwydd y gallai'r gydberthynas rhwng yr Uned Atal Trais a CMET ddatblygu ymhellach, er mwyn annog y broses o rannu data rhwng yr Uned Atal Trais a'r panel CMET. Teimlwyd ei bod yn bwysig canolbwyntio adnoddau lle mae eu hangen, ond nad yw'n bosibl gwneud hyn yn annibynnol, a bod cydweithio yn bwysig er mwyn adnabod rhwydweithiau camfanteisio ar blant yn fwy effeithiol. Nodwyd bod angen lle canolog i gasglu'r holl wybodaeth a chudd-wybodaeth ynghyd er mwyn ystyried ble mae angen targedu adnoddau, sut i wneud y gorau o rolau pobl ac, yn bwysig, cydnabod unrhyw fylchau. Nodwyd gwaith posibl arall mewn perthynas â gwaith ieuencid datgysylltiedig lle nad oes gan weithwyr proffesiynol gysylltiad uniongyrchol â'r ganolfan ieuencid.

*“Ystyried sut rydym yn casglu'r data a beth rydym yn ei wneud ynglŷn â'u defnyddio a'u casglu ynghyd, oherwydd does gennym ddim lle canolog i gasglu popeth ynghyd”  
(Rhanddeiliad)*

## **Rhwystrau**

Nodwyd nifer o rwystrau yn ymwneud â diogelu cyd-destunol yn Abertawe, a oedd yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth a goruchwyliaeth weithredol, yn ogystal â bylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Teimlwyd bod CMET yn dda am 'gydlynu a chyfarwyddo' gwaith diogelu cyd-destunol, ond nad yw hyn yn y cael ei adlewyrchu 'o ddydd i ddydd' a bod angen mwy o oruchwyliaeth weithredol. Cydnabu un rhanddeiliad fod y system yn seiliedig ar ddull iechyd y cyhoedd, ond nododd y gellid sicrhau cysylltiadau gwell â chydweithwyr ym maes iechyd y cyhoedd yn y gweithgareddau diogelu cyd-destunol yn Abertawe.

*“Mae gan iechyd y cyhoedd yr arbenigedd i ddelio â rhai o'r pethau hyn a'u rheoli ar ein rhan. Ein helpu i ddangos sut mae ein gwaith yn berthnasol, mae'n ymddangos fel pe baent yn ddarn coll o'r jig-so” (Rhanddeiliad)*

Teimlwyd bod rhwystrau i gael cymorth iechyd meddwl, fel rhestrau aros hir, diffyg adnoddau, a diffyg cefnogaeth. Nodwyd hefyd fod bylchau mewn gweithgareddau ymyrryd yn gynnar a chodi ymwybyddiaeth a arferai gael eu llenwi gan sefydliadau yn y trydydd sector nad oes ganddynt y briff/portffolio hwnnw mwyach. Cydnabu un rhanddeiliad fod bwlch yn y ddarpariaeth ymyrryd yn gynnar a chodi ymwybyddiaeth ar hyn o bryd, yr ystyriwyd ei bod yn bwysig iawn; felly hefyd gyswllt â chymunedau a meithrin cysylltiadau â chymunedau. Teimlwyd bod bwlch o ran darparu gofal i oedolion ifanc dros 18 oed. Mynegwyd pryderon am bobl ifanc dros 18 oed y mae rhywun yn meithrin perthynas amhriodol â nhw neu'n eu gorfodi, oherwydd teimlwyd bod yr oedolion ifanc hyn yn aml yn cael eu hystyried yn oedolion cwbl gyfrifol sydd wedi gwneud dewisiadau anghywir, er gwaethaf yr effaith y mae achosion o feithrin perthynas amhriodol yn ei chael ar unigolion i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Teimlwyd hefyd fod angen ystyried y defnydd o labelu ac iaith mewn perthynas â cham-drin rhywiol ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed.

*“Mae'r ffaith bod rhywun, ddiwrnod ar ôl ei ben-blwydd yn 18 oed, yn agored i rywun yn meithrin perthynas amhriodol ag ef yn achosi poen meddwl i mi. Bydd rhywun yn troi'n 18 oed ac yn sydyn, bydd yn oedolyn sy'n gwneud dewisiadau gwael. A dweud y gwir, yr effaith gyffredinol y gall achos o feithrin perthynas amhriodol ei chael ar eich galluedd meddyliol i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth” (Rhanddeiliad)*

Roedd bylchau mewn gweithgarwch ymyrryd yn gynnar ac atal hefyd yn ymwneud â pheidio â dileu'r risg yn unig, er enghraifft drwy weithgareddau tarfu gan fyrddau troseddau difrifol a chyfundrefnol. Teimlwyd nad yw adnabod plant a phobl ifanc y mae rhywun wedi camfanteisio arnynt a'u symud, bob amser yn dileu'r risg. Ystyriwyd ei bod yn bwysig cydnabod sgil-ffeithiau niferus y rhwydweithiau 'soffistigedig' hyn o gangiau troseddol sy'n camfanteisio ar blant a phobl ifanc a bod angen gwneud mwy o waith gyda'r oedolion sy'n rhedeg y rhwydweithiau hyn i ddileu'r risg (yn hytrach na thargedu'r plant a'r bobl ifanc dan sylw).

*“Sgil-ffeithiau pellach eu rhwydweithiau (eu targedu ar gyfer gweithgarwch tarfu). Felly rydym yn gweld bod ymchwiliadau'r heddlu yn para am gyfnodau hir o amser, yn enwedig pa fyddant yn ymarferion casglu cudd-wybodaeth. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydym yn gweld effaith pelen eira, lle mae mwy a mwy o bobl ifanc yn cael eu denu, yn enwedig gan y rhwydweithiau mwy soffistigedig, gan arwain at fwy o drais a risg o drais rhywiol neu gorfforol, neu'r ddau” (Rhanddeiliad).*



## Effaith

Nododd rhanddeiliaid nifer o ganlyniadau sy'n deillio o CMET a'r tîm diogelu cyd-destunol ar sail unigol, cymunedol a system. Teimlwyd ei bod yn bwysig galluogi plant a phobl ifanc i 'fod yn blant a phobl ifanc', er enghraifft, o ran eu cydberthnasau, eu datblygiad a'u dymameg, ac y gellid gwneud hyn drwy fwy o addysg a fyddai'n eu galluogi i wneud hyn mewn ffordd ddiogel a deallus. Dangosodd adborth a roddwyd i wasanaethau fod pobl ifanc yn ymddiried yn eu gweithwyr ieuencid. Drwy'r gwaith ymgysylltu hwn a'r lleoedd a'r manau sydd ar gael i blant a phobl ifanc, teimlwyd bod cynnydd wedi bod yng ngweledd plant a phobl ifanc a theimladau o ddiogelwch (ymysg plant a phobl ifanc a'r gymuned ehangach).

*“Roedd gennym gaban yng nghanol y dref dros gyfnod y Nadolig. Dywedodd pobl ifanc eu bod yn ymddiried yn ein gweithwyr ieuencid ac yn teimlo eu bod bob amser yn cynnig lle diogel, sy'n hyfryd. Mae pobl ifanc y mae rhywun wedi camfanteisio arnynt wedi nodi ein gweithwyr ieuencid ar eu cynllun diogelwch fel pobl ddiogel, sy'n dangos bod y gwaith wir yn gweithio” (Rhanddeiliad)*

Teimlai rhanddeiliaid fod y gwaith wedi cynyddu'r gallu i adnabod rhwydweithiau troseddol yn effeithiol. Teimlwyd bod y gwaith yn ymwneud â diogelu cyd-destunol wedi dwyn cymunedau ynghyd, gan gynyddu ymwybyddiaeth o ran sut i adnabod y rheini sy'n wynebu risg, neu a all wynebu risg, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o ran sut i gefnogi'r unigolion hyn mewn ffordd ddiogel. Yn y tymor hwy, y gobaith oedd y byddai newid mewn diwylliant cymunedau mewn perthynas ag ymddygiad derbyniol/annerbyniol, ond y gallai hyn gymryd amser gan fod angen sicrhau newid mewn cymunedau a diwyllianau ar draws cenedlaethau. O safbwynt system ehangach strategol a gweithredol, teimlwyd bod gan wasanaethau/sefydliadau/gweithwyr proffesiynol fwy o wybodaeth leol a bod ganddynt ddealltwriaeth well o anghenion eu cymunedau, a bod hyn, yn ei dro, yn cael effaith uniongyrchol ar waith cynllunio a'r angen i gefnogi'r maes hwn a buddsoddi ynddo.

Rhoddodd un person ifanc adborth ar gyfer y gwerthusiad drwy ei weithiwr ieuencid. Roedd o'r farn bod y cymorth yr oedd wedi ei gael drwy'r gweithiwr ieuencid diogelu cyd-destunol wedi gwella ei wybodaeth am y defnydd o sylweddau ac wedi ei helpu i wneud penderfyniadau gwell y tu allan i'r ysgol, a oedd wedi golygu nad oedd yn 'mynd i drafferth' mwyach. Teimlai fod hyn yn ddefnyddiol i'w atal rhag mynd i drafferth yn y dyfodol. Roedd cyfathrebu da rhyngddo a'i weithiwr ieuencid ac roedd yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn cwestiynau a rhoi adborth, ac yn teimlo bod ei weithiwr ieuencid yn gwrandao arno, a nododd fod hyn yn bwysig er mwyn i wasanaethau wybod eu bod yn helpu. Teimlai y gallai mwy o gymorth gael ei ddarparu ar-lein.

*“Mae'n fy nghadw allan o drafferth ac yn fy helpu i ddysgu pethau newydd, er enghraifft yn y sesiwn ar gamddefnyddio sylweddau, dysgais fod aerosolau yn gallu eich lladd yn syth” (PI)*

*“Gneud penderfyniadau gwell y tu allan i'r ysgol. Ydy, mae'n bwysig. Oherwydd pan fydda i'n hŷn, efallai y bydda i'n mynd i drafferth” (PI)*

Dangosodd adroddiad chwarterol yr Uned Atal Trais nad yw'r canlyniadau traddodiadol ar gyfer cynnydd plentyn sy'n wynebu risg bob amser yn cyd-fynd â gwaith cyd-destunol ac, felly, mae CMET wedi datblygu dull o gofnodi'r canlyniadau ar sail cyd-destunol ac wedi dechrau defnyddio ffurflenni Microsoft i ddadansoddi'r effaith yn ogystal â ffactorau eraill. Defnyddir nifer o adnoddau i fesur canlyniadau, fel holiaduron pobl ifanc, cwestiynau graddio yn ystod cyfarfod amlasiantaeth ac adborth gan weithwyr proffesiynol, a gedwir ar system gofnodi WCCIS.

### *Astudiaethau achos a ddarparwyd gan CMET a'r tîm diogelu cyd-destunol*

Wrth weithio mewn lleoliad cymunedol lle bu achos o drais a arweiniodd at berson ifanc yn cael anaf â chylllell yr oedd angen gofal critigol arno ar ei gyfer, defnyddiwyd ymateb brys i achos difrifol o drais ymhlith pobl ifanc i nodi ymateb ar unwaith i'r pryderon ar lefel ddiogelu. Yn dilyn hyn, rhoddwyd dull cyd-destunol ar waith i gefnogi'r gymuned ehangach er mwyn atal niwed pellach. Nodwyd y byddai'r bobl ifanc sy'n byw yn yr ardal yn cael budd o gymorth i leihau'r tebygolrwydd o bryderon yn y dyfodol. Nodwyd mai'r ysgol leol fyddai'r lle gorau i wneud y gwaith hwn ac, felly, trefnwyd digwyddiad carwsél amlasiantaeth yn yr ysgol a oedd yn targedu disgyblion blwyddyn 9 a disgyblion a oedd yn rhan o brosiect mewnol yr ysgol sy'n gweithio gyda'r disgyblion mwyaf agored i niwed. Dywedodd pennaeth yr ysgol:

*“Hoffwn ddiolch am y digwyddiad carwsél a gynhaliwyd ym Mhenyrheol dros y deuddydd diwethaf a rhoi ychydig o adborth arno. Mae AW wedi trefnu deuddydd gwych ar gyfer ein disgyblion. Y sesiynau a gynhaliwyd oedd yr union beth oedd ei angen ar ein disgyblion, ac mae'r holl staff a ddaeth wedi bod yn wych. Nid wyf erioed wedi clywed adborth mor gadarnhaol gan ein disgyblion. Go iawn. Mae wedi bod yn wych”.*

### *Mesur canlyniadau*

Wrth ystyried y ffordd y caiff canlyniadau eu mesur ar hyn o bryd, caiff data ar lefel achos unigol eu creu ar gyfer pob person ifanc sy'n ymwneud â'r Tîm Gwaith Ieuencid. Mae'r data hyn yn nodi'r targedau a osodir ar ddechrau'r ymgysylltu ac yn mesur teimladau o ymddiriedaeth a diogelwch, y caiff y cyfan ei adolygu pan gaiff y person ifanc ei ryddhau.

*“Rydym yn trin pob achos yn unigol gan osod y targedau ar gyfer yr achos ar y dechrau a'u mesur ar y diwedd yn hytrach na dilyn agenda benodol o bethau rydym am eu cyflawni ar gyfer pob achos, gan fod pob achos yn wahanol iawn” (Rhanddeiliad)*

Nid gwasanaeth casglu cudd-wybodaeth yw CMET. Mae'n cadw data a gwybodaeth am leoedd sy'n peri pryder, gan nodi a chasglu gwybodaeth am y lleoedd hyn a phenderfynu ble mae i ganolbwyntio gwaith diogelu. Mae hyn yn ymwneud ag ystyried ardaloedd problemus a thueddiadau fel clystyrau grwpiau ysgolion, a phrotocolau demograffeg. Mae'r rhwydwaith hwn yn bwysig i ddeall rhwydweithiau cysylltiedig. Nodwyd bod angen i unrhyw ddata a gesglir fod yn ystyrion (ac o fewn paramedrau cyfreithiol y GDPR) a bod triongli/cysylltu data (lle y bo'n bosibl) yn bwysig, yn ogystal â chysondeb o ran y ffordd y caiff data eu casglu a'r iaith a ddefnyddir. O fewn CMET, mae cydweithwyr o'r Heddlu bellach yn dangos data na fyddent wedi eu dangos o'r blaen, ac ystyrir bod yr Uned Atal Trais yn cefnogi gwaith cyflawni gweithredol lleol yn hytrach na'i arwain. Teimlwyd bod yr holl newidiadau hyn i brosesau yn llywio gweithgareddau atal/arferion.

*“Ymarfer ar sail gwybodaeth, rydym bellach yn casglu pethau sy'n ein helpu o safbwynt gweithredol ond hefyd yn fy helpu i ystyried ble mae'r bylchau? A ydym yn nodi pobl ifanc o gefndiroedd amrywiol? Ac os nad ydym yn eu nodi, ai'r rheswm dros hynny yw am nad oes unrhyw risgiau neu am nad ydym yn gwneud dim am y peth? Mae'n ein galluogi i gael y sgysiau ystyrion hynny ac i herio. Mae hefyd yn golygu bod cydweithwyr yn yr heddlu yn dod ynghyd i drafod y data y maent bob amser wedi eu casglu ond nad ydynt, yn ôl pob tebyg, wedi eu rhannu â'r bobl gywir. Y broblem yw bod llawer o ddata'r heddlu yn cael eu dal gan yr heddlu a neb arall” (Rhanddeiliad)*

Dywedodd un o'r rhanddeiliaid y gall canlyniad sy'n gadarnhaol mewn gwirionedd weithiau gael ei ystyried yn ganlyniad negyddol. Un enghraifft a roddwyd oedd y cynnydd yn nifer y galwadau am yr heddlu ac ambiwlansys. Teimlwyd hefyd ei bod hi'n anodd echdynnu data o'u systemau, a'r gobai

oedd y gallai'r Uned Atal Trais ariannu swydd dadansoddwr er mwyn ystyried sut i wneud y defnydd gorau o'r data.

*“...Mae'n anodd iawn tynnu'r data hynny o'n systemau. Hyd y gwn i, does dim system wedi'i sefydlu i weithio'n gyd-destunol, er ein bod yn gwneud hynny. Rydym wedi ceisio addasu ein system yn unol â hynny. Felly, pan fyddwn yn sefydlu achos cyd-destunol, byddwn yn nodi'r holl bobl ifanc rydym wedi'u cysylltu â'r ardal honno fel pobl gysylltiedig. Drwy wneud hynny, pan fyddwch yn agor eu hachos, byddwch yn gallu gweld eu bod yn gysylltiedig a gallwn nodi dyddiad dod i ben. Felly, os na fyddant yn treulio amser yn y man neu os bydd eu cydberthynas â'r man wedi gwella, gallwn ddod â'r data i ben. Ond mae hynny'n cymryd llawer o amser hefyd. Mae'n waith sy'n dal i gael ei ddatblygu. Ystyried sut y gallwn sicrhau bod y data yn ddefnyddiol i ni hefyd” (Rhanddeiliad)*

Dyweddodd un o'r rhanddeiliaid ei fod wedi gweithio gyda Phrifysgol Swydd Bedford dros y tair blynedd diwethaf i ymgorffori dull cyd-destunol yn ei harferion diogelu. Y gobaith oedd y byddai'r gydberthynas sefydledig hon yn parhau, a nododd fod y trafodaethau ar y pryd yn canolbwyntio ar ddangos y gwaith a mesur canlyniadau sy'n gysylltiedig â diogelu cyd-destunol.

### **Cynaliadwyedd**

Wrth ystyried gwaith cyflawni yn y dyfodol a chynaliadwyedd, er bod gwaith atal yn 'dda' yn Abertawe ar hyn o bryd, mae angen ymdrechion cryfach i darfu ar droseddau cyfundrefnol. Nodwyd hefyd nad oes unrhyw gymorth atal penodol mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Heb gyllid gan yr Uned Atal Trais, teimlwyd y byddai mwy o niwed a risg i bobl ifanc.

*“Ar hyn o bryd yn Abertawe, does dim unrhyw gymorth atal mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Ac rydym yn gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd ar y protocol camfanteisio'n rhywiol ar blant. Felly, heb y cyllid y mae'r Uned Atal Trais yn ei ddarparu ar hyn o bryd mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny sy'n canolbwyntio ar gamfanteisio troseddol a thrais gan bobl ifanc, byddem yn gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu niweidio o ganlyniad i achosion o gamfanteisio a throseddau cyllid” (Rhanddeiliad)*

Dyweddodd un o'r rhanddeiliaid ei fod am weld mwy o waith yn cael ei wneud gyda rhieni yn y dyfodol er mwyn rhoi cyngor iddynt ar sut i gadw eu plentyn/plant yn ddiogel pan fyddant allan, er enghraifft drwy sicrhau bod ganddynt wefrydd ffôn ychwanegol a'u bod yn mynd â dŵr gyda nhw (gan ei bod yn debygol iawn y byddant yn yfed alcohol). Teimlwyd mai cymysg fu'r ymgysylltu â rhieni yn hyn o beth. Wrth ystyried y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed, teimlwyd y dylai'r awdurdod lleol chwarae rôl arweiniol yn hyn o beth, ynghyd ag iechyd y cyhoedd.

Teimlwyd bod cyllid byrdymor ar gyfer sefydliadau yn broblem wrth weithio tuag at ganlyniadau tymor hwy mewn perthynas â newid cymdeithasol. Nododd un rhanddeiliad hefyd yr heriau a wynebir o ran recriwtio ar gyfer prosiectau a ariennir drwy gyllid byrdymor. Teimlwyd bod angen trafodaeth ynglŷn â symud i ffwrdd o gyllid byrdymor i fuddsoddi'n 'briodol' dros gyfnod o dair i bum mlynedd, er mwyn dangos effaith mewn ffordd fwy ystyrlon. Credwyd bod yr amserlen hon yn dda ar gyfer rheoli cylchoedd a galluogi ymyriadau i gael eu sefydlu, eu profi, eu gwerthuso ac, yna, eu cyflwyno.

## Astudiaeth achos 2: Cyfiawnder Troseddol – Cyfleoedd Dysgu Digymell – Ymyriadau yn y Ddalfa

Nod menter Cyfleoedd Dysgu Digymell yn y Ddalfa yw ymyrryd ac atal pobl ifanc rhag cael eu cynnwys ymhellach mewn achosion o drais drwy drin yr adeg y daw person ifanc i'r ddalfa fel 'cyfle dysgu digymell'. Cynhelir y fenter ym mhob rhan o'r heddlu ledled De Cymru. Rhoddwyd yr ymyriad ar waith yn Abertawe ym mis Ionawr 2022 ac mae wedi'i hariannu gan yr Uned Atal Trais am gyfnod o dair blynedd. Mae'r model yn cyflogi gweithwyr achos o Media Academy Cymru (MAC) i gynnal cyfweiliadau ysgogiadol â phlant a phobl ifanc (10-17 oed) yn y ddalfa, sy'n derbyn y cynnig gwirfoddol. Maent yn gweithio gyda phobl ifanc ar sail wirfoddol am gyfnod o hyd at dri mas. Mae hyn yn cynnwys asesu anghenion ac archwilio nodau bywyd drwy gyfweiliad ysgogiadol. Cynigir cymorth dilynol, lle y caiff y person ifanc gynnig cyfleoedd a gweithgareddau rhag-gymdeithasol, yn ogystal â'i gyfeirio at wasanaethau eraill, er mwyn hyrwyddo a meithrin ei gryfderau a'i helpu i wneud cynnydd tuag at gyflawni ei nodau. Mae'r ymyriad yn cefnogi amrywiaeth o faterion, gan gynnwys gyrfaoedd, tai, ac ymyriadau yn y gymuned gan MAC drwy atgyfeiriad.

### Gweithredu

Er mwyn datblygu'r ymyriad a llywio'r broses o'i roi ar waith, gweithiodd aelod o'r Uned Atal Trais yn genedlaethol ar draws yr Unedau Atal Trais i bennu'r arferion gorau. Ar ôl ei datblygu, cafodd timau'r ddalfa a'r tîm uwch-reolwyr eu briffio er mwyn sicrhau bod yr ymyriad yn cael ei gyflwyno'n effeithiol. Er gwaethaf hyn, roedd diffyg dealltwriaeth sylweddol ymysg rhingylliaid dalfeydd o hyd (gweler rhwystrau). Er mwyn helpu rhingylliaid dalfeydd i ddeall yr ymyriad a manteision cyfranogiad MAC, cyflwynwyd taflen friffio a thudalen Cwestiynau Cyffredin. Hwylusodd y dull hwn y broses o ymgorffori'r ymyriad yn fwy yn y ddalfa, gan olygu ei fod yn cael yn ei gynnig yn fwy aml. Mynychodd gweithwyr dalfa MAC hefyd y cyfarfodydd cychwynnol â Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Abertawe i egluro eu rôl yn y ddalfa. Hwylusodd hyn y broses o feithrin cydberthynas gadarnhaol rhwng Gweithiwr Ieuenctid MAC a'r Tîm Troseddwyr Ifanc, er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei gefnogi a/neu ei gyfeirio at wasanaethau eraill. Gan fod rhingylliaid dalfeydd yn symud yn gyson o fewn yr heddlu a bod y tîm yn newid yn barhaus, mae'r cydberthnasau sefydledig hyn wedi helpu i rannu gwybodaeth yn fewnol ymysg timau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ymgorffori yn y ddalfa.

*“Mae gennym gydberthynas dda â gwasanaethau'r ddalfa yn Heddlu De Cymru. Felly, rydym yn rhannu unrhyw beth sydd gennym, gwybodaeth newydd, â nhw ac maent yn mynd ati wedyn i'w rhannu â'r holl dimau yn fewnol” (Rhanddeiliad)*

Mae Cyfleoedd Dysgu Digymell yn cynnal nifer o gyfarfodydd â'r Uned Atal Trais, gan gynnwys cyfarfodydd wythnosol i drafod prosiectau sy'n mynd rhagddynt, cyfarfod misol â phartneriaid lle y gallant glywed gan asiantaethau eraill, a chyfarfodydd wyneb yn wyneb i drafod cynlluniau ar gyfer datblygu. Mae gan Cyfleoedd Dysgu Digymell gysylltiadau amlasiantaeth â Thîm Troseddwyr Ifanc Abertawe, gwasanaethau plant a MAC. Mae cyfarfodydd rhwng St Giles, MAC a Cyfleoedd Dysgu Digymell wedi'u trefnu er mwyn deall yr hyn y mae pob sefydliad yn ei wneud a sicrhau nad yw eu gwasanaethau yn gorgyffwrdd, neu i'r gwrthwyneb, sicrhau nad ydynt yn eithrio unrhyw garfannau. Mae'r tîm yn rhan o'r panel Cyd-destunol, Coll, Wedi'u Hecsbloetio a'u Masnachu (CMET), sydd wedi bod yn fuddiol i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r bobl ifanc sy'n dod drwy'r ddalfa.

*“Mae [Gweithiwr Ieuenctid MAC] yn eistedd ar y CMET, ac mae hyn yn fuddiol o ran rhannu gwybodaeth a chael darlun ehangach o'r person ifanc hwnnw, a'i anghenion” (Rhanddeiliad)*

## Cyflawni

Mae Gweithiwr Ieuencid MAC wedi datblygu dull cyflym a syml i ringylliaid dalfeydd gysylltu ag ef; pan fydd person ifanc yn dod i'r ddalfa, bydd Rhingyll y Ddalfa yn ffonio Gweithiwr Ieuencid MAC i roi gwybod iddo fod person ifanc yn y ddalfa sydd wedi cytuno i gymryd rhan yn y cyfweiliad. Yn wreiddiol, nid oedd Gweithiwr Ieuencid MAC yn cael gwybod am bobl ifanc a oedd yn dod i'r ddalfa. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r ffaith nad oedd gan ringylliaid dalfeydd wybodaeth glir am yr ymyriad. Fodd bynnag, teimlir bod y broblem hon wedi lleddfu ers datblygu system syml i hwyluso'r cyfathrebu rhwng Swyddogion y Ddalfa a Gweithiwr Cymorth MAC. Cydnabuwyd fod y ddalfa yn amgylchedd sy'n newid yn gyflym ac, felly, bod angen i'r broses fod yn symlach.

*“Roedd ambell broblem gychwynnol mewn perthynas â pheidio â chael gwybod pan oedd plentyn yn y ddalfa ac, felly, bu'n rhaid gwneud ambell fân newid” (Rhanddeiliad)*

*“Rydym wedi gwneud pethau mor syml â phosibl. Rwy'n gwybod bod y ddalfa yn gallu bod yn lle dwys a phrysur iawn weithiau, felly mae'n fater o wneud un galwad ffôn syml i ddweud eich bod yn Abertawe. Rydych yn ffonio rhif Abertawe a fydd yn eich dargyfeirio'n syth at weithiwr Ieuencid Abertawe” (Rhanddeiliad)*

Yn dilyn hyn, bydd Gweithiwr Ieuencid MAC yn cyflwyno ei hun i'r person ifanc ac yn sicrhau ei fod yn gyfforddus. Yn wreiddiol, roedd yn rhaid i Weithwyr Ieuencid MAC aros nes bod yr heddlu wedi cyfweld â'r person ifanc cyn y gallent gynnal y cyfweiliad ysgogiadol, ond mae datblygiadau wedi'u gwneud ers hynny i alluogi'r cyfweiliad ysgogiadol i gael ei gynnal yn gyntaf. Er gwaethaf anawsterau o ran cael caniatâd i gynnal cyfweiliadau cyn cyfweiliad yr heddlu, teimlwyd bod angen ceisio'r caniatâd hwn. Mae cyfweld â'r plant/pobl ifanc cyn iddynt gael eu cyfweld gan yr heddlu yn ddefnyddiol gan fod hyn yn sicrhau cyfle uniongyrchol i gynnal y cyfweiliad ysgogiadol yn y ddalfa, sy'n cydnabod y rhwystrau i geisio cyfweld â pherson ifanc ar ôl iddo adael y ddalfa. Ar ôl y cyfweiliad, caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu er mwyn asesu a yw'r person ifanc yn addas i weithio gydag un o Weithwyr Ieuencid MAC.

*“Felly, i ddechrau, bydd yn mynd i gyflwyno ei hun a gwneud yn siŵr bod y person ifanc yn gyfforddus. Gallai hynny fod drwy ofyn a hoffai ddiod? A hoffai flanced? Gallai fod yn rhywbeth syml fel hyn, yna bydd yn cynnal y cyfweiliad ysgogiadol â'r person ifanc ac yn llunio cynllun gweithredu a siart pellter sêr yn dilyn hynny. Byddwn yn edrych ar ei sefyllfa bresennol a'r hyn yr hoffai ei gyflawni, ac yn gosod nodau. Yna, byddwn yn anfon y wybodaeth honno at y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid priodol. Yna, byddwn yn ei gefnogi ac yn ei arwain yn y gymuned” (Rhanddeiliad)*

Pwysleisir wrth y person ifanc nad diben y cyfweiliad â Gweithiwr Ieuencid MAC yw trafod y drosedd, er mwyn atal y person ifanc rhag mynd i fanylder am y drosedd. Os bydd Gweithiwr Ieuencid MAC yn teimlo bod y person ifanc ar fin gwneud datgeliad, bydd yn ymyrryd ac yn ei atgoffa nad yw yno i drafod y drosedd. Byddai'n rhaid i Weithiwr Ieuencid MAC roi gwybod i Ringyll y Ddalfa am unrhyw ddatgeliadau ar unwaith, yn unol â'r weithdrefn. Cydnabuwyd y gallai hyn fod yn anodd i rai pobl ifanc. Gan mai gwasanaeth gwirfoddol ydyw, gall y person ifanc wrthod y cymorth. Yn yr achosion hyn, bydd Gweithiwr Ieuencid MAC yn esbonio'r gwasanaeth ac yn rhoi ei fanylion cyswllt i'r person ifanc, rhag ofn y bydd yn newid ei feddwl.

*“Mae Gweithiwr Ieuencid MAC yn ei gwneud yn glir iawn ei fod yn gwbl annibynnol ar yr Heddlu ac nad yw am wybod pam mae'r person ifanc yno, hynny yw, am y drosedd. Gan ei bod yn cael ei gwneud yn glir iawn o'r cychwyn nad diben y cyfweiliad yw trafod y drosedd, mae pawb yn deall y drefn” (Rhanddeiliad)*

*“Mae'n gwbl wirfoddol hefyd felly does dim pwysau ar y person ifanc na'i oedolyn priodol i ddefnyddio'r gwasanaeth; mae yno i'w helpu yn yr hirdymor a'i helpu i ddeall ble mae pethau'n mynd o chwith, er mwyn helpu i'w atal rhag dychwelyd i'r ddalfa neu ddod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol eto” (Rhanddeiliad)*

Dywedwyd bod Cyfleoedd Dysgu Digymell yn fenter hyblyg. Yn wreiddiol, y bwriad oedd cynnal cyfweiliadau yn un o ystafelloedd cyfweld yr heddlu, ond cydnabu'r bobl ifanc y byddent yn teimlo'n fwy cyfforddus mewn cell am ei bod yn amgylchedd llai ffurfiol. O ganlyniad, mae'r ymyriad wedi cael ei addasu i ddiwallu anghenion y bobl ifanc drwy gynnal cyfweiliadau yn y celloedd. Mewn achosion lle bydd y person ifanc wedi cael ei ryddhau o'r ddalfa yn dilyn cyfweiliad yr Heddlu, gall Gweithiwr Ieuentid MAC hefyd gynnal cyfweiliadau ag ef mewn swyddfa y tu allan i'r ddalfa. Gellir trefnu galwad neu ymweliad dilynol ddeuddydd yn ddiweddarach os bydd y person ifanc yn gofyn am hynny. Mae'r ffaith bod MAC wedi sefydlu gwasanaeth ehangach sydd â chysylltiadau â gwasanaethau eraill yn golygu bod amrywiaeth o ymyriadau ar gael i'r person ifanc yn y gymuned.

*“Bydd y plentyn am adael y ddalfa cyn gynted â phosibl, ac allwch chi ddim ei gadw yno'n ddiangen. Mae'n rhaid i chi ei ryddhau; p'un a gaiff ei gyhuddo neu ei ryddhau ar fechniaeth neu os na chaiff unrhyw gamau pellach eu cymryd, mae'n rhaid i chi ei ryddhau. Allwch chi ddim ei gadw yno. Felly bydd gweithiwr ieuentid MAC yn trafod â'r plentyn a'r oedolyn priodol os bydd yn gyfleus y tu allan i'r ddalfa” (Rhanddeiliad)*

## **Rhwystrau**

Er gwaethaf ymdrechion i friffio staff dalfeydd am yr ymyriad, cydnabuwyd nad oedd rhingylliaid dalfeydd yn gwbl ymwybodol o gynnig MAC, sut y byddai'r ymyriad yn gweithio yn y ddalfa, na'r gwahaniaeth rhwng Cyfleoedd Dysgu Digymell ac ymyriadau eraill, gan gynnwys y Tîm Troseddwr Ifanc. O ganlyniad, nid yw'r ymyriad wedi cael ei gynnig cymaint â'r gobraith. Mae'n bwysig nodi bod hyn yn fater a nodwyd ym mhob lleoliad lle roedd yr ymyriad ar waith, ac nad oedd yn unigryw i Abertawe. Credwyd bod angen i ringylliaid dalfeydd gefnogi'r broses a theimlo'n rhan ohoni er mwyn gweld gwerth yr ymyriad. Nododd un rhanddeiliad y byddai staff y ddalfa a phobl ifanc yn cael budd o ddeall sut mae'r ymyriad yn wahanol a'r hyn y mae'n ei gynnig y tu hwnt i wasanaethau eraill, yn enwedig i'r rheini sydd eisoes yn agored i wasanaethau fel y Tîm Troseddwr Ifanc a gofal cymdeithasol. Yn fwy diweddar, mae'r cynnig wedi cael ei fonitro'n ddyddiol er mwyn meithrin dealltwriaeth well o nifer y cynigion a wneir ar gyfer y cyfweiliad ysgogiadol a nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar y cynnig, a chael darlun cywir o hynny.

*“Wn i ddim beth ddywedwyd wrthyn nhw yn wreiddiol oherwydd doedden nhw ddim yn deall y gwahaniaeth rhwng y Tîm Troseddwr Ifanc a Media Academy Cymru” (Rhanddeiliad)*

*“Byddwn yn tybio bod y bobl ifanc hynny sydd eisoes yn dod i'r ddalfa yn agored i'r Tîm Troseddwr Ifanc a gwasanaethau cymdeithasol, felly wn i ddim pa gymorth ychwanegol rydym yn ei roi iddyn nhw a fydd yn eu hannog i newid eu hymddygiad troseddol os yw eu bywyd bob dydd yr un fath yn y bôn” (Rhanddeiliad)*

Mae gan yr heddlu yriant a rennir ar Niche (system rheoli cofnodion yr heddlu), sy'n cynnwys manylion unrhyw berson ifanc sydd wedi dod i mewn ac wedi cael gwybod am y gwasanaeth. Nodwyd bod y broses hon o rannu data rhwng yr heddlu a Gweithwyr Ieuentid MAC yn rhwystr gan fod yr heddlu wedi bod yn anfon data a ffigurau ar gyfer achosion blaenorol, gan olygu efallai na chaiff Gweithwyr Ieuentid MAC wybod am unrhyw achosion cyfredol neu achosion yn y dyfodol. Teimlwyd y byddai'n fwy buddiol clywed am unrhyw achosion sydd wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol, fel bod Gweithiwr Ieuentid MAC yn gallu eu gweld pan fyddant yn dod i mewn, yn hytrach nag ar y diwedd. Gan fod

caniatâd cyfreithiol wedi'i roi i gynnal y cyfweiliad ysgogiadol cyn cyfweiliad yr heddlu, mae Gweithwyr leuenctid MAC wedi nodi rhwystrau gan nad ydynt yn cael gweld unrhyw wybodaeth am y person ifanc na'r digwyddiad y mae wedi bod yn rhan ohono mwyach.

*“Mae gennym system ar waith ar hyn o bryd. Felly rydym yn cael gwybod am unrhyw bobl ifanc sy'n dod i mewn sydd wedi cael cynnig ein gwasanaeth. Rwyf am wybod pwy fydd yn dod i mewn yr wythnos nesaf. A oes apwyntiadau wedi'u trefnu. Oherwydd os bydd person ifanc wedi dod i mewn ac na fydd yr Heddlu'n dweud wrthym am wythnos neu bythefnos, byddwn wedi colli ein cyfle” (Rhanddeiliad)*

*“Mae MAC wedi dweud bod angen iddo weld cofnod y ddalffa, ac yn fy marn i, does dim angen iddo wybod dim am y person ifanc ar wahân i'r marcwyr rhybudd ar gyfer diogelwch. Holl ddiben yr ymyriad yw nad ydych yn gofyn am y drosedd, a dyna'r sicrwydd rydym wedi gorfod ei roi i'r cwmnïau cyfreithiol os bydd y cyfweiliad ysgogiadol yn digwydd cyn PACE (Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984)” (Rhanddeiliad)*

Nodwyd hefyd fod materion o ran adrodd yn broblem sylweddol. Mae staff y ddalffa yn casglu data o gofnod y ddalffa er mwyn gweld nifer yr apwyntiadau/sgyrsiau a gynigiwyd a nifer y cynigion y manteisiwyd arnynt er mwyn cynyddu cyfranogiad ymysg staff y ddalffa. Fodd bynnag, nid yw'r niferoedd hyn yn cyfateb i'r datganiadau gan MAC, sy'n cynnwys data ychwanegol am yr hyn a ddigwyddodd ar ôl y cyfweiliad ysgogiadol cychwynnol a'r cymorth a roddwyd yn y gymuned, nad yw'r ddalffa yn ymwybodol ohono. Bu rhywfaint o ddryswch ynghylch y ffordd y caiff data eu cofnodi os bydd sgwrs yn digwydd gyda pherson ifanc a chaiff ei gyfeirio at wasanaeth arall, ond na chaiff y cyfweiliad ysgogiadol ei gynnal. Er bod rhywfaint o ymyriad wedi digwydd yn yr achosion hyn, cydnabuwyd nad yw'r cyfweiliad ysgogiadol wedi'i gynnal ac, felly, codwyd cwestiynau ynghylch a ddylai hyn gael ei gofnodi fel achos o fanteisio ar yr ymyriad. At hynny, cwestiynwyd a fyddai ymyriadau dilynol yn cael eu hystyried yn ymyriad cymunedol, a fyddai wedyn yn rhan o ddata MAC yn hytrach na data Cyfleoedd Dysgu Digymell. Cytunwyd y byddai'n fuddiol cael eglurder ynghylch y ffordd y caiff data eu cofnodi. Roedd un rhanddeiliad o'r farn y byddai'n fuddiol ystyried y ddwy broses o gasglu data, ac y byddai'n fuddiol i staff y ddalffa glywed adborth ar ganlyniad yr atgyfeiriad at Cyfleoedd Dysgu Digymell.

*“Siarad â'r person ifanc hwnnw, cael sgwrs dda ag ef, cynnig y cyfweiliad ysgogiadol iddo ac mae wedi'i wrthod. Neu mae wedi gwrthod y cyfweiliad ysgogiadol ond wedi cytuno i ymweliad dilynol. Felly sut mae hynny'n cael ei gofnodi? A yw'n cael ei gofnodi fel cyfweiliad ysgogiadol neu fel cynnig a wrthodwyd? A dweud y gwir, dyw'r naill na'r llall ddim yn gywir.” (Rhanddeiliad)*

*“Wrth edrych ar ffigurau ar ddiwedd yr wythnos, mae ambell achos wedi bod lle mae gweithiwr MAC wedi dweud ei fod wedi siarad â rhywun ond does dim ar y cofnod cadw. Felly dyw data'r ddalffa ddim yn dangos ei fod wedi digwydd, ond dyw'r data hynny ddim yn profi nad yw wedi digwydd chwaith” (Rhanddeiliad)*

Gellir priodoli hyn hefyd i'r ffaith bod angen i Ringyll y Ddalffa gymeradwyo achos er mwyn iddo gael ei gyfrif yn nata'r ddalffa. Os bydd MAC yn ymgysylltu â pherson ifanc nad yw Rhingyll y Ddalffa wedi'i gymeradwyo, ni fydd yn cael ei gyfrif yn y data. Pan oedd MAC yn gallu cael mynediad i system gyfrifiadurol Niche, roedd yn gallu cofnodi'r wybodaeth hon ac nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei cholli.

Mae'r ddalffa yn amgylchedd prysur a llawn straen ac, felly, y nod yw symud pobl ifanc drwyddi yn gyflym, fel nad ydynt yn treulio mwy o amser nag sydd ei angen yn y ddalffa. Mae hyn yn anodd pan nad yw Gweithwyr leuenctid MAC ar gael i ymgysylltu â'r bobl ifanc oherwydd gwaith cymunedol, hyd

yn oed yn ystod amseroedd eu shifftiau. Mae anawsterau pellach yn codi pan nad yw Gweithiwr leuenctid MAC yn cael gwybod bod plentyn/person ifanc yn y ddalffa; teimlwyd bod llawer o waith i'w wneud o hyd o ran cael gwybod pan fydd plentyn/person ifanc yn dod i'r ddalffa gyda'r nos neu ar benwythnosau. At hynny, cydnabuwyd y gall fod yn anodd ymgysylltu â'r person ifanc cyn iddo adael y ddalffa, yn enwedig oherwydd patrymau shifft Gweithwyr leuenctid MAC. Er enghraifft, os bydd person ifanc yn dod i'r ddalffa, erbyn iddo orffen gyda'r heddlu, efallai y bydd Gweithiwr leuenctid MAC wedi gorffen ei shifft, gan olygu na ellir cwblhau'r ymyriad. At hynny, cydnabuwyd nad yw gweithwyr y ddalffa yn rhoi gwybod i Weithwyr leuenctid MAC fel mater o drefn pan fydd disgwyl i blentyn/person ifanc gael ei ryddhau, sy'n golygu na ellir cwblhau'r ymyriad (y cyfweliad ysgogiadol a'r cynllun gweithredu).

*“Felly mae gennym system ffôn Flextel nawr. Felly y cyfarwyddiadau i staff y ddalffa yw y dylent ffonio'r un rhif. Yn ystod oriau swyddfa, bydd rhywun yn gwneud pob ymdrech i weld y person ifanc, ond dyw hynny ddim bob amser yn bosibl. Nod Rhingyll y Ddalffa yw symud ein plentyn neu berson ifanc drwy'r ddalffa cyn gynted â phosibl gan nad dyna'r lle cywir iddo. Felly dyw gweithwyr MAC dal ddim yn llwyddo i weld pob person ifanc tra bydd yn y ddalffa, hyd yn oed yn ystod amser ei shifft” (Rhanddeiliad)*

*“Oherwydd mae'n dibynnu pa mor hir y mae'r person hwnnw yn y ddalffa. Ar gyfartaledd, bydd person ifanc yn y ddalffa am 13 awr. Felly, ar hyn o bryd mae gweithwyr yn gweithio fwy neu lai o 9 tan 5. Mae'n golygu y byddwch yn gallu dechrau ymyriad, ond fyddwch chi ddim yn gallu ei gwblhau.” (Rhanddeiliad)*

Cydnabuwyd bod cysylltu â phlant a phobl ifanc ar ôl iddynt adael y ddalffa yn eu hatal rhag manteisio ar yr ymyriad ac yn creu rhwystrau pellach. Awgrymwyd y gall pobl ifanc fod yn fwy parod i fanteisio ar yr ymyriad pan fyddant yn y ddalffa oherwydd diflastod y gell a'r awydd i siarad â rhywun. Pan fydd y person ifanc wedi gadael y ddalffa, efallai na fydd ganddo'r un awydd i gymryd rhan yn y rhaglen. Hefyd, efallai na fydd modd cysylltu â'r person ifanc os na fydd gan Weithiwr leuenctid MAC ei fanylion cyswllt. Cydnabu rhanddeiliaid hefyd ei bod hi'n anodd casglu ffigurau presenoldeb gwirfoddol oherwydd gall rhingylliaid dalfeydd drefnu apwyntiad ar gyfer person ifanc o bell (h.y. gallai cyfweliad gwirfoddol gael ei drefnu ar gyfer plentyn o Abertawe, ond gallai'r Rhingyll fod wedi'i leoli yng Nghaerdydd.). Nodwyd bod rhai rhingylliaid yn anghofio trefnu apwyntiad ar gyfer pobl ifanc, gan olygu nad ydynt yn cael eu cyflwyno i'r ymyriad a'u bod yn cael eu hatal rhag manteisio ar y gwasanaeth.

### **Effaith**

Mae Gweithiwr leuenctid MAC yn defnyddio'r adnodd mesur pellter sêr i fesur amrywiaeth o ganlyniadau, gan gynnwys newidiadau i amgylchiadau'r teulu, cyllid, camddefnyddio sylweddau, hyfforddiant a chyflogaeth, iechyd a hunanofal. Ystyriwyd mai prif lwyddiannau'r ymyriad oedd helpu i leddfu pryderon, annog pobl ifanc i ymgysylltu â gwasanaethau statudol, gweithio ar broblemau yn ymwneud â dicter, chwalu rhwystrau, ac annog pobl ifanc i ddychwelyd i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Teimlwyd bod y cyfle i feithrin cydberthynas â Gweithiwr leuenctid MAC yn galluogi'r person ifanc i gysylltu â phobl ac asiantaethau eraill a all ei helpu yn yr hirdymor. Esboniodd yr Adroddiad Chwarterol ar gyfer Cyfleoedd Dysgu Digymell fod Tîm Troseddwyr Ifanc Abertawe wedi dweud bod Cyfleoedd Dysgu Digymell yn gyswllt sydd ar goll o ddalfeydd.

*“Helpu person ifanc i ymgysylltu â gwasanaethau statudol. Rydym wedi gweld un person ifanc yn ymgysylltu ac yn gweithio ar broblemau yn ymwneud â dicter” (Rhanddeiliad)*

*“Roedd un person ifanc am wybod mwy am yr hyn mae'r heddlu yn ei wneud. Felly, rydym yn esbonio'r rolau ac yn esbonio nad gelynyon yw swyddogion yr heddlu na phobl y dylid*



*brwydro yn eu herbyn, a'u bod yno i helpu ac i chwalu'r rhwystrau ar gyfer pobl ifanc, er mwyn eu helpu i ddychwelyd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.” (Rhanddeiliad)*

*“Roedd apwyntiad wedi'i drefnu ar gyfer un person ifanc a manteisiodd ar yr ymyriad, ac mae nawr wedi cofrestru mewn coleg. Felly gwnaeth gweithwyr MAC ei roi mewn cysylltiad â rhywun a allai ei helpu a'i arwain drwy'r broses o gofrestru ar gwrs mewn coleg. Heb hynny, dydw i ddim yn meddwl y byddai'r plentyn hwnnw wedi ystyried mynd i'r coleg hyd yn oed” (Rhanddeiliad)*

*“Rwy'n teimlo'n fwy parod ac yn gwybod nawr beth i'w ddisgwyl pan fydda i'n mynd i fy apwyntiad yn swyddfa'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yr wythnos nesaf” (PI – Adroddiad Chwarterol)*

*“Diolch am ein helpu i gydnabod y pethau da yn ystod y cyfnod anodd hwn” (PI – Adroddiad Chwarterol)*

*“Rwy'n teimlo rhyddhad oherwydd y cymorth rydych wedi ei roi i mi yn y ddalffa” (PI – Adroddiad Chwarterol)*

Teimlwyd mai ar bobl ifanc a oedd yn dod i'r ddalffa am y tro cyntaf, yn hytrach na'r rheini sy'n fwy cyfarwydd i'r system cyfiawnder troseddol ac a all fod yn llai parod i ymddiried mewn eraill a'r rhai sydd wedi wynebu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod neu drawma, a all eu hatal rhag ymgysylltu, mae'r ymyriad yn cael yr effaith fwyaf.

*“Yn amlwg, rydyn ni'n gweld rhai pobl ifanc yn dod i'r ddalffa yn wythnosol. Felly mae'n gweithio'n dda pan fydd person ifanc newydd yn dod i mewn am y tro cyntaf, ac rydych chin gallu cael mwy o effaith ar y person ifanc hwnnw. Wrth gwrs, y nod yw atal a'u dargyfeirio i ffwrdd o'r system cyfiawnder troseddol.” (Rhanddeiliad)*

Ystyriwyd bod rhieni a gofalwyr yn cael budd o'r rhaglen hefyd. Cydnabuwyd bod rhieni a gofalwyr yn ei chael hi'n anodd pan fydd eu plentyn yn dod i mewn i'r ddalffa, felly bydd Gweithiwr Ieuenctid MAC yn rhoi cymorth ac arweiniad yn yr amgylchiadau hyn.

*“Os oes gennych berson ifanc yn dod i mewn i'r ddalffa, mae'n gallu bod yn brofiad brawychus i'r plentyn hwnnw a'i rieni hefyd. Roedd gennym un person ifanc a oedd ar fechniaeth. Roedd yn 17 oed, yn agored iawn i niwed ac roedd ganddo Awtistiaeth, ac nid oedd erioed wedi bod mewn trafferth o'r blaen. Felly roedd yn brofiad anodd iawn iddo, ac roedd ei fam hefyd yn ofidus iawn am yr holl beth. Ond roeddem yn gallu ei chefnogi a rhoi tawelwch meddwl iddi hi hefyd” (Rhanddeiliad)*

### **Astudiaethau achos a ddarparwyd gan Cyfleoedd Dysgu Digymell/MAC**

Merch 17 oed, a oedd wedi'i harestio am ddwyn a bod ag eitemau wedi'u dwyn yn ei meddiant. Roedd yn byw mewn llety â chymorth. Cyfarfu â MAC am gyfweiliad ysgogiadol yn yr ystafell gyfweld yn nalfu Abertawe, yn dilyn cyfweiliad gan yr heddlu. Roedd y person ifanc yn edifar am y digwyddiad ac yn ddiog wrtho'i hun, ac archwiliwyd y teimladau a'r emosiynau hyn. Cydweithiodd y person ifanc a MAC i ystyried sut y gallai leihau'r siawns y byddai hyn yn digwydd eto. Roedd y person ifanc yn gweithio ym maes manwerthu bwyd brys ac yn awyddus i fynd i'r coleg i astudio gofal cymdeithasol. Roedd wedi rhoi'r gorau i astudio am ei bod yn ei chael hi'n anodd cysgu yn y nos ac wedyn yn ei chael hi'n anodd codi yn y bore i fynd i'r coleg. Roedd hefyd yn smygu canabis ac am roi'r gorau iddi. Amlinellodd y person ifanc ei nodau, sef dod o hyd i dŷ newydd, cofrestru yn y coleg, gwella ei chwsg a rhoi'r gorau i smygu. Cytunodd y gallai MAC gysylltu â hi wythnos yn ddiweddarach er mwyn gweithio gyda hi. Hysbyswyd y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid a gweithwyr llety â chymorth am y cyswllt, a

chytunwyd ar gymorth ar y cyd. Neilltuwyd gweithiwr cymdeithasol CMET i'r person ifanc hefyd drwy atgyfeiriad gan yr heddlu. Yn dilyn hyn, dywedodd y person ifanc ei bod yn ddiolchgar am y cymorth yn ystod ei chyfnod yn y ddalfa ac yn dilyn hynny. Parhaodd y person ifanc i weithio tuag at gyflawni ei nodau gyda chymorth y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid.

Bachgen 17 oed, heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), a oedd yn byw y tu allan i'r ardal ac a gafodd ei arestio yn Abertawe am fod â chyffuriau Dosbarth A yn ei feddiant gyda'r bwriad o'u cyflenwi. Nid oedd yn agored i wasanaethau cymorth. Cafodd drafodaeth â MAC, ond gwrthododd gyfweiliad ysgogiadol, a dywedodd yr hoffai geisio cymorth ar ôl mynd adref. Trafododd cydweithwyr yr angen am gymorth diogelu yn ei ardal breswyllo. Cwblhawyd Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth (MARF). Cysylltwyd â'r gwasanaethau plant, y tîm camfanteisio troseddol a'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid y tu allan i'r ardal, a chafodd atgyfeiriad Masnachu ei wneud i wasanaeth Barnardo's y tu allan i'r ardal. Hysbysodd Gweithiwr Ieuencid MAC hefyd y gweithiwr achos a ariennir gan yr Uned Atal Trais yn St Giles er mwyn ceisio cyngor a chysylltu'r person â'r cymorth hwn yn ei ardal breswyllo. Cynhaliwyd cyfarfod strategaeth â'r gwasanaethau priodol a chafodd y person ifanc ei gludo gartref gan wasanaethau plant Abertawe, er mwyn i'r gwasanaethau plant yn ei ardal leol roi ymchwil adran 47 ar waith. Diolchodd rhingyll y ddalfa i MAC am ei gymorth a dywedodd fod y person ifanc yn ddiolchgar. Ymddangosodd y person ifanc gerbron Llys Ynadon Abertawe a phlediodd yn euog. Trafodwyd proses y Dull Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM). Cafodd y person ifanc ei ryddhau ar fechniaeth gydag amodau.

### *Cynaliadwyedd ac argymhellion*

Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol i staff dalfeydd weld astudiaethau achos o'r ymyriad, er mwyn eu galluogi i weld yr effaith y mae'r gwasanaeth yn ei chael ar bobl ifanc a datblygu'r broses o ddarparu'r ymyriad.

*Rwyf am weld mwy na dim ond astudiaethau achos o straeon llwyddiant. Rwyf am glywed am achosion lle nad oedd yr ymyriad wedi gweithio neu lle y gallem fod wedi gwneud rhywbeth yn well a lle mae angen i ni edrych ar opsiynau amgen o bosibl" (Rhanddeiliad)*

Awgrymwyd y gall gweithwyr ar alwad fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod pobl ifanc sy'n dod i'r ddalfa y tu allan i orau yn gallu cael eu gweld gan un o Weithwyr Ieuencid MAC Maent wrthi'n edrych ar dueddiadau er mwyn canfod pryd mae pobl yn dod i mewn a phryd y byddai aelod ar alwad yn fwyaf defnyddiol. Fodd bynnag, mae nodi tueddiadau wedi bod yn anodd hyd yma. Teimlwyd y byddai ardaloedd eraill o Gymru (nad ydynt eisoes yn defnyddio'r ymyriad) yn cael budd o ymyriad Cyfleoedd Dysgu Digymell. Argymhellwyd y dylid mynd i'r afael â hyn yn y dyfodol drwy edrych ar dueddiadau ac ystadegau er mwyn nodi ym mha ardaloedd y mae angen cyllid fwyaf ac ymateb i'r angen hwn yn briodol.

*"Dim ond hyn a hyn o gyllid sydd gennym a byddai'n amhosibl helpu pawb. Ond rwy'n credu bod trafodaethau ar waith i geisio helpu ardaloedd eraill" (Rhanddeiliad)*

Argymhellwyd y dylai fod cymorth ychwanegol i roi systemau ar waith ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol. Teimlwyd y byddai'r cymorth hwn wedi hwyluso'r broses o gasglu data yn gynnar drwy roi systemau ar waith i gofnodi pob person ifanc a oedd yn dod i mewn i'r ddalfa o ddechrau'r ymyriad, yn hytrach na datblygu'r systemau hyn ar ôl i'r ymyriad gael ei roi ar waith.

*"Byddai wedi bod yn dda gwybod beth oedd ei angen arnom cyn i ni fynd yn fyw. Os byddem yn gwneud y cyfan eto, byddem yn gwneud yn siŵr bod popeth yn ei le, er mwyn i ni allu bwrw ati'n syth i gofnodi pob person ifanc a oedd yn dod i mewn. Does dim ots pa amser o'r dydd yw hi, yn hytrach na'n bod yn gorfod aros amser hir i'r prosesau hyn fod ar waith" (Rhanddeiliad)*

Teimlwyd bod cynnwys rhingylliaid dalfeydd yn y broses o roi'r ymyriad ar waith yn hanfodol ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol. Trafododd un rhanddeiliad ymyriad newydd a ariennir gan yr Uned Atal Trais sy'n canolbwyntio ar niwroamrywiaeth. Roedd o'r farn bod sicrhau ymrwymiad pobl o ddechrau'r ymyriad yn hytrach na dweud wrthynt beth y byddant yn ei wneud (y credwyd bod hynny'n wir yn achos Cyfleoedd Dysgu Digymell) wedi bod yn allweddol i lwyddiant yr ymyriad newydd hwn. Mae trafodaethau diweddar â rhingylliaid dalfeydd wedi canolbwyntio ar y newid mewn plismona a sut y byddant yn gwneud mwy, ond er mwyn i bethau weithio'n effeithiol, nodwyd bod angen i ringylliaid dalfeydd deimlo'n rhan o'r newidiadau.

*“Mae angen cynnwys pobl o'r dechrau, ac yn hytrach na rhoi llwyth o waith iddynt, gofyn iddynt gymryd rhan yn y drafodaeth ynglŷn â sut i gyflawni hyn. Mae ar y gweill, a bydd yn rhan o'ch gwaith. Ond rwy'n awyddus i wybod sut y gallwn ei gyflawni hyd eithaf ein gallu a gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio” (Rhanddeiliad)*

## Astudiaeth achos 3: Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru

Rhaglen mewn ysgolion yw Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru<sup>2</sup>, sef partneriaeth gydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a phedwar Heddlu Cymru. Ffocws y rhaglen yw addysgu ac atal, ac mae'n anelu at wneud y canlynol:

- Diogelu pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yng Nghymru drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am y peryglon sy'n gysylltiedig â phroblemau fel defnyddio a chamddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig, bwlio, ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelwch ar y rhyngwrwyd, arfau, defnyddio ffônau symudol, troseddau ceir a chydlynid cymunedol.
- Addysgu plant a phobl ifanc am y cyfreithiau sy'n rheoli sylweddau (a'r canlyniadau), a pheryglon defnyddio sylweddau i iechyd, teuluoedd a chymunedau ehangach.
- Hyrwyddo egwyddorion dinasyddiaeth gadarnhaol drwy gyfrwng addysg.
- Gostwng lefelau trosedd ac anhrefn yn ein cymunedau ifanc.

Cyflwynir y rhaglen drwy ddull cyson i blant 5-16 oed<sup>3</sup> mewn ysgolion (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion darpariaeth arbennig) ledled Cymru gan Swyddogion Ysgol yr Heddlu, yr ystyrir eu bod yn adran ysgolion. Mae Swyddogion Ysgol yr Heddlu yn gweithio'n agos gydag arweinwyr bugeiliol mewn ysgolion i gefnogi eu cwricwlwm Addysg Personol a Chymdeithasol a chyflwyno rhaglenni ar themâu camddefnyddio sylweddau, diogelwch personol, diogelu, ymddygiad a chymuned i safon addysgol a groesewir gan ysgolion. Yn rhinwedd broffesiynol eu gwaith fel swyddogion yr heddlu, maent hefyd yn darparu plismona cefnogol mewn ysgolion, er enghraifft drwy ddelio â digwyddiadau gan ddefnyddio polisi Trechu Troseddau mewn Ysgolion a chynnig atebion adferol yn cynnwys cynadleddau adferol pan fo angen.

*“Felly mae gennych yr elfen ddiogelwch, yna mae gennym elfen cyffuriau a sylweddau ac elfen ymddygiad cymdeithasol. Mae'r elfennau hyn yn rhan o dri maes, sef craidd hanfodol, penodol ac ategol” (Rhanddeiliad)*

*“Os bydd unrhyw ddigwyddiadau yn yr ysgol, yna byddwn yn delio â nhw gan ei bod yn haws i ni wneud hynny am fod y plant yn ein hadnabod a dyw'r profiad ddim mor frawychus iddyn nhw. Fel swyddogion yr heddlu, rydym yn ceisio defnyddio dull synnwyr cyffredin oherwydd dydyn ni ddim am droseddoli plant, ond yn anffodus, weithiau mae rhai troseddau yn golygu bod ein dwylo wedi'u clymu” (Rhanddeiliad)*

### Gweithredu

Ariennir y Gwasanaeth Cyswllt Ysgolion yn rhannol gan Lywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, yn hytrach na chan yr Uned Atal Trais. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r Uned Atal Trais a theimlwyd y gallai'r cydweithio rhwng y gwasanaeth a'r Uned Atal Trais gynyddu yn y dyfodol a bod hyn yn angenrheidiol i sicrhau canlyniadau allweddol yn y system. Teimlwyd bod angen mynd i'r afael â thrais mewn modd systematig a bod hyn yn cynnwys negeseuon a dulliau gweithredu cyson fel bod pawb 'ar yr un dudalen' ac yn edrych ar waith gwasanaethau/sefydliadau eraill am enghreifftiau o arferion gorau y dylid seilio'r gwasanaethau a ddarperir a'r myriadau cysylltiedig arnynt.

*“Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Uned Atal Trais gan fod angen ymdrech aml-big fel petai. Mae angen i ni fod yn gweithio mewn ffordd gydweithredol lle rydym yn defnyddio dull systematig, oherwydd os byddwn yn gwneud pethau gwahanol ac yn defnyddio dulliau*

<sup>2</sup> <https://schoolbeat.cymru/croeso/amdanom-ni> a <https://schoolbeat.cymru/uploads/media/2022-23-Lesson-Matrix-SchoolBeat.pdf>

<sup>3</sup> Gall y rhaglen gael ei chyflwyno i ddisgyblion chweched dosbarth hefyd os byddant yn yr ysgol ac os bydd agweddau yn berthnasol iddynt, gan gynnig cymorth penodol ac ategol iddynt.

*gwahanol, fyddwn ni ddim yn sicrhau'r math o ganlyniadau rydym yn anelu at eu cyflawni”  
(Rhanddeiliad)*

### **Cyflawni**

Ceir pum Swyddog Ysgol yr Heddlu sy'n gweithio'n benodol yn Abertawe, a hynny ym mhob gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion darpariaeth arbennig. Cyflwynir pob sesiwn yn yr ysgol. Teimlwyd bod y sesiynau yn rhyngweithiol a bod hyn yn bwysig er mwy ennyn diddordeb y plant a'r bobl ifanc. Mae'r rhaglen yn gweithio drwy gyflwyno matrices o wersi ar dri maes allweddol: diogelwch, defnyddio cyffuriau a sylweddau ac ymddygiad cymdeithasol (troseddau casineb, bwlio). Rhoddwyd enghreifftiau o Swyddogion Ysgol yr Heddlu yn dangos fideos (a senarios gwahanol) yn ymwneud â phynciau penodol fel pwysau gan gyfoedion, troseddau cyllyll, trais yn erbyn menywod a merched, camfanteisio, a secstio. Bydd y gwersi/gweithgareddau canlynol yn canolbwyntio ar y themâu hyn. Mae'r gwersi hefyd yn canolbwyntio ar wydnwch ac ar rannu manylion gwasanaethau/sefydliadau y gall y plant a'r bobl ifanc gysylltu â nhw am wybodaeth neu sgwrs ag oedolyn yr ymddiriedir ynddo.

*“Mae'n rhyngweithiol iawn. Y nod yw eu hannog i drafod y pynciau sensitif iawn hyn yn gyffredinol a thrwy'r trafodaethau, ddechrau edrych ar agweddau. Dechrau edrych ar eu wybodaeth a'u dealltwriaeth. Meithrin eu sgiliau gan fod rhai o'r pethau hyn yn ymarferol hefyd. Os bydd pwysau gan gyfoedion wrth wraidd rhywbeth, sut mae gwrthsefyll hynny? Sut beth yw hynny? Felly byddwn yn edrych ar strategaethau ar gyfer gwrthsefyll pwysau gan gyfoedion a bydd ein gwersi bob amser yn cynnwys ffocws ar wydnwch”  
(Rhanddeiliad)*

Teimlwyd bod dull rhagweithiol (ataliol) ac ymatebol. Mae Swyddogion Ysgol yr Heddlu yn cynnal y rhaglen er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r themâu a'r pynciau allweddol hyn, ac mae ganddynt hefyd yr ymreolaeth i gyflwyno agweddau penodol i'r plant a'r bobl ifanc y maent yn ymgysylltu â nhw, fel gwahodd asiantaethau a chydweithwyr sy'n gweithio mewn meysydd arbenigol eraill.

Cyfeiriodd un o'r rhanddeiliaid at raglen beilot ymgysylltu a gynhaliwyd cyn pandemig COVID-19 i'r rheini sy'n cael addysg yn y cartref, y cymerodd 40 o blant sy'n cael addysg yn y cartref ran ynddi. Teimlwyd mai'r plant anweledig hyn yw'r rhai mwyaf anodd eu cyrraedd, ac y gallant fod yn llawer mwy agored i niwed. Y gobaith yw y bydd y gangen hon o'r rhaglen yn ailddechrau ar ryw adeg ac y bydd yn cael ei chyflwyno ym mhob rhan o'r heddlu. Y ffocws ar hyn o bryd yw adfer yn dilyn y pandemig.

*“Gwnaethom weithio gyda phlant sy'n cael addysg yn y cartref a chawsom ddiwrnod allan. Cawsant ddiwrnod gwych, ac roedd yn gadarnhaol iawn gan mai'r plant hyn yw'r rhai mwyaf anodd eu cyrraedd. Maent yn anweledig ac, o bosibl, yn agored i niwed”  
(Rhanddeiliad)*

Wrth ystyried anghenion y bobl ifanc, teimlwyd nad oedd troseddau cyllyll o reidrwydd yn broblem yn yr ardal, a bod trais ymysg merched yn ogystal â rôl y cyfryngau cymdeithasol o ran sbarduno trais yn peri pryder. Teimlwyd bod newid pendant wedi bod yn yr ymddygiad hwn ers pandemig COVID-19. Mae pryder hefyd ynghylch a fydd hyn yn datblygu i gynnwys y defnydd o arfau. Ystyriwyd bod y cyfryngau cymdeithasol yn chwarae rhan sylweddol o ran 'cynllunio' a 'bwydo' y trais hwn; yn ogystal â phobl yn ffilio'r digwyddiadau hyn ac yn eu postio ar-lein. Teimlwyd bod yr heddlu yn ymwybodol iawn o hyn a bod y Gwasanaeth Cyswllt Ysgolion wedi datblygu adnodd newydd cyflym er mwyn helpu i fynd â'r afael â'r mater. Cefnogwyd yr adnodd hwn, sydd ar ffurf cyflwyniad, drwy'r Uned Atal Trais

a'i nod yw trafod agweddau fel ymddygiadau niweidiol ar-lein sy'n arwain at ymddygiad treisgar. Mae'n cynnwys elfen gwylwyr a ffocws ar reoli emosiynau.

Yn achos rhai plant a phobl ifanc, nodwyd hefyd ddiffyg cefnogaeth rhieni a'r angen am ddisgyblaeth gan rieni mewn perthynas â gosod ffiniau a phennu ymddygiad derbyniol/annerbyniol.

*“Problem arall, yn fy marn i, yw'r ffaith, er enghraifft, pan fydd ymladd yn yr ysgol, bod pawb heddiw yn estyn am eu ffonau symudol ac yn ei ffilmio, cyn mynd ati i'w bostio ar y cyfryngau cymdeithasol” (Rhanddeiliad)*

*“Ymddygiadau niweidiol ar-lein sy'n arwain at drais corfforol. Felly rydym yn trafod yr elfen gwylwyr oherwydd yn aml, mae llawer a allai fod yn digwydd ac yn newid ar y cam hwnnw a allai atal trais yn gyfan gwbl. Wedyn, wrth gwrs, y gallu i reoli'r emosiynau hynny a all ffrwydro, a'r prosesau a'r strategaethau i'w rheoli” (Rhanddeiliad)*

### Partneriaethau

Teimlwyd bod y Gwasanaeth Cyswllt Ysgolion a Swyddogion Ysgol yr Heddlu yn ymgysylltu'n rheolaidd â gwasanaethau/sefydliadau eraill fel gwasanaethau defnyddio sylweddau, gwasanaethau cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar ac iechyd meddwl. Cytunwyd y byddai datblygu'r cydberthnasau hyn yn fuddiol er mwyn i'r partneriaid hyn gael mwy o bresenoldeb. Awgrymwyd y gellid gwella hyn drwy gael man canolog/a rennir neu wedi'i gyd-leoli lle y gallai partneriaid gwahanol ddod ynghyd. Caiff Swyddogion Ysgol yr Heddlu eu rheoli gan reolwyr llinell Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae hyn wedi eu cysylltu'n well â nodau diogelwch cymunedol lleol mewn perthynas ag atal trais. Argymhellwyd y dylid cynnal gweithgaredd datblygu er mwyn pontio'r bwlch rhwng cymunedau ac ysgolion oherwydd ystyriwyd bod y bwlch hwn yn amlwg iawn ar y pryd. Teimlwyd y byddai meithrin y cydberthnasau proffesiynol hyn yn fuddiol gan y byddai Swyddogion Ysgol yr Heddlu yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ym mywydau pobl ifanc er mwyn targedu eu dull gweithredu gyda phobl ifanc penodol.

*“Byddai'n well gen i gael adeilad neu swyddfa lle mae'r holl asiantaethau hyn, gan gynnwys ni ein hunain, yn cydweithio o dan un to mewn ffordd gydgyssylltiedig. Dyna fyddai'r safon model aur” (Rhanddeiliad)*

*Dydyn ni ddim yn ymwybodol. Er enghraifft, os byddai digwyddiad trais domestig yn digwydd ar y penwythnos a byddai'r heddlu wedi cael eu galw, os gallem gael gwybod am hynny, yna os byddem yn yr ysgol y diwrnod canlynol, byddem yn gwybod bod y plentyn hwnnw wedi gweld achos o drais” (Rhanddeiliad)*

### Rhwystrau

Cyfeiriodd un o'r rhanddeiliaid at weithdy diweddar a chwestiynodd i ba raddau yr oedd grwpiau pobl Ddu ac ethnig leiafrifol (BME) yn cael eu cynrychioli. Dywedodd fod ysgolion yng Nghymru yn sefydliadau amrywiol o ran ethnigrwydd a bod swyddogion yr ysgolion wedi meithrin cydberthnasau â'r bobl ifanc y gellid eu cynnwys er mwyn ymgysylltu â phoblogaethau Du ac ethnig leiafrifol. Teimlwyd bod y gydberthynas rhwng yr heddlu a chymunedau yn rhwystr. Dywedodd un rhanddeiliad fod clybiau ieuenctid ac amgylcheddau tebyg yn lleoliadau lle y gellid meithrin y cydberthnasau hyn. Teimlwyd y gall bylchau yn yr ymgysylltu â Swyddogion Ysgol yr Heddlu effeithio ar y cydberthnasau y mae'r swyddogion wedi bod yn eu meithrin yn ystod y tymor. Nodwyd bod gwahaniaeth amlwg mewn agweddau ac ymddygiadau tuag at Swyddogion Ysgol yr Heddlu ar ôl y cyfyngiadau symud.

*“Does dim cyswllt rhwng cymunedau ac ysgolion. Clybiau ieuenctid a phethau felly fyddai'r cyswllt hwnnw yn y gorffennol, ond dydyn ni ddim yn eu gweld nhw mwyach” (Rhanddeiliad)*

*“Mae'n anodd gwybod beth i'w wneud o ran gwyliau'r ysgol, oherwydd rydym yn dibynnu ar dimau cymdogaeth, sy'n iawn, oherwydd rydym yn gallu mynd allan ar batrôl, ac rydym yn gweld rhai o'r plant hyn ar hyd y lle. Ond a dweud y gwir, dylai WPSP fod yn cael ein defnyddio'n amlach yn Ne Cymru... i dargedu'r grŵp cywir o blant...” (Rhanddeiliad)*

*“Eu hymddygiad, doedden nhw ddim am wrando, iaith, trais gwaethygedig, cyfryngau cymdeithasol, trais rhywiol, cyffwrdd y rhywiol ... gwnaethom weld cynnydd aruthrol yn y galwadau hynny a'r digwyddiadau roedd yn rhaid i ni ddelio â nhw [ar ôl y cyfyngiadau symud]. Dechreuodd pethau arafu ychydig dros y pedwar neu bum mis diwethaf. Ond bydd yn ddiddorol gweld beth fydd y sefyllfa pan fyddwn yn dychwelyd ar ôl yr haf. Nid oes ganddyn nhw'r rhyngweithio hwnnw â ni” (Rhanddeiliad)*

## Effaith

Roedd y newid cadarnhaol ym meddyliau ac agweddau pobl ifanc yn allweddol i lwyddiant y rhaglen ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol ynghylch y themâu a'r pynciau allweddol y mae'r rhaglen ysgolion yn ymdrin â nhw. Mae hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymddygiad fel eu bod yn gwneud dewisiadau gwell ac yn cadw eu hunain ac eraill yn ddiogel, gan leihau niwed a lefelau troseddu ac, yn y tymor hwy, atal niwed. Mae'r rhaglen yn rhoi setiau sgiliau newydd i blant a phobl ifanc i'w helpu i gynyddu eu gwydnwch a'u gallu i wrthsefyll pwysau gan gyfoedion. Ystyriwyd bod meithrin cydberthnasau cadarnhaol yn rhan bwysig o rôl Swyddog Ysgol yr Heddlu; gan ennyn ymddiriedaeth a hyder rhwng y plant a'r bobl a'r heddlu. Teimlwyd y gall plant a phobl ifanc, drwy'r rhaglen, feithrin cydberthnasau gwell â'u teulu (bywyd cartref ac amgylchedd cartref gwell). O ran effeithiau ehangach, mae un o Swyddogion Ysgol yr Heddlu wedi sefydlu'r defnydd o arferion adferol sydd y tu hwnt i'w gyfrifoldebau. Teimlwyd bod y gweithgarwch hwn yn effeithio ar gymunedau a bod pobl ifanc yn cymryd cyfrifoldebau am eu gweithredoedd ac yn rhoi rhywbeth yn ôl i'w cymuned leol, fel cymryd rhan mewn sesiynau glanhau traethau.

*“Un achos lle roedd merch wedi ymosod yn gorfforol ar ferch arall yn yr ysgol. Ar ôl gweithio gyda ni, roedd sefyllfa wedi codi lle y gallai'r un peth fod wedi digwydd eto. Ond yn lle hynny, cerddodd i ffwrdd, ac anfonodd ei mam e-bost atom yn diolch am y gwaith roedd swyddog yr ysgol wedi ei wneud gyda hi gan ei fod wedi ei helpu i droi cornel o ran rheoli ei hemosiynau ei hun” (Rhanddeiliad)*

*“Mae'n siŵr mai'r hyn sy'n allweddol yw eich bod yn newid eu ffordd o feddwl, a thrwy hynny eu hymddygiad, fel eu bod yn gwneud dewisiadau gwell. Dewisiadau sy'n eu cadw'n ddiogel yn y bôn... ac yn amlwg mewn perthynas â'r gyfraith, sy'n eu cadw allan o drafferth o ran torri'r gyfraith yn y dyfodol. Rydym yn awyddus i helpu pobl ifanc i osgoi sefyllfaoedd lle nad oes angen iddynt fod a lleihau niwed a, lle bynnag y bo'n bosibl, atal niwed yn gyfan gwbl” (Rhanddeiliad)*

*“Mae'r cydberthnasau rydym yn eu meithrin yn rhyfeddol” (Rhanddeiliad)*

Wrth ystyried sut y caiff effeithiau'r rhaglen eu mesur, trafodwyd y ffaith bod holiaduron yn cael eu defnyddio ar gyfer rhai agweddau ar y rhaglen, er mwyn edrych ar newidiadau mewn canfyddiadau ac agweddau dros gyfnod y gwersi ynghylch themâu a phynciau penodol. Caiff data ar allbynnau hefyd eu casglu ar ffurf nifer y sesiynau a gynhaliwyd, faint o blant oedd yn bresennol (gan gynnwys patrolau triwantiaeth), y digwyddiadau yr ymdriniwyd â nhw, a nifer yr arferion cyfiawnder adferol a hwyluswyd. Caiff adborth hefyd ei gasglu drwy fforwm pobl ifanc. Teimlwyd hefyd ei bod yn anodd meintio a mesur y gwaith a wneir gyda pherson ifanc y tu allan i'w sesiynau i edrych ar ei ymddygiad a'r canlyniadau.

*“Sut mae meintoli eistedd gyda disgybl yn esbonio iddo beth mae'n ei wneud yn anghywir, beth mae wedi ei wneud, a'r canlyniadau, a'r plentyn hwnnw wedyn yn ystyried hynny a byth yn gwneud hynny neu'n mynd i drafferth eto? Allwch chi ddim meintoli hynny”*  
(Rhanddeiliad)

### *Cynaliadwyedd ac argymhellion ar gyfer y dyfodol*

Credir bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn ystyried y gwasanaeth hwn yn rhan hanfodol o'r gwaith atal y mae'r heddlu yn ei wneud yng Nghymru ac yn rhywbeth y dylai rhannau eraill o'r wlad anelu ato. Teimlwyd bod ymgais fawr i atal trais (yn enwedig yng ngoleuni'r cynnydd mewn troseddau treisgar a throseddau ar-lein) a bod hyn yn rhoi ffocws 'ategol' i'r rhaglen a'i bod yn hollbwysig bod rhaglenni fel hon a'r Uned Atal Trais yn gynaliadwy.

Teimlwyd ei bod yn bwysig creu mudiad dros newid a llywio diwylliant, a chredwyd y gallai hyn o bosibl gael ei wneud drwy ddefnyddio hyrwyddwyr ac ennyn cefnogaeth pobl ifanc. Roedd gweithgareddau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys hyfforddiant i wylwyr fel adnodd defnyddiol i atal trais ac roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r Uned Atal Trais i ystyried y sail dystiolaeth a ph'un a ellid ei gyflawni. Teimlwyd bod diffyg tystiolaeth ymysg pobl ifanc 13/14-16 oed, yr ystyrir ei fod yn oedran hanfodol i bobl ifanc ffurfio eu meddylfryd, eu credoau a'u hagweddau. Trafodwyd y gallai Swyddogion Ysgol yr Heddlu o bosibl gymryd rhan mewn hyfforddiant i wylwyr y gallent wedyn ei raeadru i grwpiau yn eu hysgolion uwchradd, a'r rheini â dylanwad da mewn grwpiau cyfoedion, gan weithio ar y dybiaeth bod addysg cyfoedion yn cael effaith gadarnhaol. Teimlwyd y byddai hyn yn gweithio'n dda gan fod swyddogion a phlant yn parchu ei gilydd.

*Rydyn ni'n creu rhyw fath o fudiad. Dyw hi ddim yn hawdd llywio a newid diwylliant .... Mae'n rhaid bod gennych chi'r hyrwyddwyr a'r dilynwyr, ac mae'n rhaid bod gennych chi'r dilynwyr cychwynnol hynny sy'n dod yn hyrwyddwyr ac yn denu dilynwyr, ac mae hynny'n dechrau rhyw fath o fudiad. Ac yn fy marn i, dylai fod yn rhan o'r cwricwlwm. Oes, mae'n rhaid i'r holl bethau hyn ddigwydd yng nghyd-destun ehangach bywyd ysgol. Ond mae'n rhaid iddo fod yn rhywbeth mae pobl ifanc eu hunain yn ei gefnogi. Fel arall, mae'n un peth arall sy'n cael ei wneud iddyn nhw”* (Rhanddeiliad)

Teimlwyd y gallai fod yn fuddiol i'r Uned Atal Trais gael mwy o fewnbwn i ddyluniad y rhaglen, yn enwedig o ran atal trais. Fel y nodwyd eisoes, teimlwyd y gellid gwella gwaith partneriaeth drwy ddatblygu dull hyb lle y gallai mwy o weithwyr proffesiynol ddod ynghyd. Teimlwyd y byddai meithrin y cydberthnasau hyn yn fuddiol er mwyn cael gwybod beth sydd wedi digwydd. Dywedodd un rhanddeiliad fod cydweithio a defnyddio dull cydweithredol yn hanfodol i leihau trais.

*“Byddai'n fwy buddiol pe bai'r Uned Atal Trais yn cydweithio gyda'n cydlynwyr i lunio deunydd i ni ei ddarparu, a gan fod ein gwersi'n cael eu cyflwyno i ddysgwyr clywedol, dysgwyr cinesthetig a dysgwyr gweledol, byddai'n fuddiol i ni greu cyflwyniad, gan dynnu sylw at yr holl bwyntiau hynny, ond cynnwys fideo da ar atal trais”* (Rhanddeiliad)

Hefyd, teimlwyd y byddai'n fuddiol cynnal dosbarthiadau gyda rhieni er mwyn eu helpu i ddeall ymddygiad eu plentyn a'u haddysgu am bwysigrwydd gwybod ble mae eu plentyn a'r hyn y mae'n ei wneud. Fodd bynnag, cydnabuwyd 'Yn anffodus, dyw'r rhai rydych chi am siarad â nhw go iawn ddim yn dod i'r dosbarthiadau beth bynnag'. Teimlwyd bod angen ystyried ymhellach y parhad cymorth a ddarperir yn ystod gwyliau'r ysgol, gan mai dim ond yn ystod y tymor y mae'r rhaglen i ysgolion yn rhedeg.

*“Yn fy marn i, dylem fod yn cynnal dosbarthiadau i rieni. Ac rwy'n ceisio gwneud hynny oherwydd rydym yn cynnal digwyddiadau i rieni, gan fod angen iddyn nhw ddeall y gyfraith a phlisma”* (Rhanddeiliad)



*“Yn fy marn i, gallem yn hawdd adnabod y plant y mae angen eu hysgogi neu sy'n agored i niwed, a chadw llygad arnyn nhw yn ystod gwyliau'r ysgol. Gallem gynnal cynlluniau ac ysgolion haf ar y cyd â'r ysgolion, neu'r awdurdod lleol” (Rhanddeiliad)*

## Astudiaeth achos 4: Ymddiriedolaeth St Giles

Mae Ymddiriedolaeth St Giles yn gweithio ledled Cymru er mwyn helpu pobl i oresgyn rhwystrau a chael y cymorth sydd ei angen arnynt i symud ymlaen yn eu bywydau. Mae St Giles yn helpu unigolion i wneud newidiadau tebyg drwy rymuso pobl mewn cymunedau lleol a'u galluogi i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i drawsnewid eu bywydau. Mae'n gweithio ar draws ardal eang sy'n cynnwys cymunedau yng nghanol dinasoedd a chymunedau gwledig, ac yn cefnogi pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddod yn rhan o achosion o drais gan bobl ifanc a chamfanteisio e.e. llinellau cyffuriau, gweithgarwch troseddol, cam-fanteisio a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant a'u masnachu. Darperir ei gwasanaethau mewn cydweithrediad agos â phartneriaid lleol, fel yr heddlu, awdurdodau lleol, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid, gwasanaethau yn y trydydd sector (e.e. sylweddau a thrais domestig) a gwasanaethau iechyd meddwl, gan ddiwallu anghenion lleol pob cymuned.

*“Mae St Giles yn cefnogi pobl agored i niwed sy'n wynebu risg, ac yn targedu pobl ifanc sy'n rhan o achosion o drais gan bobl ifanc a chamfanteisio neu'n wynebu risg o hynny, a gallai hynny gynnwys llinellau cyffuriau. Gallai gynnwys gweithgarwch troseddol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac unrhyw beth sy'n gysylltiedig â chamfanteisio”*  
(Rhanddeiliad)

Mae St Giles yn cynnig ymyriadau eilaidd penodol i bobl ifanc 11-18 oed i'w hatal rhag dod yn rhan o achosion o drais, ond mae ei help wedi cael ei ymestyn i bobl ifanc 25 oed os oes ganddynt anghenion arbennig a bregusrwydd. Ystyrir bod St Giles yn darparu cymorth yn ystod y cyfnod pontio hwn i fywyd oedolyn ac mae wrthi'n gweithio i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hatgyfeirio at St Giles pan fyddant yn 18 oed er mwyn pontio'r bwlch hwn. Y bobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth yw'r rheini sy'n rhan o achosion o drais gan bobl ifanc, fel defnyddio arfau neu ymosod, neu'r rheini y mae rhywun yn camfanteisio arnynt (e.e. troseddau cyfundrefnol difrifol, llinellau cyffuriau neu weithgarwch delio cyffuriau lleol), y mae risg o drais a niwed difrifol yn gysylltiedig â phob un ohonynt. Mae'r cleientiaid y aml yn wynebu problemau yn ymwneud â chyffuriau a thrais, ac mae cysylltiad rhwng y ddau yn aml.

*“Rwy'n credu bod cyffuriau a thrais gan bobl ifanc yn mynd law yn llaw. Mae pobl yn delio cyffuriau ac fel arfer rydych chi'n gweld trais yn cael ei ddefnyddio fel dull gorfodi, ond hefyd er mwyn rheoli tiriogaeth. Rydych chi'n gweld llinellau cyffuriau a reolir a hyd yn oed pobl sy'n prynu cyffuriau yn defnyddio trais tuag at bobl ifanc i gael eu cyffuriau. Mae'n fyd treisgar”* (Rhanddeiliad)

### Gweithredu a chyflawni

Yn Abertawe, mae gan St Giles weithiwr achos a ariennir gan yr Uned Atal Trais (ers mis Mawrth 2020) sy'n gweithio gyda phobl sy'n rhan o linellau cyffuriau, achosion o gamfanteisio troseddol a rhywiol, a thrais. Yn gyffredinol, gall gweithiwr achos St Giles reoli llwyth achosion o 15 o bobl ifanc ond mae'n dueddol o ymdrin â 10-12 er mwyn darparu 'cymorth o ansawdd da'. Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, cafodd St Giles 75 o atgyfeiriadau, yn cynnwys atgyfeiriadau gan wasanaethau gofal cymdeithasol, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid a rhieni. Ymgysylltodd â 38 o bobl ifanc a gwnaeth 31 o atgyfeiriadau at sefydliadau eraill.

Mae St Giles yn derbyn hunanatgyfeiriadau, atgyfeiriadau gan rieni ac atgyfeiriadau gan wasanaethau eraill. Ar gyfer gwasanaeth, caiff ffurflen atgyfeirio ei llenwi a anfonir i flwch post dynodedig lle y caiff ei brysbennu a'i hasesu er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer cymorth. Yna, caiff ei throsglwyddo i weithiwr achos penodedig sy'n gweithio yn y maes penodol. Lle y caiff person ifanc ei atgyfeirio gan riant, bydd gweithiwr teulu hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'r

teulu er mwyn darparu cymorth cofleidiol. Mae hyn hefyd yn cynnwys bod yn ymwybodol o unrhyw wasanaethau eraill y gall y person ifanc fod yn ymgysylltu â nhw, er mwyn iddo allu helpu i asesu unrhyw risgiau i'r person ifanc hwnnw.

Pan ddaw atgyfeiriad i law, cynhelir asesiad cychwynnol gyda'r person ifanc. Fel arfer, caiff yr asesiad hwn ei gynnal drwy sesiwn gyswllt teirffordd gyda'r gweithiwr achos, y person ifanc, a'r atgyfeiriwr. Os bydd y person ifanc yn bodloni'r meini prawf, bydd y gweithiwr achos wedyn yn mynd ati i weithio gyda'r unigolyn ar sail un-i-un, a chytunir ar nodau. Mae'r rhyngweithio yn anffurfiol er mwyn ennyn hyder y person ifanc, meithrin cydberthynas ag ef a rhoi'r cyfle iddo siarad yn agored. Disgwyliwyd y byddai hyn yn broses araf a allai gymryd wythnosau neu hyd yn oed fisoedd. Dyma'r rheswm pam yr ystyrir ei bod yn bwysig bod gweithwyr achos yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y person/cleient. Mae amllder y sesiynau yn dibynnu ar anghenion y cleient, gyda rhai yn cael sesiynau unwaith yr wythnos, ac eraill yn cael sesiwn bob wythnos. Mae hyd y sesiwn hefyd yn amrywio yn dibynnu ar y cleient.

*“O ran sesiynau un-i-un...byddwn yn mynd â nhw allan am sesiwn gyswllt. Mae'n ffordd anffurfiol iawn o weithio gyda nhw. Maen nhw'n ei chael hi'n anodd iawn ymgysylltu'n ffurfiol â gweithiwr proffesiynol nodweddiadol” (Rhanddeiliad)*

Mae natur yr ymyriadau a ddarperir yn amrywio a chânt eu personoli yn dibynnu ar anghenion a nodwyd y cleient. Gallant fod yn ymyriadau seiliedig ar weithgareddau (e.e. cymorth i fynd i apwyntiadau) ac yn rhai un-i-un penodol, sy'n annog pobl ifanc i ystyried eu dewisiadau a chanlyniadau eu gweithredoedd, a all eu helpu i wneud newidiadau mwy cadarnhaol.

*“Rwy'n delio ag achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a gweithgarwch troseddol ar bob lefel. Wyddoch chi, bwrgleriaeth, trais, arfau tanio, arfau a phethau felly, mae'r unigolion hyn yn wynebu problemau eraill yn eu bywydau hefyd. Felly iechyd meddwl, trais domestig, camddefnyddio sylweddau, sy'n broblem enfawr” (Rhanddeiliad)*

Mae anghenion y bobl ifanc sy'n ymgysylltu â St Giles yn cynnwys cymorth yn ymwneud â chydberthnasau a chyfeillgarwch cadarnhaol, nodi rolau neu weithgareddau cadarnhaol, pwysau gan gyfoedion, iechyd meddwl gwael, camddefnyddio sylweddau (naill ai eu hunain neu yng nghartref y teulu), cam-drin domestig (yn y cartref), cymorth yn ymwneud â rheoli teimladau ac emosiynau, gan gynnwys dicter, anawsterau dysgu a chyrraeddian addysgol. Nodwyd nad yw pobl ifanc yn gallu adnabod risgiau a chanlyniadau ac nad ydynt yn deall y gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt neu'n ymwneud â nhw. Dywedodd rhanddeiliaid eu bod yn gweld llawer iawn o bobl ifanc a fu'n rhan o linellau cyffuriau (gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant) a thrais. Mae llawer o'r bobl ifanc hefyd yn ymwneud â gwasanaethau statudol fel Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid neu wasanaethau cymdeithasol. Yn dilyn pandemig COVID-19, roedd y gwasanaeth wedi gweld cynnydd sydyn yn nifer y merched a'r menywod a oedd yn dod yn rhan o linellau cyffuriau a mathau eraill o drais. Credir bod yr unigolion hyn yn dod drwy'r llwybr camfanteisio'n rhywiol ar blant, felly mae'n debygol bod rhywun yn camfanteisio'n rhywiol ac yn droseddol arnynt.

*“Yn dilyn pandemig COVID-19 hefyd, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y merched a'r menywod sy'n dod yn rhan o linellau cyffuriau a mathau mwy difrifol o drais gan bobl ifanc. Yr hyn rydych yn aml yn ei weld yn achos y menywod iau hefyd yw eu bod fel arfer yn dod drwy'r llwybr camfanteisio'n rhywiol ar blant, felly mae rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt. Ond mae rhywun yn camfanteisio'n droseddol arnynt hefyd” (Rhanddeiliad).*

Yn ystod y pandemig, gwelwyd newidiadau amlwg ym mhatrymau ymddygiad gangiau a'r broses o gludo cyffuriau, wrth i ferched ifanc gael eu defnyddio'n amlach i osgoi amheuaeth. Teimlwyd bod angen dull cyflawni hyblyg wrth ymgysylltu â'r bobl ifanc am fod cyflawnwyr sy'n camfanteisio ar bobl

ifanc fel arfer un cam ar y blaen ac, o ganlyniad, mae'r gwasanaeth yn addasu i fodloni gofynion ei gleientiaid i ystyried hyn. Er enghraifft, cyflogwyd mwy o weithwyr achos benywaidd er mwyn ystyried nifer y merched a'r menywod ifanc sy'n dod yn rhan o droseddau. Yn benodol yn Abertawe, teimlwyd bod pocedi o achosion wedi effeithio ar y bobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth. Un enghraifft a roddwyd oedd y terfysgoedd yn Mayhill, yr oedd amrywiaeth o bobl ifanc yn gysylltiedig â nhw, gan gynnwys cyflawnwyr, ond hefyd gwylwyr a dioddefwyr a welodd y digwyddiad. Ar ôl y digwyddiad hwn, cysylltodd nifer o bobl ifanc â'r gwasanaeth.

Mae'r gweithiwr achos yn gweithio ochr yn ochr â gweithiwr teuluoedd os oes unrhyw broblemau teuluol y mae angen mynd i'r afael â nhw. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod defnyddio dull a arweinir gan y cleient yn bwysig i alluogi defnyddiwr y gwasanaeth i gael rhywfaint o reolaeth dros y cymorth y mae'n ei gael. Dywedwyd hefyd fod gweithwyr achos yn treulio amser yn meithrin cydberthynas â'u cleientiaid cyn cyflwyno cyngor a chymorth yn raddol. Nododd rhanddeiliaid fod St Giles yn gweithio gyda'r bobl ifanc (a'u teuluoedd) am gyn hired ag sydd ei angen a bod y cymorth, yn gyffredinol, yn tueddu i ddod i ben yn naturiol, gan ei galluogi i gamu'n ôl ar delerau'r person ifanc. Teimlwyd bod cael gweithwyr achos sydd wedi cael hyfforddiant ar drawma yn helpu i feithrin cydberthynas â'r bobl ifanc ac yn eu galluogi i siarad yn agored â'u gweithwyr achos a bod yn fwy parod i gael eu cyfeirio at wasanaethau perthnasol eraill os oes angen. Pan fydd y cyswllt â St Giles wedi dod i ben, bydd y person ifanc yn dal i allu defnyddio'r gwasanaeth eto os bydd angen, ond os bydd cyfnod hir o amser wedi mynd heibio, bydd angen atgyfeiriad newydd. Fodd bynnag, mewn achosion lle bu sefyllfa benodol ar ôl i'r person ifanc gael ei ryddhau, caiff diweddariad ei roi cyn symud yr achos yn ei flaen, ar yr amod bod y galluedd yno i alluogi hynny.

*"I lawer o bobl ifanc, bydd y cyswllt yn dod i ben yn naturiol beth bynnag. Felly pan fyddwch chi'n gwneud llawer o waith gyda nhw a byddan nhw wedi cyrraedd man diogel a sefydlog, gallwch chi gamu'n ôl mewn ffordd reoledig"*

### **Partneriaethau**

Mae St Giles yn gweithio gyda phartneriaid statudol fel Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuentid, yr heddlu, awdurdodau lleol a gwasanaethau cymdeithasol, yn ogystal â phartneriaid ehangach fel asiantaethau cyffuriau ac alcohol. Caiff hefyd ei chynghori gan y panel CMET, sydd hefyd yn cynnwys y sefydliadau hynny sy'n ymwneud â diogelu plant a phobl ifanc, a theimlwyd bod hyn yn ffordd dda o ddod i wybod am bryderon allweddol neu bobl ifanc penodol â bregusrwydd a nodwyd. Teimlir bod St Giles yn meithrin cydberthnasau newydd ochr yn ochr â pharhau i feithrin cydberthnasau proffesiynol sefydledig (fel y rheini â gweithwyr ieuentid MAC, sy'n atgyfeirio pobl ifanc at y gwasanaeth). Dywedodd rhanddeiliaid hefyd eu bod yn mynychu cyfarfodydd i hyrwyddo'r gwasanaeth, hwyluso'r partneriaethau hyn ac annog dull amlasiantaeth.

*"Rydym i gyd yn rhan o'r panel CMET. Yr holl sefydliadau sy'n ymwneud â diogelu. Felly, rydym yn cael syniad da o'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal. Rydym yn gallu edrych ar [broblemau/adroddiadau] a thrafod fel grŵp cyn cynnig pa ymyriad fydd orau i berson ifanc" (Rhanddeiliad)*

*"Rydym wedi bod yn meithrin cydberthnasau proffesiynol, yn mynychu cyfarfodydd, yn cyflwyno ein gwasanaeth er mwyn gweld sut y gall pob un ohonom gydweithio'n well â'n gilydd. Mae llawer o asiantaethau erbyn hyn yn credu y gall pob un ohonom gydweithio. Mae'n ddull aml-big yn hytrach na bod un sefydliad yn gwneud y gwaith" (Rhanddeiliad)*

Teimlai rhanddeiliaid fod amrywiaeth dda o bartneriaid yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd o fewn yr Uned Atal Trais ar hyn o bryd, a thrwy agor swyddfa newydd yn Abertawe, bod gan St Giles fwy o bresenoldeb yn yr ardal. Teimlwyd bod yr holl wasanaethau a sefydliadau gwahanol o fewn yr Uned

Atal Trais yn dod ynghyd yn hytrach na gweithio ar wahân, a chredwyd bod hyn o fudd mawr i'r Uned Atal Trais. Ni theimlwyd bod unrhyw bartneriaid sydd ar goll neu wedi'u heithrio o'r Uned Atal Trais ar hyn o bryd, ond bod gan bartneriaethau bob amser y potensial i ehangu a datblygu. Teimlai rhanddeiliaid fod gan St Giles gydbertynas dda â'r Uned Atal Trais gan ei bod wedi cael adborth da ar ei gwaith gyda phobl ifanc. Nodwyd bod llinellau cyfathrebu agored rhwng y ddau sefydliad bob amser, gan olygu bod modd cynnal trafodaeth barhaus am waith a nodi unrhyw broblemau neu bryderon.

*“Y peth da am bartneriaethau, yn fy marn i, yw bod modd tyfu partneriaeth bob amser. Does dim terfyn ar y bartneriaeth honno, gallwch chi bob amser ei thyfu” (Rhanddeiliad)*

*“Felly rwy'n credu bod amrywiaeth dda (o wasanaethau), mewn llawer o feysydd, ac rydyn ni'n gallu gweithio ochr yn ochr â'n gilydd yn eithaf hawdd” (Rhanddeiliad)*

## Rhwystrau

O ran rhwystrau, nodwyd ei bod hi'n anodd cyfathrebu â phartneriaid weithiau, yn enwedig gyda'r awdurdod lleol a'r heddlu. Y rheswm dros hyn oedd na allent rannu cudd-wybodaeth sylweddol â phartneriaid felly teimlwyd y gallai cyfathrebu fod yn rhwystr yn yr achosion hyn. Er nad oedd hyn o reidrwydd yn rhwystr mawr, teimlwyd y gellid adeiladu'n well ar y cydbertynasau perthnasol, a bod gan St Giles ran i'w chwarae wrth gefnogi gwaith partneriaeth. Wrth ystyried rôl y gweithiwr achos a ariennir yn uniongyrchol gan yr Uned Atal Trais yn Abertawe, teimlwyd y gellid edrych ar natur fyrdymor y cyllid a'r prosesau a ddefnyddir i adnewyddu'r cyllid. Teimlai rhanddeiliaid fod natur 'munud olaf' y broses o adnewyddu cyllid bob 12 mis, nid yn unig yn effeithio ar y bobl ifanc (gan ei bod yn tarfu ar y cydbertynasau yn seiliedig ar ymddiriedaeth sy'n datblygu ac yn arbennig o niweidiol i'r rheini â phroblemau ymlyniad), ond hefyd ar gyfraddau cadw staff yn y dyfodol.

*“Bydd person ifanc yn meithrin cydbertynas â gweithiwr proffesiynol ac ymhen wythnosau, yn dechrau siarad yn agored. Mae'n dibynnu ar y cysondeb a'r dibynadwyedd ... felly mae'n niweidio'r gydbertynas honno â pherson ifanc” (Rhanddeiliad)*

Wrth edrych yn benodol ar effaith cyllid ar gydbertynasau rhwng y gweithiwr achos a'r person ifanc a gwasanaethau eraill, dywedodd un rhanddeiliad fod gorfod cau sesiynau cleient pan fydd cyfnod y cyllid yn dod i ben, heb wybod a fydd y gwasanaeth yn cael ei ailgomisiynu, yn rhwystredig iawn. Teimlwyd bod gweithgarwch atal trais yn Abertawe yn gallu gorlethu'r bobl ifanc, am fod gormod o fewnbwn gan wahanol wasanaethau, ac y gallai hyn gael ei symleiddio. Esboniwyd y gall pobl ifanc flino ar ailadrodd eu stori i nifer o weithwyr proffesiynol gwahanol. Teimlwyd bod meithrin cydbertynasau â phobl ifanc yn bwysig iawn oherwydd os na lwyddir i wneud hyn, gall effeithio ar wasanaethau eraill y mae angen iddynt ymgysylltu â nhw.

*“Pan fyddwn ni'n dod i ddiwedd y contract 12 mis, yn gorfod cau achosion cleientiaid. Yn gorfod rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol nad ydyn ni'n gwybod a fydd y swydd yn cael ei hariannu mwyach” (Rhanddeiliad)*

*“Weithiau rwy'n teimlo bod gormod o fewnbwn. Rwy'n teimlo felly pan fyddwn ni'n trafod person ifanc. Dyw hi ddim yn ymarferol cael gormod o weithwyr proffesiynol ym mywyd y person ifanc hwnnw” (Rhanddeiliad)*

## Effaith

Teimlwyd bod yr Uned Atal Trais yn cael effaith gadarnhaol oherwydd ei gwaith effeithiol a'r ffordd y gall 'addasu' i sefyllfaoedd a wynebwr mewn meysydd eraill a mynd ati wedyn i ddefnyddio'r cyllid a ddarperir i dargedu'r ardaloedd hynny. Er enghraifft, mae'n rhoi cyfle i rannu gwybodaeth am nifer o broblemau gwahanol sy'n gysylltiedig â thrais ac ymddygiad troseddol, gan gynnwys llinellau cyffuriau. Dywedwyd bod pobl ifanc a'u teuluoedd wedi sicrhau nifer o ganlyniadau o ganlyniad i ymgysylltu ag

ymyriad gwasanaeth St Giles. Teimlwyd bod St Giles yn cynnig amgylchedd diogel i bobl ifanc siarad am eu profiadau a chael eu clywed. Roedd canlyniadau'n cynnwys ymdeimlad cynyddol o ddiogelwch ymysg pobl ifanc, ymwybyddiaeth gynyddol o ymddygiad a newid ymddygiadol, ac amgylcheddau mwy diogel i gymunedau. Nodwyd hefyd bresenoldeb gwell neu gynyddol yn yr ysgol, ennill cymwysterau a siawns gwell o sicrhau cyflogaeth. Roedd hefyd yn rhoi cyfle i bobl ifanc hŷn gael cymorth i rentu neu brynu eu heiddo eu hunain.

*“Y canlyniad yw tynnu plentyn neu berson ifanc yn ddiogel o'r bywyd roedd yn ei fyw, boed hynny'n golygu cario (cyllyll), bod yn rhan o linellau cyffuriau. Dyna'r nod cyffredinol ond ar hyd y ffordd, mae nifer o ganlyniadau meddal y mae angen eu cyflawni er mwyn cyrraedd y pwynt lle mae'n dychwelyd i'r ysgol” (Rhanddeiliad)*

*“Yn fy amddiffyn rhag perygl ac yn fy addysgu beth sy'n gywir a beth sy'n anghywir” (PI)*

*“Felly os oes gennych chi blentyn sy'n mynd ar goll, yn absennol o'r ysgol, efallai fod problemau yn y gymuned. Yn y byrdymor rydych chi'n dechrau lleihau hynny .... ei sefydlogi ... rydych chi'n ystyried canlyniadau mwy meddal ac yna'r canlyniadau mawr cyffredinol. Rydyn ni hefyd yn edrych ar fuddugoliaethau bach” (Rhanddeiliad)*

Cyfeiriodd rhanddeiliaid at gleientiaid yn gwella cydberthnasau â theulu, cleientiaid yn meithrin cydberthnasau yn seiliedig ar ymddiriedaeth â gweithwyr proffesiynol, cyfathrebu gwell rhwng gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau, ac ymdeimlad cynyddol o gymuned. Roedd hyn, yn ei dro, yn arwain at ganlyniadau ehangach fel llesiant gwell, mwy o ymdeimlad o sefydlogrwydd a llai o ddefnydd o gyffuriau. Nododd St Giles fod hyn hefyd yn arwain at lai o drais.

*“Mae rhai canlyniadau cadarnhaol iawn. Fyddwn i ddim yn dweud bod hynny'n wir bob amser, oherwydd mae'n gallu bod yn anodd iawn ymgysylltu â phobl ifanc. Ond un o'r prif ganlyniadau i mi'n bersonol yw eu bod nhw'n dod yn fwy dibynadwy, ac mae'r ffaith bod person ifanc yn dod i sesiwn gyswllt yn anhygoel, ac mae hynny'n rhywbeth sy'n cael ei danbriso gan weithwyr proffesiynol weithiau” (Rhanddeiliad)*

### **Mesur canlyniadau**

Mae St Giles yn cwblhau ffurflenni chwarterol ar gyfer yr Uned Atal Trais ac adroddiadau misol yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys darparu manylion am weithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc a gwasanaethau eraill, a gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio cystal. Mae hefyd yn mynychu cyfarfodydd â'r Uned Atal Trais, sy'n aml yn cynnwys nifer o gyrff statudol a gwirfoddol. O ran mesur canlyniadau, caiff hyn ei wneud drwy adroddiadau cynnydd mewnol ac adroddiadau cynnydd misol – bydd y gweithiwr achos yn darparu naratif misol sy'n cofnodi teithiau pob achos yn ystod y mis hwnnw. Bydd y gweithiwr achos hefyd yn cwblhau adroddiad misol ar berfformiad sy'n cynnwys gwybodaeth rifiadol. Mae adroddiadau chwarterol yr Uned Atal Trais hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y cleient fel ei enw, ei oedran, ei wybodaeth deuluol, ei statws o ran tai, ei sefyllfa ariannol a'i statws o ran iechyd, ynghyd â rhestr o risgiau posibl i'r cleient (e.e. llinellau cyffuriau, camfanteisio ac amlygiad i ddiwylliant gangiau). Yna, caiff naratif ei lunio yn yr adroddiad misol yn seiliedig ar ymatebion y cleient. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar; y gyfran fisol o gleientiaid a gefnogwyd gan St Giles, cynnydd cleientiaid, o ble y mae atgyfeiriadau newydd wedi dod, y problemau, yr anghenion a'r heriau allweddol a wynebwyd gan gleientiaid yn ystod y mis, y cymorth allweddol a ddarparwyd gan St Giles ac unrhyw newidiadau neu dechnegau gwahanol a dreialwyd gan dîm St Giles. Cyfeiriwyd at y ffaith bod canlyniadau'n cael eu mesur yn seiliedig ar y problemau a godwyd gan y cleient a bod popeth yn cael ei ddogfennu fel bod modd datblygu astudiaethau achos. Caiff yr holl wybodaeth ei storio ar gronfa ddata 'Inform', y gellir ei defnyddio i storio nodiadau achos, cofnodi cyfarfodydd, diweddarau canlyniadau a llunio adroddiadau.

Mae St Giles hefyd yn cwblhau adnodd asesu iechyd a Llesiant gyda'r bobl ifanc yn dilyn eu hasesiad cychwynnol. Caiff Llesiant y cleient ei fesur drwy nifer o gategoriâu Llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys hunan-barch, hyder, iechyd corfforol, defnyddio/camdefnyddio alcohol neu sylweddau eraill, cyfathrebu, datrys problemau/delio â phroblemau, cydberthnasau cadarnhaol, agwedd (cadarnhaol neu negyddol), cyfrifoldeb, ymddygiad problemus a chyfalaf cymdeithasol. Y bwriad yw y bydd y sgoriau'n gwella (gostwng) ar ôl ymgysylltu â St Giles.

### *Cynaliadwyedd*

O ran cynaliadwyedd, teimlwyd y bydd y galw am y gwasanaeth yn parhau, am fod trais yn dal i fod yn broblem amlwg. Credwyd hefyd y gellir disgwyl i'r hinsawdd waethygu yn wyneb yr argyfwng costau byw. Ystyriwyd bod y partneriaethau a gaiff eu meithrin fel rhan o'r Uned Atal Trais yn ogystal â'r Uned Atal Trais ei hun yn hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd y cymorth a ddarperir yn y maes hwn. Ystyriwyd hefyd fod cyllid gan y llywodraeth yn bwysig i ddatblygiad a chynaliadwyedd yr Uned Atal Trais. Mynegwyd pryderon ynghylch problemau cymdeithasol eraill, y gall fod angen eu hariannu, gan effeithio ar wasanaethau'r Uned Atal Trais.

## Astudiaeth achos 5: Fearless, Crimestoppers

Fearless yw brand ieuentid yr elusen genedlaethol, Crimestoppers. Mae'r rhaglen yn helpu i rymuso plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau cadarnhaol, hyddysg ynghylch rhoi gwybod am droseddau<sup>4</sup>. Prif nod y gwasanaeth yw addysgu pobl ifanc am faterion yn ymwneud â throeddau a all effeithio arnynt a'u hannog i roi gwybod am droseddau a welwyd ganddynt. Mae wedi'i anelu at blant a phobl ifanc 11-18 oed, fodd bynnag, mae weithiau'n gweithio gyda phobl hyd at 25 oed.

*“Mae [Fearless] yn cael gwybodaeth gan aelodau'r cyhoedd ac yn ei throsglwyddo i'r sefydliad perthnasol er mwyn iddo allu ymchwilio iddi. Gwarantir ei fod yn wasanaeth dienw. Rydym yn darparu llwyfan lle gallai unrhyw un drosglwyddo gwybodaeth sydd ganddynt am droseddau a byddwn yn ei throsglwyddo i'r sefydliad perthnasol”*  
(Rhanddeiliad)

Mae tri uwch weithiwr ieuentid yn gweithio ledled Cymru i gynnal gweithdai addysgol mewn unrhyw leoliad lle mae pobl ifanc yn ymgynnull (gan gynnwys ysgolion, clybiau ieuentid a digwyddiadau cymunedol). Mae'r gweithdai sy'n seiliedig ar waith grŵp yn defnyddio dull i fyny'r gadwyn at droseddau, gan drafod ac addysgu pobl ifanc ar bynciau fel camfanteisio, troseddau casineb, troseddau cyllyll a llinellau cyffuriau. Mae eu gwefan, Fearless.org, yn cynnwys 'A-Z of crime' i addysgu mewn ffordd nad yw'n feirniadol ac mae'n llwyfan y gall pobl ifanc ei ddefnyddio i drosglwyddo gwybodaeth yn ddiennw ac yn ddiogel ynghylch unrhyw droseddau maent wedi bod yn dyst iddynt.

*“Rydym yn gweithio gydag ysgolion, colegau, unrhyw lle lle mae pobl ifanc, p'un a ydynt mewn clwb ieuentid, mewn parc sglefrïo, ac rydym yn gwneud llawer o waith gyda phlant sy'n derbyn gofal, felly cartrefi maeth... ble bynnag y mae person ifanc, rydym yno”*  
(Rhanddeiliad)

### Gweithredu

Mae'r Uned Atal Trais wedi ariannu dau weithiwr Fearless ar sail flynyddol ers 2019. Defnyddir y cyllid i gyflogi gweithwyr ieuentid am bedwar diwrnod yr wythnos, gan hwyluso'r broses o ddarparu'r gwasanaeth. Caiff yr holl waith ymyrryd uniongyrchol ei wneud drwy'r cyllid hwn, ond mae'n rhaid i unrhyw beth ychwanegol, fel ymgyrchu ar y cyfryngau cymdeithasol, gael ei sybsideiddio gan gyllid ychwanegol. Ystyriwyd bod cyfranogiad â'r Uned Atal Trais yn gwella cysylltiadau â sefydliadau eraill, gan sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu gan wella darpariaeth drwy arfer gorau. Bydd Fearless yn mynd i gyfarfodydd yr Uned Atal Trais pan fydd modd, fodd bynnag, bydd unrhyw sesiynau sydd wedi'u trefnu gydag ysgolion yn cael blaenoriaeth.

*“O'r [Uned Atal Trais] y daw'r holl gysylltiadau, y meddwl ar y cyd, y dysgu a'r rhannu”*  
(Rhanddeiliad)

### Gwaith partneriaeth

Mae Fearless yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddatblygu'r broses o ddarparu eu gwasanaeth ac i ddarparu cymorth cofleidiol i bobl ifanc. Ymysg y partneriaid a nodwyd mae Elusen Camddefnyddio Sylweddau Barod, Cymorth i Ferched Abertawe, Gwasanaeth Iechyd Meddwl Kooth, Cymorth i Ddiodefwyr a'r NSCPP. Cafodd Media Academy Cymru (MAC) ei gydnabod fel gwasanaeth sy'n ategu'r gwaith a wneir gan Fearless. Mae Fearless yn cyfeirio pobl ifanc a all fod yn cario cylllell neu'n wynebu risg o gario cylllell at MAC i gael cymorth ychwanegol. Yn ddiweddar, mae Fearless wedi sefydlu partneriaeth gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i fynd i orsafoedd trefnau i siarad â phobl ifanc am y peryglon a'r risgiau amrywiol y gallant fod yn eu gweld ar drenau e.e., llinellau cyffuriau.

---

<sup>4</sup> <https://www.fearless.org/campaigns/be-fearless-in-south-wales>



Er y tynnwyd sylw at gysylltiadau rhwng gwasanaethau, roedd rhanddeiliaid o'r farn bod diffyg cydweithio rhwng rhaglenni ymyriadau atal trais eraill. Er hyn, cydnabuwyd bod digwyddiadau partneriaeth, fel y digwyddiad partneriaeth diogelwch cymunedol, lle bydd y sefydliadu hyn yn dod at ei gilydd.

*“Cynhelir digwyddiad partneriaeth diogelwch cymunedol ddydd Gwener mewn parc lleol. Felly bydd llawer o sefydliadau sy'n rhan o'r math hwn o beth. Strydoedd mwy diogel. Bydd grwpiau eraill sy'n gwneud pethau i helpu pobl eraill pan fydd ganddynt broblemau, felly bydd hynny'n mynd o atal trais i les, tai, atal cyffuriau ac ati” (Rhanddeiliad)*

Siaradodd rhanddeiliaid am y ffaith bod plant yn teimlo na ddylent ddangos eu bod yn ymgysylltu â School Beats (swyddogion yr heddlu sy'n gweithio mewn ysgolion). Nodwyd y gall unrhyw gyswllt canfyddedig posibl rhwng Fearless a'r heddlu effeithio ar y broses o feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth rhwng y gweithwyr ieuencid a'r plant, oherwydd yr ofn posibl o gosbau a ddaw yn sgil cysylltu â'r heddlu oherwydd ffactorau fel diwylliant a phroblemau teuluol. Ystyriwyd ei bod yn bwysig i bobl ifanc deimlo'n hyderus yn yr hyn maent am roi gwybod amdano yn ddiennw i Fearless.

*“Byddem yn ceisio eu hosgoi mewn ysgolion, ac maen nhw'n gwybod hynny, nid bod yn ddigwylydd ydym ni, oherwydd byddem yn colli credadwyedd fel elusen pe baem yn cyrraedd gyda Chwnstabl yr Heddlu” (Rhanddeiliad)*

### **Cyflawni**

Caiff Fearless ei gyflawni mewn lleoliadau amrywiol gan gynnwys ysgolion, colegau, clybiau ieuencid, parciau sglefrio, cartrefi maeth ac unrhyw leoliad arall lle mae pobl ifanc yn ymgynnull yn Abertawe. Diben y sesiynau yw chwalu mythau ac addysgu pobl ifanc am effaith eu gweithredoedd. Caiff gweithdai penodol eu cynnal ar linellau cyffuriau, troseddau casineb a throseddau cyllyll. Caiff y deunydd a ddarperir ei bennu gan y gwasanaeth/sefydliad sy'n cysylltu â nhw i ddod i mewn. Sesiynau grŵp ydynt, fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gellir cyflwyno sesiynau mewn grwpiau llai, er enghraifft, gyda phobl ifanc sydd ar fin cael eu gwahardd.

*“Rydym wedi bod yn gwneud llawer gyda phobl ifanc sydd ar fin cael eu gwahardd, gan weithio mewn grwpiau llai. Rwy'n gwneud llawer o waith gyda cholegau mewn ardaloedd difreintiedig, felly'r plant hynny nad yw addysg safonol yn addas ar eu cyfer” (Rhanddeiliad)*

Ystyriwyd bod Fearless yn cynnig ymyriad unigryw, sy'n gysylltiedig â chael cyfyngiadau penodol am ei fod yn sefydliad elusennol. Trafododd rhanddeiliaid y ffaith eu bod wedi cynnal sesiynau yn eu gweithdy ar droseddau cyllyll sy'n ymateb i fideos camarweiniol ar TikTok sy'n dangos 'llefydd diogel' i drywanu pobl. Fel rhan o'r sesiwn, gwnaethant lenwi bag gyda dŵr coch a gofyn i'r bobl ifanc ei drywanu ag ysgrifbin i weld beth ddigwyddodd pan gaiff ei dynnu allan fel ffordd o addysgu pobl ifanc nad oes unrhyw le diogel i drywanu rhywun. Ystyriwyd bod defnyddio'r dull trawiadol hwn yn galluogi pobl ifanc i ddeall effaith eu gweithredoedd a darparu'r wybodaeth i wneud penderfyniadau hyddysg yn y dyfodol. Esboniodd y rhanddeiliad, mewn ardaloedd Uned Atal Trais, nad ydynt yn defnyddio unrhyw ddelweddau o gyllyll, gan fod astudiaethau wedi dangos y gall hyn gynyddu'r siawns y bydd pobl ifanc yn cario cyllyll oherwydd ofn.

*“Felly ar hyn o bryd, mae'r tueddiad dychrynlyd hwn ar TikTok lle maen nhw'n dangos llefydd diogel i drywanu pobl... i unrhyw un ei weld, ac mae hyn yn anodd ei gredu. Felly, rydym yn cynnal gweithgareddau i ddangos nad oes unrhyw le diogel i wrth-ddweud hyn” (Rhanddeiliad)*

Mae nifer y sesiynau i ymgysylltu â phobl ifanc yn dibynnu ar ddymuniadau ac anghenion y sefydliad y darperir y gwasanaeth iddo. Esboniodd un rhanddeiliad y bydd yn aml yn mynd mewn i ysgol i weithio gyda grŵp penodol. Pan fydd gan yr ysgol ddealltwriaeth well o'r gwaith a wneir gan Fearless, gofynnir iddo ddychwelyd i siarad â grwpiau mwy.

*“Felly...fel arfer bydd gen i grŵp penodol o bobl ifanc ac yna, ar ôl i'r ysgol dueddu i weld beth rydw i'n ei wneud... Bydda i'n dod yn ôl ac yn ymgysylltu â'r ysgol gyfan mewn rhyw ffordd” (Rhanddeiliad)*

*“Bydd rhai ysgolion yn gofyn i chi ddod i mewn am un sesiwn yn unig. Bydd ysgolion eraill yn ymgysylltu mwy o lawer. Byddwn i'n mynd yn ôl i ambell ysgol bob blwyddyn wrth i grŵp newydd ddod i mewn i siarad â nhw am bynciau gwahanol amrywiol” (Rhanddeiliad)*

Mae Fearless hefyd yn cynnal sesiynau wedi'u targedu i rieni a gofalwyr i'w haddysgu ar bynciau amrywiol, gan gynnwys llinellau cyffuriau, addysg ar y rheini nad ydynt erioed wedi bod mewn helbul, edrych ar fod yn dyst gweithredol, addysg ar arwyddion rhybudd y gall eu plentyn fod yn cael ei gamfanteisio, ac annog rhieni i fod yn chwilfrydig ac i ofyn cwestiynau am yr hyn y mae eu plentyn yn cael ei gynnwys ynddo.

*“Mewn ardaloedd wedi'u targedu, ysgolion wedi'u targedu yn Abertawe, rydym wedi cynnal sesiynau ar ôl yr ysgol i rieni ddod draw i ddeall beth yw llinellau cyffuriau. I ddeall y ffaith bod eu plentyn mewn sefyllfa fregus a'r trais sy'n gysylltiedig â llinellau cyffuriau ac arfau. Mae camddealltwriaeth mawr ynghyd trais a chyffuriau mai 'plant drwg' y mae gangiau troseddau cyfundrefnol yn eu targedu yn hytrach na phlant sy'n ymddwyn yn dda, plant nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn eu hadnabod, plant nad ydynt yn camymddwyn yn yr ysgol. Gelwir hyn yn 'clean skins' yn Saesneg. Felly, rydyn ni'n siarad â'r rhieni ynghylch cadw eu plant yn ddiogel a'r arwyddion i gadw llygad amdanynt” (Rhanddeiliad)*

## Rhwystrau

Mae'r broses flynyddol, fyrdymor o adnewyddu cyllid wedi golygu bod Fearless wedi colli sawl gweithiwr ieuentid oherwydd diffyg sefydlogrwydd. Gall gymryd sawl mis i gyflogi gweithiwr ieuentid newydd, sy'n cymryd amser a chyllid y gellid bod wedi'u defnyddio i ymgysylltu â phobl ifanc. Cydnabuwyd ei bod yn anodd dod o hyd i weithwyr ieuentid da, a'i bod yn cymryd amser i'r gweithwyr ieuentid greu cysylltiadau a rhwydweithiau. Byddai Fearless yn elwa ar gael cyllid hirdymor i sicrhau sefydlogrwydd ymysg gweithwyr. Hefyd, byddai llifau cyllid tymor hwy yn sicrhau parhad ac yn galluogi i gynlluniau hirdymor gael eu sefydlu gyda'r gwasanaethau a ddarperir.

*“Mae'r cyllid yn cael ei ddarparu bob blwyddyn, sydd braidd yn broblemus gan fy mod yn gwybod ein bod wedi colli gweithwyr. Gan ei bod yn agos at ddiwedd y flwyddyn ariannol honno ac nad oes gwybodaeth am b'un a fydd mwy o gyllid, dydyn nhw ddim mewn sefyllfa i allu aros o gwmpas, felly maen nhw'n symud ymlaen i rywle arall... Rydym yn gwthio i geisio cael cyllid am dair blynedd; mae'n rhoi sefydlogrwydd, ac mae hefyd yn rhoi cyfle i ni weithio drwy raglen gydag ysgolion yn y tymor hwy ar gyfer ymweld fwy nag unwaith ar gyfer anghenion gwahanol” (Rhanddeiliad)*

Ystyriwyd nad oedd digon o waith a chyfathrebu ag ymyriadau atal trais eraill yn Abertawe. Teimlwyd bod y broses o feithrin cydberthnasau â rhaglenni atal trais eraill yn cael ei rwystro oherwydd y canfyddiad bod sefydliadau yn ofni y bydd sefydliadau'n dyblygu'r gwaith y maent yn ei wneud. Un agwedd arall ar hyn oedd nad oedd ganddynt amser i feithrin cydberthnasau â phartneriaid. Er eu bod

yn rhan o'r panel Cyd-destunol, Coll, Wedi'u Hecsbloetio a'u Masnachu (CMET), mae gweithwyr ieuencid yn aml yn rhy brysur i fynd i gyfarfodydd.

Nodwyd bod amharodrwydd pobl ifanc i ymgysylltu yn rhwystr arall. Nid oes gan rai pobl ifanc ddi-ddordeb yn y cymorth a'r gwasanaethau a gynigir. Roedd hyn yn cael ei briodoli'n rhannol i 'ddiwylliant o ddweud straeon' a'r anhawster sy'n gysylltiedig â thorri'r rhwystr hwn. Trafodwyd y diffyg ymatebion gan ysgolion hefyd.

*"Rwyf wedi cysylltu â llawer o ysgolion sawl gwaith a does dim byd o gwbl. Dydw i byth yn cael ymateb" (Rhanddeiliad)*

## Effaith

Ystyriwyd bod effaith y gwaith a wnaed fel rhan o Fearless yn gwneud gwahaniaeth. Mae data o adroddiadau chwarterol yn dangos bod Fearless wedi cyrraedd 8,688 o bobl ifanc ledled De Cymru ac wedi cyflwyno 30 o sesiynau hyfforddiant i weithwyr proffesiynol rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022. Ystyriwyd mai dyma oedd y 'norm' i ysgolion yn Ne Cymru bod rhywun yn dod i mewn i siarad am drais, a'r farn oedd bod hyn yn fantais sylweddol. Nodwyd mai prif lwyddiannau'r rhaglen oedd gwella ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll, troseddau casineb a llinellau cyffuriau, a gwybodaeth amdanynt. O ganlyniad, rhagwelwyd y byddai llai o drais, derbyniadau i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a galwadau i'r heddlu. Er hyn, cydnabuwyd mai un o ganlyniadau Fearless fyddai cynnydd yn nifer yr adroddiadau, gan fod pobl yn gwybod i bwy y gallant roi wybod am achosion o drais, gan wella cudd-wybodaeth a nifer y cyhuddiadau/troseddau a welir yn y byrdymor.

*"Mwynheais y sesiwn ar beryglon troseddau cyffuriau a pheryglon llinellau cyffuriau ac achosion o gamfanteisio. Rwyf wedi cael mwy o wybodaeth am y peryglon hyn ac wedi cael gwybodaeth am Fearless" (PI – Adroddiad Chwarterol)*

*"Diolch am ein dosbarth hyfryd. Dysgais lawer am beth yw ystyr troseddau casineb a sut y gall effeithio ar fywydau pobl" (PI – Adroddiad Chwarterol)*

*"Cawsom adroddiad dienw [ger Abertawe], am ddyn yn cario cylllell wrth ddelio mewn cyffuriau y tu allan i'r ysgol. Felly daeth yr adroddiad hwnnw i mewn ac yn amlwg gwnaethom ei anfon at yr heddlu a chafodd y person hwnnw ei arestio a chafodd ddedfryd o garchar" (Rhanddeiliad)*

Cafodd yr anhawster o fesur gweithgarwch atal ei gydnabod. Ar ôl ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, maent yn ceisio mesur newidiadau mewn agweddau a gwybodaeth. Caiff effaith ei mesur gan ddefnyddio ffurflen sy'n cynnwys pum cwestiwn a gaiff ei llenwi cyn ac ar ôl yr ymgysylltu, sy'n gofyn i bobl ifanc ateb cwestiynau drwy gylchu rhif ar raddfa Likert rhwng 1 a 10 a rhoi adborth ansoddol er mwyn casglu gwybodaeth ar ddealltwriaeth a dyfyniadau ynghylch beth maent wedi'i ddysgu. Bob chwarter, byddant yn samplu canran o'r ffurflenni. Mae adroddiadau chwarterol a gwblhawyd ar gyfer yr Uned Atal Trais yn dangos bod mwyafrif y bobl ifanc wedi newid eu hatebion ar ôl bod yn y gweithdy, sy'n dangos bod gweithdai Fearless yn llawn gwybodaeth ac yn addysgiadol, ac yn dangos bod gwybodaeth pobl ifanc am y materion a'u hymwybyddiaeth ohonynt yn gwella o ganlyniad i weithdy Fearless.

*"Mae'n syml o ran 'sut glywsoch chi am y sesiwn?', 'Ydych chi'n deall Fearless nawr ac y gallwch roi gwybod am bethau'n ddienw?' Rydym yn ceisio cael dyfyniadau ganddynt ar y gwaelod. Mae'n dweud 'ysgrifennwch rywbeth y byddwch yn ei gymryd o sesiwn heddiw', felly gobeithio y byddant yn tynnu sylw at rywbeth y maent wedi'i ddysgu nad oeddent yn ei wybod o'r blaen" (Rhanddeiliad)*

## Argymhellion a chynaliadwyedd

Awgrymwyd y byddai cael yr Uned Atal Trais yn helpu i sicrhau ymgysylltiad ag ysgolion, a ddisgrifiwyd yn 'warthus' yn enwedig ers cyfyngiadau symud COVID-19, o fudd i Fearless. Teimlwyd bod gan yr Uned Atal Trais gyrhaeddiad eang a mynediad at staff ychwanegol a all wthio ymgysylltiad.

*"Helpu i wthio mewn ardaloedd penodol er mwyn annog ymgysylltiad. Yn ôl yn 2019, roedd gen i rywfaint o ymgysylltiad, a oedd yn mynd yn eithaf da. Tarodd COVID-19 a daeth diwedd ar hynny fwy neu lai... Ond mae'r ymgysylltiad yn wael yn ardal Abertawe gyfan. Byddem yn cael budd o gymorth gan yr Uned Atal Trais i ddweud, meddyliwch am eich arweinwyr addysg, pwy ydyn nhw, a allant eu gwthio nhw hefyd?" (Rhanddeiliad)*

Nododd y rhanddeiliad hefyd y byddai mynediad i sail dystiolaeth leol yng Nghymru o fudd er mwyn cael data nad yw wedi'i gyhoeddi, er enghraifft astudiaethau achos, y gellid eu defnyddio i ddatblygu deunydd cyfoes ac addysgiadol i'w ddefnyddio mewn sesiynau. Yn y gorffennol, wrth geisio cael mynediad i'r math hwn o ddata, nid yw'r ceisiadau wedi dwyn ffrwyth. Argymhellwyd y dylid defnyddio'r hyn a ddysgwyd o Abertawe a'i gymhwyso mewn ardaloedd eraill o Gymru. Awgrymwyd y dylid cynnig Fearless mewn ardaloedd eraill.

Trafodwyd llawer o ymwrthedd emosiynol ymysg pobl ifanc, ac felly awgrymwyd bod angen darn ehangach o waith sy'n canolbwyntio ar gefnogi'r bobl ifanc hynny. Ers pandemig COVID-19, teimlwyd ei bod yn ymddangos bod pobl ifanc wedi anghofio sut i ryngweithio ac i allu delio â phobl, sy'n golygu bod problemau mewn ysgolion wedi datblygu i fod yn dreisgar yn gyflym, gyda gwrthdaro corfforol mewn ysgolion yn cynyddu a myfyrwyr sy'n dawel fel arfer yn cael pyliau treisgar. Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd, nodwyd y bydd angen ymdrech a datblygiad parhaus ar bartneriaethau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r dulliau troseddu diweddaraf. Er enghraifft, arsylwyd ar newidiadau mewn dulliau troseddu ers pandemig COVID-19.

*"Rydym wedi gweld cynnydd ers COVID-19. Mae pobl ifanc wedi anghofio sut i ryngweithio â'i gilydd. Dywedodd pennaeth wrth un o'r gweithwyr ieuenctid fod gan rai pobl ifanc bob amser anhoffter at bobl ifanc eraill. Bywyd yw hynny. Cyn COVID-19 roeddent yn gwybod sut i osgoi ei gilydd yn yr ysgol, ar yr iard amser cinio. Yna yn ystod y pandemig, gwnaethant anghofio sut i ddelio â phobl nad ydynt yn eu hoffi yn y byd go iawn. Mae wedi datblygu at drais – dyna'r ffordd orau o'i ddisgrifio ac mae pobl ifanc na fyddent wedi bod yn dreisgar o'r blaen yn cael y pyliau treisgar hyn nawr sy'n arwain at ymladd corfforol...Felly mae'n sicr llawer y mae angen ei wneud i ddelio â gwydnwch emosiynol"*  
(Rhanddeiliad)

*"Bydd angen datblygu hyn bob amser am fod mathau o droseddau yn newid wrth i'r troseddwy'r addasu eu technegau... felly mae angen i ni ddatblygu er mwyn dal i fyny â hynny. Felly bydd angen gwella bob amser"* (Rhanddeiliad)

Mae cynaliadwyedd yr Uned Atal Trais a'r gwasanaethau ac ymriadau cysylltiedig yn dibynnu ar gyllid. Nodwyd bod angen cymorth gan y senedd a'r llywodraeth ar gyfer ymgysylltiad cymunedol, yn benodol ar gyfer cynnwys sefydliadau trydydd parti fel Fearless. Teimlwyd bod cyllid yr Uned Atal Trais yn allweddol i ddarparu'r gwasanaeth ac nad yw Fearless yn gynaliadwy heb gyllid yr Uned Atal Trais.

## Astudiaeth achos 6: Braver Choices, Media Academy Cymru

Mae Media Academy Cymru (MAC) yn sefydliad nid er elw sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc 6-25 oed ledled De Cymru. Mae gan MAC sawl gwasanaeth yn Abertawe. Mae Braver Choices yn wasanaeth a ariennir gan yr Uned Atal Trais sy'n canolbwyntio ar y defnydd o arfau ymysg pobl ifanc. Mae'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n ymddwyn mewn ffordd beryglus, er enghraifft drwy gario arfau. Mae'n cyflwyno rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ymwneud ag arfau, trais a chamfanteisio rhywiol er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau hyddysg, datblygu strategaethau ymdopi a deall goblygiadau eu gweithredoedd.

*“Gallent fod yn gysylltiedig â grŵp sy'n ymwneud ag arfau, felly mae'n ymwneud ag ymyrryd yn ogystal â gwneud gwaith atal. Rydym yn ystyried sut y gallwn eu helpu i atgyfnerthu'r hyn sydd ganddynt eisoes a sut y gallwn leihau ymddygiadau niweidiol a sut y gallwn eu helpu i wneud penderfyniadau gwell drostynt eu hunain” (Rhanddeiliad)*

Caiff y rhaglenni eu cyflwyno mewn lleoliadau cymunedol rhwng 8am ac 8pm, saith diwrnod yr wythnos yn dibynnu ar anghenion y plentyn a'i deulu<sup>5</sup>. Maent yn ymgysylltu â'r plant a'r bobl ifanc drwy fentora un i un a chefnogi tîm atal y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i gyflwyno sesiynau mewn ysgolion, lle mae troseddau cyllyll wedi cael eu nodi a lle y gwnaed cais am gymorth. Gall unrhyw un atgyfeirio'r plant a'r bobl ifanc, a gallant atgyfeirio eu hunain, fodd bynnag, gwelir mai gan wasanaethau plant y daw'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau. Mae gweithiwr achos MAC hefyd yn cyflwyno fersiwn gryno o'r gweithdai yn y gymuned er mwyn helpu pobl ifanc i ddeall canlyniadau cael arfau a phrynu arfau anghyfreithlon ar-lein.

### Gweithredu

Mae Braver Choices wedi'i ariannu gan yr Uned Atal Trais ers 2021. Dechreuodd y gweithiwr achos cyntaf ar gyfer MAC ym mis Mawrth 2021, ac ers hynny, mae'r Uned Atal Trais hefyd wedi sicrhau cyllid gan y Swyddfa Gartref i osod gweithwyr ieuenctid mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ysbytai i reoli achosion ar sail un i un fwy dwys ar gyfer pobl sydd wedi dioddef ymosodiad trais (gan gynnwys arfau) (gweler astudiaeth achos 7).

Cydnabu rhanddeiliaid fod angen rhwydweithio ac esbonio i bartneriaid beth mae'r gwasanaeth yn ei gynnig wrth sefydlu gwasanaeth newydd. Ceisiodd MAC weithio gyda'r partneriaid hyn i addysgu sefydliadu ynghylch eu rôl. Teimlwyd bod y panel Cyd-destunol, Coll, wedi'u Hecsbloetio a'u Masnachu (CMET) hefyd wedi hwyluso hyn, gan fod pob sefydliad yn eistedd o dan un tîm, gan alluogi dull rhyng-gysylltiedig, gwneud penderfyniadau ar y cyd a rhannu gwybodaeth mewn modd amserol. Mae tîm Braver Choices hefyd yn mynd i sawl cyfarfod gydag asiantaethau partner. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i gyfarfodydd Prosiect Choices Abertawe, Fforwm Iechyd Meddwl Abertawe, y Panel Ymddygiad Peryglus, YMCA Abertawe a chyfarfodydd Strategaeth Achos Plentyn mewn Angen. At hynny, ers 2021, roedd sawl aelod o'r staff yn mynd i gyfarfodydd bob pythefnos â phanel CMET i fynd i'r afael â phlant sy'n wynebu risg o gael eu cynnwys mewn troseddau, gan gynnwys troseddau cyllyll ac achosion o gamfanteisio ar blant (fel llinellau cyffuriau). Hefyd, mae'r Uned Atal Trais a Phrif Weithredwr MAC yn aelodau o'r CMET Strategol, sy'n golygu bod atgyfeirwyr statudol posibl yn eithaf cyfarwydd â'r gwasanaethau. Partneriaid o'r cyfarfodydd hyn yw'r rhanddeiliaid allweddol sy'n atgyfeirio at Braver Choices, felly mae ymgysylltu â'r cyrff hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau cymorth parhaus a dealltwriaeth a rennir.

Ystyrir bod y gydberthynas â'r Uned Atal Trais yn gadarnhaol o ran cyfathrebu a chydweithio. Mae'r Uned Atal Trais yn hyblyg yn eu dull gweithredu, a chydabuwyd eu bod yn rhoi'r cyfle i MAC amlinellu

<sup>5</sup> [Braver Choices | Uned Atal Trais \(violencepreventionwales.co.uk/cy/\)](https://www.braverchoices.org.uk/united-against-violence/violencepreventionwales.co.uk/cy/)

eu hanghenion cyn gweithio gyda nhw, sy'n hwyluso'r broses o ddatblygu cymorth clir a phenodol. Teimlwyd bod y natur addasadwy hon wedi parhau wrth weithio gyda'r Uned Atal Trais, a nodir bod yr Uned Atal Trais yn ystyried anghenion newydd a datblygol y gymuned.

### *Cyflawni*

Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, ymgysylltodd Braver Choices â 107 o bobl ifanc. Cafwyd atgyfeiriadau gan unedau preswyl, CMET, Cyngor Abertawe, gwasanaethau plant, Gwasanaeth Ymyrryd yn Gynnar, tîm BAYS 16+, Barod, ysgolion cyfun a thrwy'r Gweithiwr Ieuenctid MAC yn yr ymyriadau Cyfleoedd Dysgu Digymell yn Nalfeydd yr Heddlu (gweler astudiaeth achos 2). Gwnaed nifer bach o atgyfeiriadau i Brosiect Newid Meddwl Plattform, cwnsela, YMCA a Gyrfa Cymru.

Pan ddaw atgyfeiriad i law, bydd y gweithiwr achos MAC yn gwirio gyda'r sawl sy'n atgyfeirio i gael dealltwriaeth sylfaenol o'r person ifanc cyn iddynt gwrdd, gan gynnwys pa wasanaeth/wasanaethau a all fod wedi ei gynnwys/eu cynnwys eisoes. Yna, bydd angen iddo gwrdd â'r person ifanc a'i deulu i sicrhau bod y teulu'n gwybod pwy ydyw a lleihau unrhyw ddryswch ynghylch yr hyn y mae MAC yn ei ddarparu. Gellid darparu sesiynau i rieni a theuluoedd i'w helpu i ddeall y gwaith a wnant, naill ai fel sesiwn un i un neu fel sesiwn i'r teulu yn dibynnu ar y gydberthynas deuluol. Cydnabuwyd bod y bobl ifanc yn gwerthfawrogi bod eu teulu'n cael eu cynnwys.

*“Rwyf bob amser yn ceisio cwrdd â'r person ifanc gyda'r teulu i ddechrau fel bod pawb yn gwybod pwy ydw i. Oherwydd weithiau bydd rhai teuluoedd yn cael pob gwasanaeth sydd ar gael a dydyn nhw ddim yn gwybod pwy yw pwy ac maen nhw'n drysu” (Rhanddeiliad)*

*“Pan fyddwn wedi cael ein cyfarfod cyntaf i ddod i adnabod ein gilydd byddwn ni'n dechrau ar ein hasesiad lle byddem yn edrych ar beth sy'n digwydd iddo fel person ifanc, beth sy'n digwydd gartref. Beth sy'n digwydd yn y gymuned? Beth sy'n digwydd gyda'i grwpiau cymheiriaid? Sut mae ei addysg yn mynd? Felly rydym yn ceisio edrych ar yr holl gylchoedd ynghylch y person ifanc, a'r person sy'n penderfynu beth mae'n ei ddweud wrthym, sy'n wych am ein bod yn gweithio ar gyfranogiad gwirfoddol” (Rhanddeiliad)*

Ar ôl yr asesiad cychwynnol, mae MAC yn gweithio gyda'r person ifanc er mwyn datblygu cynllun i ddiwallu ei anghenion. Mae MAC yn gweithio ar sail cyfranogiad gwirfoddol, fel y gall y person ifanc ddewis i ba raddau y caiff ei gynnwys. Mae cyfranogiad y person ifanc yn rhan allweddol o'i gynllun unigol, felly caiff y person ifanc y cyfle i weld y cynllun a ddatblygwyd, caiff ei gynnwys yn y broses ac mae ganddo lais, sy'n ei annog i deimlo ei fod yn ddilys ac wedi'i rymuso. Mae MAC yn hyblyg a chaiff yr achos ei adolygu a'i addasu'n barhaus, os bydd anghenion y person ifanc yn newid. Rhoddir enghraifft isod ar gyfer blaenoriaethu llesiant y person ifanc.

Siaradodd person ifanc a gyfwelwyd fel rhan o'r astudiaeth achos hon am y ffaith ei fod yn bryderus pan gafodd ei atgyfeirio am y tro cyntaf at Raglen Braver Choices gan y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd yn pryderu y byddai'r cymorth yn canolbwyntio'n llwyr ar ddigwyddiad yr oedd wedi bod yn rhan ohono a arweiniodd ato'n ymwneud â'r gwasanaethau, ond roedd y cymorth yn cynnwys llawer mwy na hynny. Buont yn trafod y digwyddiad dan sylw mewn perthynas â'r hyn roeddent yn ei ddysgu ar y rhaglen gan ddysgu gwersi o hyn er mwyn datblygu yn y dyfodol.

*“Cefais fy atgyfeirio gan fy ngweithiwr Gwasanaethau Troseddwr Ifanc. Doeddwn i ddim yn siŵr ar y dechrau am fy mod yn meddwl y byddwn i'n siarad am yr holl ddigwyddiad eto a doeddwn i ddim am fynd drwyddo, ond doedd hynny ddim yn wir, nid dyna oedd y prif beth” (PI)*

*“Roeddwn i'n meddwl y byddai'n ffurfiol, ond mae'n fwy cartrefol, nid yw'n teimlo'n rhyfedd ac rwy'n teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad” (PI)*

Yn ystod y sesiynau gyda'r bobl ifanc, bydd Braver Choices yn canolbwyntio ar amrywiaeth o bynciau sy'n gysylltiedig ag arfau. Gan gynnwys y gyfraith, canlyniadau emosiynol, goblygiadau a chanlyniadau tynnu cylllell allan ar y stryd (hyd yn oed at ddibenion hunanamddiffyn) a gwybod y gall gweithredoedd effeithio ar y person ifanc, ei deulu a'r gymuned gyfan. Bydd hefyd yn awyddus i drafod a nodi ffactorau ysgogi, er mwyn helpu'r person ifanc i ddelio â'i emosiynau yn y dyfodol.

Cydnabuwyd bod MAC yn aml yn gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi bod mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion, sydd wedi bod yn mynd i'r ysgol gan ddilyn amserlen â llai o oriau, ynghyd â phobl ifanc yng ngofal awdurdod lleol. Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau'n wynebu risg o ymwneud ag arfau, yn hytrach na'u bod eisoes yn ymwneud ag arfau. Y defnyddwyr gwasanaethau hyn yw cynulleidfa darged MAC oherwydd ei ffocws ar atal. Cydnabuwyd bod camddefnyddio troseddol ac ymwneud â gangiau bob amser yn bryder, a'i bod yn anghyffredin cael atgyfeiriad arfau nad oes achos o gamfanteisio yn gysylltiedig ag ef.

*“Dydw i ddim am gael atgyfeiriadau'n dod drwodd lle rydych chi'n gwybod eu bod wedi cael eu dal ag arfau arnynt deirgwaith. Rydym am allu mynd i mewn cyn i bethau waethygu ac os bydd pethau wedi gwaethygu, dim problem, byddwn ni'n gwneud ein gorau. Byddwn ni'n gwneud yr hyn y gallwn ni” (Rhanddeiliad)*

Meithrin cydberthnasau ac ymddiriedaeth â'r bobl ifanc sydd wrth wraidd proses y gwasanaeth o ymgysylltu â'r bobl ifanc. Nododd rheolwr achos, lle mae'r person ifanc yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu, y bydd yn cysylltu ag unrhyw wasanaeth yr oedd y person ifanc wedi ymgysylltu'n dda ag ef ac yn sefydlu cyfarfod â'r tri ohonynt. Er enghraifft, os oedd person wedi nodi'r ysgol fel man diogel, byddai MAC yn ceisio cwrdd â'r person ifanc yn yr ysgol i'w alluogi i deimlo'n fwy cyfforddus. Ystyriwyd bod gonestrwydd a bod yn dryloyw gyda'r bobl ifanc yn hwyluso cydberthynas llawn ymddiriedaeth.

*“Roedd gen i un person ifanc a oedd mewn coleg amgen yn Abertawe nad oedd yn ymgysylltu'n dda â'r gwasanaethau, a oedd yn fodlon cwrdd â mi ond roedd yn eithaf ansicr. Felly roedd ganddo gydberthynas dda â swyddog diogelwch y coleg, felly cysylltais â hi. Gwnaethom drefnu i'r tri ohonom gwrdd a gweithiodd yn wych am ei fod yn ymddiried yn y gweithiwr” (Rhanddeiliad)*

*“Rwy'n bod yn gwbl onest heb wneud i unrhyw beth swnio'n well. Dyma'r hyn rydym yn ei wneud. Dyma'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gen i. Beth yw eich disgwyliadau? Beth ydych chi am ei gael? Beth ydych chi'n teimlo y dylech ei gael gen i?” (Rhanddeiliad)*

Fel rhan o'r rhaglen, bydd gweithwyr achos yn ymgorffori astudiaethau achos am ei bod yn ymddangos bod pobl yn ymateb yn well i straeon bywyd go iawn, yn hytrach na bod gweithiwr achos yn siarad â nhw am ei fod yn rhoi pethau mewn persbectif ac yn galluogi'r person ifanc i ddeall canlyniadau defnyddio neu gario arfau o stori go iawn. Os bydd person ifanc yn ymwneud â MAC ar gyfer rhaglen heblaw am Braver Choices, a bod elfen o arfau'n cael ei nodi, gall gweithwyr achos gyflwyno pecynnau gyda'i gilydd i ymgorffori elfennau o Braver Choices. Mae MAC hefyd yn cyflwyno rhaglenni mewn lleoliadau addysg fel rhan o CMET gyda Chyngor Abertawe. Er enghraifft, mae wedi bod yn ymgysylltu â phob ysgol uwchradd yn Abertawe i gyflwyno rhaglen ar gam-drin y tu allan i'r teulu. Er ei fod y tu hwnt i'w gylch gwaith, mae MAC hefyd wedi bod yn mynd allan i'r gymuned i gefnogi sefydliadau eraill i helpu pobl ifanc sy'n cael eu cam-drin y tu allan i'r teulu.

### **Gwaith partneriaeth**

O ganlyniad i gyllid yr Uned Atal Trais, mae gan MAC gyrhaeddiad ehangach a mwy strategol; gan ei alluogi i ymgysylltu â mwy o ysgolion a chael cyfle i weithio gyda phartneriaid strategol er mwyn atal

trais. Mae cael yr Uned Atal Trais i gymeradwyo ei waith yn rhoi credadwyedd iddo, sy'n hwyluso'r broses o ailadrodd y gwaith hwnnw mewn rhannau eraill o Gymru. Ystyriwyd bod yr Uned Atal Trais yn fwy na dim ond elfen gyllido, a'i bod yn hanfodol i negodi ac annog partneriaid i gymryd cyfrifoldeb; ystyriwyd mai'r Uned Atal Trais oedd 'y *glud*'. Mae MAC yn gweithio gyda phartneriaid ar lefel gymunedol a strategol. Mae'n eistedd fel rhan o CMET, ac ystyriwyd bod hyn yn hwyluso gwaith partneriaeth. Esboniodd un rhanddeiliad fod y bartneriaeth hon o fudd wrth ymateb mewn modd effeithlon i achosion o drais. Disgrifiwyd digwyddiad ym mis Chwefror lle daeth MAC ynghyd gyda phartneriaid CMET i ymateb yn effeithiol ac yn effeithlon i achos o drywanu.

*“Cafodd bachgen 15 oed ei drywanu. Felly ar unwaith, o fewn y diwrnod nesaf roeddem wedi cael cyfarfod CMET brys, ac roeddem yn ystyried sut roedd pob asiantaeth yn Abertawe am ymateb i hyn ar unwaith. Felly roeddem allan ar y penwythnos ac yna'n gweithio yn yr ardal yn gwneud gwaith allgymorth ac yn cynnig cymorth yn y clwb ieuencid lleol lle roedd cwnselwyr yno yn barod i'r bobl ifanc siarad â ni. Mae'r gwaith yn barhaus, hyd yn oed ar ôl digwyddiad mawr fel hyn yn digwydd ar unwaith, gall y canlyniadau gymryd amser am ei bod yn cymryd amser i bobl brosesu'r hyn a ddigwyddodd. Gallai gymryd blwyddyn. Gallai gymryd ambell ddiwrnod, mae'n dibynnu pa gymorth sydd ar waith ar gyfer y person ifanc ar ôl digwyddiad fel hyn” (Rhanddeiliad)*

Mae MAC yn ceisio gweithio o fewn dull amlasiantaeth lle y caiff gwasanaethau eraill hysbys eu cysylltu â phobl ifanc a atgyfeirir at wasanaethau MAC. Lle mae cysylltiad â gwasanaethau plant, gall ymyriad MAC fod yn rhan o broses cynllunio diogelwch cydgysylltiedig ehangach. Mae MAC yn gweithio'n aml gydag ysgolion i gael plant yn ôl i mewn i addysg neu i aros yn yr ysgol. Mae hefyd yn gweithio gyda phartneriaid cymunedol fel canolfannau ieuencid i ymgysylltu â'r gymuned, i chwalo rhwystrau a sicrhau newid cynaliadwy. Maent wedi sefydlu partneriaethau â phartneriaethau gwladol fel CAMHS, Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid a'r heddlu. Mae partneriaid ehangach yn cynnwys adrannau awdurdodau lleol fel tai a hamdden, er enghraifft, adfer niwed mewn ardaloedd o'r cymunedau lle gall y plant/bobl ifanc fod wedi'u difrodi neu eu fandaleiddio. Yn strategol, y partneriaid yw'r Uned Atal Trais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ehangach. Cydnabuwyd bod MAC yn brofiadol iawn wrth ymgysylltu â phartneriaid o gymunedau ethnig leiafrifol. Ystyriwyd bod y partneriaethau'n gweithio'n dda ar y cyfan. Teimlwyd bod y gwasanaethau'n croesawu cymorth i deuluoedd am ei bod yn aml yn anodd i wasanaethau statudol ddal i fyny â'r galw. Fodd bynnag, cydnabuwyd eu bod yn aml yn cael eu rhwystro gan ddiffyg prosesau i rannu data a'r ffaith bod sefydliadau'n amharod i gydnabod beth yw'r broblem ac ymgysylltu.

*“Gwaith amlasiantaeth neu bartneriaeth yw'r unig ffordd o gael popeth y gall fod ei angen ar y teulu hwnnw” (Rhanddeiliad)*

*“Mae rhai yn teimlo bod ganddynt wasanaethau ar waith ac nad oes angen cymorth arnynt. Ond gall y dystiolaeth a'r niferoedd sy'n mynd i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys wrth-ddweud hynny... Felly mae rhai partneriaid yn wych, yn rhannu gwybodaeth a phopeth sy'n fwy problemus” (Rhanddeiliad)*

## **Rhwystrau**

Nodwyd sawl ffactor fel rhwystrau i roi rhaglen Braver Choices MAC ar waith. Codwyd dyblygu fel pryder; teimlwyd y gall gwasanaethau eraill, fel St Giles, fod yn cyflwyno allbynnau tebyg. I oresgyn hyn, mae'r sefydliadau wedi meithrin eu partneriaethau i sicrhau bod y bobl ifanc yn cael y cymorth gorau gan y person cywir.

*“...A yw ein gwaith yn cael ei ddyblygu, gwn ein bod yn ceisio creu cysylltiad â St Giles i weld a oes unrhyw beth sydd gennym sy'n cyd-fynd yn well â'u meini prawf. Gallwn ni*



*gydweithio i sicrhau bod person ifanc yn cael y cymorth cywir gyda'r person cywir"*  
(Rhanddeiliad)

Er eu bod yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid ac yn cael atgyfeiriadau ganddynt, teimlwyd ar adegau nad yw timau a sefydliadau eraill, fel y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid, yn ystyried bod angen cymorth gan MAC arnynt, oherwydd y canfyddiad bod ganddynt weithwyr a all wneud y gwaith eisoes. Mae MAC yn ymrwymedig i feithrin partneriaeth â'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid i oresgyn y rhwystr hwn. Hefyd, ystyriwyd bod y ffaith mai sefydliad gwirfoddol ydyw yn rhwystro'r gwaith o feithrin partneriaethau ac o gael atgyfeiriadau gan sefydliadau statudol. Teimlwyd y bydd unigolion yn troi at yr awdurdod lleol yn awtomatig i gael cymorth ac efallai'n amau lefel y cymorth a ddaw gan sefydliad gwirfoddol. Lle y caiff partneriaethau eu meithrin, teimlwyd bod problem o ran rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid am fod protocolau a deddfwriaethau ynghylch rhannu gwybodaeth yn eu hatal. Nodwyd bod gwasanaethau iechyd meddwl yn rhwystr i weithredu. Mae MAC wedi gwneud cais am gyllid yn ddiweddar i benodi ei gynghorydd ei hun yn Abertawe er mwyn sicrhau y gall unrhyw un o'i achosion gael cymorth iechyd meddwl ar unwaith.

*"Does dim digon o wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer achosion brys. Felly rydym newydd wneud cais am gyllid i benodi ein cynghorydd ein hunain yn Abertawe er mwyn sicrhau y gall unrhyw achos gael gafael ar gymorth iechyd meddwl ar unwaith"*  
(Rhanddeiliad)

## **Effaith**

Disgrifiodd rhanddeiliaid MAC amrywiaeth o newidiadau sy'n digwydd ymysg plant a phobl ifanc a'r gymuned ar ôl ymgysylltu. Nododd y rhanddeiliaid mai'r rhai sy'n cael y budd mwyaf o'u gwaith yw'r plant a'r bobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd yr enghreifftiau'n canolbwyntio ar deimlo'n fwy diogel a lleihau niwed drwy godi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad. Roedd unigolion a chymunedau yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn ddiogel yn eu hamgylcheddau lleol. Roedd mwy o ddealltwriaeth o achosion sylfaenol trais ac oherwydd hynny, mae mwy o ymdrech i ddod o hyd i ffyrdd o wella opsiynau a dewisiadau i blant a phobl ifanc sy'n eu hatal rhag cael eu cynnwys mewn trais difrifol. Nodwyd mwy o wybodaeth am droseddau cyllyll ac effaith cario cyllyll a mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohonynt, gyda'r gobai y bydd yn newid canfyddiadau ac ymddygiad (e.e., newidiadau mewn rhwydweithiau cyfoedion, presenoldeb gwell yn yr ysgol).

*"Maent yn deall nad ydyn nhw'n fwy diogel yn cario cyllyll, ac maen nhw hefyd yn deall y gyfraith a goblygiadau posibl nad oeddent yn gwybod amdanynt o'r blaen... Gobeithio ein bod wedi rhoi'r gwrth-naratif i'w helpu i wneud dewisiadau gwell neu wahanol"*  
(Rhanddeiliad)

Nododd y person ifanc a gymerodd ran yn y gwerthusiad ei bod yn ddefnyddiol siarad â'r gweithwyr o MAC, ac esboniodd fod y gweithwyr wedi siarad ag ef mewn ffordd anffurfiol ac wedi esbonio popeth yn glir iddo. Roedd y person ifanc o'r farn y gallai fod wedi cael sgwrs agored a gonest, a chydabu bod y gydberthynas oedd ganddo â'i weithiwr a'r ffordd roeddent yn cyfathrebu â'i gilydd wedi gwneud gwahaniaeth o ran y ffordd roedd yn ymgysylltu â'r gwasanaeth. Rhoddodd y rhaglen hefyd strwythur ar gyfer y person ifanc, ac esboniodd ei fod yn gwybod bod ganddo amser wedi'i neilltuo gyda gweithwyr MAC yr un pryd bob wythnos. Rhoddodd hyn sicrwydd hefyd y gallai drafod unrhyw bryderon oedd wedi'i chael yn ystod yr wythnos.

*"Rwy'n teimlo fy mod yn gallu siarad am fy nheimpladau, heb fod angen mynd i fanylder am bopeth, gallaf ddweud sut rwy'n teimlo, a dysgu am y pethau sy'n digwydd o'm cwmpas. Rwyf wedi dysgu am bethau sy'n digwydd o'm cwmpas nad oeddwn i'n ymwybodol ohonyn nhw" (PI)*

*"Rwyf hefyd yn gwybod y byddan nhw yno ar yr un pryd bob dydd lau, sy'n helpu hefyd. Rwy'n hoffi'r drefn, mae'n rhoi rhywbeth i mi ei wneud ac rwyf hefyd yn gwybod os bydda i'n poeni am rywbeth y diwrnod hwnnw neu ar ddiwrnod arall ymlaen llaw, y galla i siarad â nhw amdano" (PI)*

Mae'r cyfathrebu clir mewn gofod diogel nad yw'n barnu a'r gydberthynas llawn ymddiriedaeth rhwng y gweithiwr a'r person ifanc yn golygu bod y person ifanc yn teimlo'n gyfforddus i siarad a chael ei glywed yn ystod y sesiynau. Esboniodd y gofynnwyd am ei farn, a bod MAC wedi gwrando a'i bod yn teimlo bod ei farn a'i adborth wedi cael eu hystyried. Nododd ei bod yn bwysig bod gwasanaethau ar gael i bobl ifanc sy'n gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus a lle y gallant fynegi sut maent yn teimlo a gwybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt.

*"Rwy'n teimlo fy mod wir am wrando" (PI)*

*"Yn astud iawn a hyd yn oed os na fydda i'n deall rhywbeth, bydd yn ei wneud yn gliriach ac yn rhoi mwy o fanylion er mwyn gwneud yn siŵr fy mod yn gwybod amdano" (PI)*

*"Mae'n ystyried fy marn bob amser. Mae rhai llefydd lle gallai fod gen i rywbeth i'w ddweud ond nad ydw i'n teimlo fy mod yn cael fy nghlywed ond nawr rwy'n teimlo bod rhywun yn gwrando arna i" (PI)*

*"Na (ni ellid gwneud unrhyw beth yn wahanol), rwy'n teimlo fy mod bob amser yn cael fy nghlywed, ac ym mhob sesiwn rwy'n meddwl mewn ffordd wahanol ac rwyf bob amser yn gallu gweld neu feddwl am beth rwyf wedi'i ddysgu y diwrnod hwnnw" (PI)*

Am fod y person ifanc yn teimlo'n gyfforddus yn siarad yn ystod y sesiynau gyda MAC, nododd fod hyn wedi gwella ei sgiliau cyfathrebu, o fewn y sesiynau Braver Choices a thu hwnt i'r rhaglen. Nododd fod y cyfathrebu wedi gwella gyda'i deulu a'i ffrindiau a'i fod yn teimlo'n fwy cyfforddus, yn agored, yn siarad am ei deimladau ac yn gofyn am help pan fydd angen. Ystyriwyd bod hyn yn newid pwysig iddo, gan esbonio na fyddai wedi gallu siarad am ei bryderon na'i deimladau yn y gorffennol, a oedd yn golygu bod sefyllfaoedd wedi mynd allan o reolaeth. Roedd y cynnydd mewn hyder a sgiliau cyfathrebu wedi golygu bod y person ifanc wedi gwneud ffrindiau newydd ac wedi meithrin grŵp o ffrindiau a oedd yn fwy cadarnhaol.

*"Mae wedi fy helpu i siarad â nhw ac â'r bobl o'm cwmpas hefyd. Rwy'n gallu gofyn am help yn haws. Fel arfer, byddwn i'n gwneud popeth ar fy mhen fy hun heb y cyngor a'r help, ac roeddwn i'n teimlo bod y sefyllfa allan o reolaeth. Ond nawr rwy'n gofyn am help ar unwaith pan fydda i'n teimlo na allaf wneud pethau ar fy mhen fy hun" (PI)*

*"Mae hyn yn bwysig oherwydd heb rywle i siarad am fy nheimpladau byddwn i'n cadw popeth i fi fy hun, a fyddai hynny ddim yn dda" (PI)*

*"Rwy'n siarad â phobl newydd yn well hefyd, rwy'n gallu cyfathrebu a gwneud ffrindiau newydd. Yr wythnos o'r blaen, gwnes i grŵp newydd o ffrindiau ac mae hynny am fy mod i'n gallu siarad yn fwy rhydd am fy nheimpladau" (PI)*

Nododd y person ifanc hefyd fod ganddo fwy o hyder yn ei sgiliau gwneud penderfyniadau yn sgil y wybodaeth a ddysgodd drwy Braver Choices. Roedd yn teimlo bod ganddo'r sgiliau i gydnabod sefyllfa negyddol neu pan oedd sefyllfa allan o reolaeth, ac yna'r hyder i dynnu ei hun allan o'r sefyllfa. Cytunodd fod y cymorth wedi ei atal rhag cael ei gynnwys mewn sefyllfaoedd a oedd wedi arwain at gael ei atgyfeirio i gael cymorth yn flaenorol. Esboniodd fod y cynnydd mewn gwybodaeth, hyder a chyfathrebu o ran sut roedd yn teimlo wedi gwneud iddo deimlo'n 'llawer gwell' a'i fod wedi gweld gwahaniaeth mawr yn y 5-6 wythnos yr oedd wedi bod yn ymgysylltu â MAC. Roedd y person ifanc yn hapus gyda'r cymorth roedd wedi ei gael ac yn fodlon ar y canlyniadau yr oedd wedi'u cyflawni drwy'r

rhaglen hyd yma, ac roedd yn edrych ymlaen at weddill ei sesiynau gyda Braver Choices. Nid oedd ganddo unrhyw argymhellion ar gyfer gwella'r rhaglen na'r gwasanaeth a nododd bwysigrwydd sicrhau eu bod ar gael i bobl ifanc eraill.

*“Rwy'n gallu cysylltu â phobl yn well nawr, rwy'n gallu siarad â phobl yn well. Hefyd, rwy'n gallu gweld pan fydd rhywbeth drwg am ddigwydd, mae'n haws i mi ddweud wrth rywun fy mod am fynd adref neu nad ydw i'n hoffi hyn ac y byddaf yn tynnu fy hun allan o'r sefyllfa. Mae'n haws i mi gydnabod risgiau mewn sefyllfaoedd. (O'r blaen] fyddwn i ddim wedi gallu gweld y sefyllfaoedd drwg neu mae'n siŵr y byddwn yn gallu gweld hynny ond na fyddwn yn lleisio fy marn ac felly'n cerdded i mewn i'r sefyllfa” (PI)*

*“Rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus ynof fi fy hun a fy mod yn gwneud y peth cywir nawr” (PI)*

Cydnabu'r rhanddeiliad mai'r sawl sy'n cael y budd mwyaf o'u gwaith oedd y gwasanaethau statudol, gan godi ymwybyddiaeth a chanlyniadau tymor hwy mewn perthynas â lleihau'r galw ar wasanaethau. Roedd gobeithion ar gyfer canlyniadau tymor hwy ehangach yn y dyfodol yn cynnwys lleihau'r galw ar yr heddlu ac Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

*“Deall rhai o'r achosion sylfaenol, cyflwyno tystiolaeth o'r rheswm pam fod y pethau hyn yn digwydd ac yna ychwanegu'r rheini at y strategaeth er mwyn datblygu atebion tymor hwy. O ran yr allbynnau hynny ar gyfer cymunedau a phlant, gobeithio y bydd y camau yn y byrdymor a'r tymor canolig yn golygu bod gan yr hirdymor opsiynau gwell a dewisiadau gwell i blant a chymunedau” (Rhanddeiliad)*

*“...Felly lleihau amser yr heddlu, lleihau amser yn yr ysbyty, a lleihau cyfranogiad yr awdurdod lleol, sydd wedyn yn golygu y gellir defnyddio'r adnoddau mewn ffordd well. Ac mae'r trydydd math o gylch cyfoes yn ymwneud â chymunedau diogel” (Rhanddeiliad)*

### **Astudiaeth achos a ddarparwyd gan MAC**

“Daeth merch atom a oedd wedi bod yn cario arf ar ran ei chariad. Felly roedd pryderon ynghylch ei chysylltiadau a'r ffaith bod rhywun yn camfanteisio arni. Dirywiodd yn gyflym. Nid oedd yn gofalu amdani'i hun, ac roedd hi wastad wedi bod yn gwneud ei gwallt a'i cholur. Digwyddodd popeth mor gyflym, o fewn wythnos. Dim cymhelliant, dim byd. Roeddem yn ceisio deall beth oedd yn digwydd. Dywedodd ‘Mae fy mhartner yn rhan o hyn a'r llall, a gwelais rywbeth’. Roedd hi'n gwrthod dweud beth yn union roedd ei phartner wedi'i wneud felly allwn i ddim rhoi gwybod i'r heddlu, ond cyflwynais hyn fel ffurflen Intel. Roedd ei gweithiwr cymdeithasol yn poeni hefyd. Roedd hi wedi'i pharlys gan ofn, roedd hi'n ofni mynd allan. Roedd hi'n gwrthod siarad â ni, ei mam, neb. Gwnaethom edrych ar beth y gallem ei wneud i'w helpu. Mae rhestr aros hir i gael cwnsela drwy CAMHS, ond llwyddais i gael cwnsela drwy Exchange ar ei chyfer o fewn y mis.

Roedd bob wythnos yn canolbwyntio ar ei llesiant gan asesu sut mae pethau'n mynd. Sut ydych chi'n teimlo yr wythnos hon? Rydych chi am fynd allan am dro bach. Beth am fynd i gael paned? Wnes i ddim siarad am arfau na chamfanteisio. Gwnaethom dreulio amser yn canolbwyntio arni hi ac ar ei llesiant. Roedd angen rhywun arni i siarad ... Er mai canolbwyntio ar waith atal ac ymyrryd mewn perthynas ag arfau ydym ni, nid yw hynny'n wir bob amser. Nid dyna oedd y flaenoriaeth ar y pryd Y flaenoriaeth oedd canolbwyntio ar lesiant y person ifanc” (Rhanddeiliad)

### **Mesur effaith**

O ran mesur canlyniadau, mae MAC yn cael adborth gan y plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Er enghraifft, mae pob sesiwn gyda pherson ifanc yn dechrau gyda cham adfer, sy'n cynnwys annog y person ifanc i fyfyrion ar ei deimladau a'i fyfyrddodau o'r wythnos flaenorol. Pan fydd

y sesiwn ar ben, mae'r gweithiwr MAC yn casglu adborth o safbwynt y person ifanc a'i ddehongliad ef o'r sesiwn. Defnyddir yr adborth hwn i ddeall safbwynt y person ifanc a hefyd i helpu i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Er enghraifft, gofynnodd un person ifanc a allai MAC ymgorffori cymorth cyntaf yn ei waith. Sefydlwyd partneriaeth ag Ambiwlans Sant Ioan ac ymgorfforwyd yr ymgyrch rhoi pwysau ar glwyf yn eu gweithdai, sy'n addysgu'r bobl ifanc ar sut i roi pwysau ar glwyf.

*“Rydym hefyd yn gofyn beth ydych chi ei eisiau fel rhan o'n hadborth. Beth ydych chi am ei gael gennym ni? Beth allwn ni ei wneud i chi? Mae hynny bob amser yn gweithio'n dda”  
(Rhanddeiliad)*

Ymhellach, math arall o fyfyrion a ddefnyddir i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau yw Mapio Bywyd. Techneg a ddefnyddir mewn dulliau ansoddol yw Mapio Bywyd sy'n darparu map gweledol sy'n cyfleu bywyd unigolyn o gyfnod penodol hyd at heddiw. Yn aml, mae'r digwyddiadau sydd wedi'u mapio yn canolbwyntio ar bwnc neu fater penodol sy'n effeithio ar yr unigolyn dan sylw<sup>6</sup>. Mae'r tîm Braver Choices yn defnyddio'r dull hwn i roi llinell amser o ymddygiadau a digwyddiadau i greu darlun clir o brofiadau bywyd y person ifanc ac i lunio cynllun diogelwch wedi'i bersonoli i ddiwallu anghenion penodol y person ifanc ac atal y risgiau allweddol y maent fwyaf agored iddynt.

Hefyd, dangosodd adroddiadau chwarterol a gyflwynwyd i'r Uned Atal Trais fod tîm Braver Choices wedi dechrau ymgorffori ymgyrch #DdimYrUn yn eu rhaglen. Strategaeth atal gynnar yw #DdimYrUn sy'n canolbwyntio ar leihau troseddau cyllyll. Mae gwefan yr ymgyrch yn cynnwys adnoddau fel fideos addysgol, ffeithluniau a chwisiau gyda'r nod o addysgu bechgyn ifanc 11-16 oed<sup>7</sup>. Gellir cael gafael ar y pecyn addysgwyr i'w ddosbarthu gan deuluoedd, clybiau ieuencid neu ysgolion. Mae Braver Choices yn ymgorffori pecynnau adnoddau i addysgwyr yn eu gweithdai gyda phobl ifanc. Cafodd anawsterau o ran dangos tystiolaeth o ganlyniadau eu disgrifio gan un rheolwr achos. Teimlwyd bod yr amser a'r ymdrech sy'n mynd i feithrin cydberthnasau â phobl ifanc yn cael ei golli yn aml.

*“Ond rwy'n teimlo nad yw'r anawsterau yn cael eu dangos ddigon mewn adroddiadau”  
(Rhanddeiliad)*

I blant y mae'n anodd ymgysylltu â nhw, mae'n arbennig o anodd dangos tystiolaeth o'r ymddieithrio hwn a'r ymdrech i feithrin ymddiriedaeth. Mae hefyd yn anodd dangos tystiolaeth o'r ystyriaeth sydd ei angen i sefydlu'r cydberthnasau hyn gan fod meithrin cydberthnasau â phobl ifanc yn golygu bod angen i weithwyr achos ystyried eu dull gweithredu er mwyn sicrhau nad ydynt yn ymgysylltu mewn elfennau tebyg o feithrin cydberthynas amhriodol, fel llwgrwobrwyo'r plant/bobl ifanc â rhoddion i gymryd rhan mewn sesiwn. Mae'n anodd mesur gostyngiad yn y niferoedd sy'n cario arfau oherwydd, yn aml, bydd pobl ifanc yn gwadu eu bod erioed wedi cario arf, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi rhannu gywbodaeth mewn cyfarfodydd diogelu sy'n mynd yn groes i hynny.

### *Cynaliadwyedd ac argymhellion*

Yn strategol, er bod cydberthnasau â'r Uned Atal Trais yn gryf, teimlwyd y byddai'n fuddiol meithrin cydberthnasau uniongyrchol cryfach rhwng yr Uned Atal Trais a gweithwyr achos. Gallai hyn helpu i hwyluso'r broses o gael adborth a'i drafod er mwyn sicrhau bod MAC yn bodloni disgwyliadau. Rhaid nodi bod rheolwyr strategol yn gweithio gyda'r Uned Atal Trais i sicrhau bod prosesau cyflawni prosiectau a strwythurau ar waith i weithwyr achos gael adborth gan eu rheolwr, fodd bynnag, teimlwyd y byddai'n fuddiol o hyd cael cydberthynas gryfach rhwng yr Uned Atal Trais a'r gweithwyr

---

<sup>6</sup> Garratt, E., Flaherty, J., Barron, A. (2021). 'Life Mapping' yn Barron, A., Browne, A.L., Ehgartner, U., Hall, S.M., Pottinger, L. a Ritson, J. (gol.) Methods for Change: Impactful social science methodologies for 21st century problems. Manceinion: Aspect a Phrifysgol Manceinion.

<sup>7</sup> <https://www.south-wales.police.uk/police-forces/south-wales-police/areas/campaigns/campaigns/nottheone/> a <https://www.nottheone.co.uk/cy/>

achos. Awgrymwyd cyflwyno sail dystiolaeth leol yng Nghymru i nodi'r ymyriadau y mae'r Uned Atal Trais yn eu hariannu hefyd.

*“Yn y tymor canolig, yn aml gallant roi hyd at flwyddyn o gyllid a gobeithio 1/2/3 blynedd o gyllid ar ateb tymor canolig” (Rhanddeiliad)*

Cydnabuwyd bod y wybodaeth hon ar gael drwy ymchwil a gwerthusiad, a sut y gallai fod yn fwy hygyrch i gymunedau lleol. Teimlwyd bod angen ailystyried yr amserlenni ariannu ac, er mwyn dechrau dangos tystiolaeth o ganlyniadau ac effaith eu gwasanaeth, bod angen rhoi cyllid ar sail tymor hwy.

*“Byddwn wrth fy modd yn gallu siarad â nhw a sicrhau eu bod yn hapus â'r hyn rwy'n ei wneud. Ydw i'n gwneud popeth i fodloni eu disgwyliadau? Weithiau rydych chi am ofyn cwestiwn. A yw'n iawn?” (Rhanddeiliad)*

## Astudiaeth achos 7: Tîm Atal Trais y GIG

Mae tîm atal trais y GIG<sup>8</sup> yn dîm ymroddedig sy'n gweithio yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Treforys i nodi ac ymateb i gleifion ag anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais. Mae'r tîm yn ymgysylltu â'r cleifion hyn pan fyddant yn yr ysbyty a gartref os ydynt wedi cael eu rhyddhau cyn i'r tîm gwrdd â nhw. Mae'r tîm yn rhoi cyngor, cymorth, arweiniad ac atgyfeiriad i wasanaethau cymorth priodol. Nod hyn yw hyrwyddo cam oddi wrth ffyrdd o fyw sy'n gysylltiedig â thrais drwy annog ymgysylltiad â gwasanaethau. Mae'r Tîm Atal Trais yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc 10 i 25 oed sydd wedi cael anafiadau drwy drais. Weithiau, bydd yn gweithio gydag oedolion y tu hwnt i'r oedran hwn.

### Gweithredu

Aeth y gwasanaeth yn fyw ym mis Ebrill 2022, gyda'r Uned Atal Trais yn ariannu dwy swydd lawnamser hyd at fis Ebrill 2024. Er mwyn hwyluso'r broses o roi'r gwasanaeth ar waith, aethpwyd ati i hyfforddi staff yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ymyriad, meithrin cydberthnasau, a chwalu rhwystrau er mwyn sicrhau bod y staff yn edrych y tu hwnt i'r anaf neu'r gŵyn gychwynnol. Mae codi ymwybyddiaeth o'r Tîm Atal Trais wedi bod yn rhan hanfodol o'r broses o roi'r gwasanaeth ar waith yn yr ysbyty (i ddechrau, roedd dryswch ynghylch rôl y Tîm Atal Trais – roedd llawer o staff yr ysbyty yn meddwl mai nod y gwasanaeth oedd eu hamddiffyn rhag ymosodiad gan gleifion) ac, felly, mae'r tîm wedi bod i gyfarfodydd tîm yr ysbyty a chyfarfodydd trosglwyddo rhwng shifftiau, a chaiff y Tîm Atal Trais ei drafod o fewn llwybrau hyfforddiant ac atgyfeirio. Mae'r tîm hefyd yn ceisio treulio amser gyda'r staff yn yr adran i'w cefnogi wrth eu gwaith.

*“Yn y bôn, rydym am i'n hwynebaw gael eu gweld fel bod pobl yn dechrau gwybod pwy ydym ni. Mae'n rhoi cyfle i ni gyflwyno ein hunain, sy'n ddefnyddiol iawn. Ar Rownd y Bwrdd, os bydd claf y mae rhywun wedi ymosod arno neu os bydd unrhyw fath o anaf o ganlyniad i arfau, gallwn wedyn nodi y gellir atgyfeirio'r claf hwn at y tîm, ond byddem yn ystyried hyn fel atgyfeiriad ar y rownd” (Rhanddeiliad)*

Ymysg y disgwyliadau gan yr Uned Atal Trais mae cyfarfodydd ad hoc (sy'n debygol o ddatblygu i fod yn gyfarfodydd rheolaidd wedi'u cynllunio), cwblhau adroddiadau misol a chwarterol o set data a ddelir gan y Tîm Atal Trais, sy'n cynnwys nifer yr atgyfeiriadau, grwpiau oedran, y math o atgyfeiriadau (a ffynhonnell yr atgyfeiriadau), a chanlyniadau. Dywedwyd bod y prosesau cyfathrebu â'r Uned Atal Trais yn dda, a theimlwyd bod y gydberthynas rhwng y Tîm Atal Trais a'r Uned Atal Trais yn addawol. Trafodwyd bod yr Uned Atal Trais yn ymateb yn gyflym i geisiadau a galwadau am gymorth; maent wedi llwyddo i drefnu cyfarfodydd o fewn cyfnod byr er mwyn cefnogi'r Tîm Atal Trais.

*“Felly un alwad ffôn neu un neges e-bost ac maen nhw yno. Maen nhw'n barod iawn eu cymwynas. Pryd bynnag rwyf wedi gofyn am gyfarfod, maen nhw wedi'i drefnu o fewn ychydig ddiwrnodau ac rydym wedi cael ambell gyfarfod wyneb yn wyneb hefyd sydd wedi bod yn dda” (Rhanddeiliad)*

### Gweithio mewn partneriaeth

Mae'r Tîm Atal Trais yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau fel yr heddlu, addysg, unedau amddiffyn y cyhoedd, gwasanaethau plant ac oedolion, tîm Diogelwch Corfforaethol y Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol; y mae'r rhan fwyaf ohonynt o fewn ei ôl troed daearyddol. Mae hefyd yn gweithio gydag asiantaethau y tu hwnt i'r ardal os bydd angen. Ystyriwyd bod partneriaid yn cydweithio'n dda i rannu syniadau a gwybodaeth ac i ddatblygu arferion gorau. Mae'r tîm yn Abertawe

---

<sup>8</sup> <https://www.violencepreventionwales.co.uk/cy/beth-rydyn-nin-ei-wneud/ymyriadau/t%C3%AEm-atal-trais-y-gig>

yn cydweithio'n agos â'r Tîm Atal Trais yng Nghaerdydd, sy'n ganolfan drawma fawr ar gyfer trawma sylweddol ac achosion meddygol brys, a Threforys yw'r Ganolfan Llosgiadau a Phlastigau Arbenigol ar gyfer Cymru. Rhoddir gwybod i'r timau am gleifion sy'n cael eu gweld yn ardaloedd ei gilydd os cânt eu hatgyfeirio at y gwasanaeth a rhoddir gwybod iddynt pan fydd cynlluniau i'w dychwelyd i'w priod ardaloedd, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau sy'n briodol i'r ardaloedd yn cael eu cynnig i'r cleifion. Mae'r tîm hefyd wedi gweithio'n agos gyda Chaerdydd i ddysgu gwersi o'i fodel Tîm Atal Trais a sefydlwyd, a brofwyd ac a werthuswyd yn wreiddiol gan yr Uned Atal Trais. Cyflwynodd Abertawe gais llwyddiannus i'r Uned Atal Trais, i sefydlu'r ail Dîm Atal Trais yng Nghymru, am mai Abertawe yw'r ardal sydd â'r niferoedd uchaf ond un o anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais yng Nghymru. Mae'r Tîm Atal Trais wedi datblygu ei fodel gyda chymorth gan Dîm Atal Trais Caerdydd ac wedi'i addasu i anghenion ysbytai Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Mae'r Tîm Atal Trais yn gweithio'n agos gyda Media Academy Cymru (MAC) i roi cymorth i'r dioddefwr ac i gysylltu â gwasanaethau eraill. Ystyriwyd bod y gydberthynas rhwng y Tîm Atal Trais a MAC yn gadarnhaol; maent yn cwrdd bob mis i rannu'r hyn sy'n gweithio'n dda ac unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud. Ar ôl yr atgyfeiriad, mae'r gweithiwr ieuencid yn MAC yn cwrdd â'r person ifanc ac maent yn penderfynu ar y cyd pa gymorth sydd ei angen a 'pha raglenni sydd orau iddo'.

*“Os oes gennym rywun yn yr ysbyty, bydd y gweithiwr MAC yn dod i mewn i'w weld yma os yw ar gael. Mae hyn yn gweithio'n dda oherwydd os byddwch yn dal y person ifanc ar y cam bregus hwnnw, bydd yn fwy tebygol o lawer o ymgysylltu â chi... Rydym yn cwrdd bob mis gyda MAC, i weld sut mae pethau'n mynd, ac i gael adborth ar achosion, sy'n dda am ei fod yn galluogi'r Tîm Atal Trais i ddeall beth sy'n gweithio i'r person ifanc” (Rhanddeiliad)*

Caiff y Tîm Atal Trais y cyfle i gydweithio ag ymyriadau atal trais eraill yng nghyfarfod panel CMET (Diogelwch Cyd-destunol) yn Abertawe a chyfarfodydd strategaeth diogelu cyd-destunol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae hyn yn galluogi'r Tîm Atal Trais i gael trosolwg o unrhyw faterion a all fod yn gorgyffwrdd ag Awdurdodau Lleol a thynnu sylw pob ardal at y rhain, gan sicrhau bod aelodau priodol o staff yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd perthnasol. Mae'r cyfle i gael y trafodaethau hyn â phartneriaid gwahanol yn galluogi asiantaethau i gydweithio yn unol â'r broses o gyflwyno Dyletswydd Trais Difrifol, i rannu gwybodaeth rhwng partneriaid, ac i roi cynlluniau ar waith ar gyfer ardaloedd penodol i dargedu materion penodol. Os caiff mater diogelu ei nodi, bydd y Tîm Atal Trais yn gwneud atgyfeiriad diogelu i'r awdurdod lleol priodol, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

*“Cynhelir cyfarfodydd CMET a strategaeth rheolaidd ac mae'r Tîm Atal Trais yn bresennol ynddynt. Mae pawb yn cydweithio'n dda iawn ac yn ymgysylltu'n dda â'i gilydd. Ar gyfer CMET, rydym yn cyflwyno adroddiadau bob mis ar nifer ein hatgyfeiriadau, unrhyw themâu a lleoliadau. Caiff y wybodaeth hon hefyd ei rhannu gan y gwasanaethau eraill sy'n bresennol. Mae CMET wedyn yn creu darlun ar sail gwybodaeth gan nifer o wasanaethau am y materion yn ardal Abertawe.” (Rhanddeiliad)*

Mae'r adroddiadau chwarterol a gyflwynir i'r Uned Atal Trais hefyd yn dangos bod y tîm wedi bod yn gweithio gydag ysgolion; rhoddwyd cyflwyniad i benaethiaid am y Tîm Atal Trais a chafodd ei groesawu fel gwasanaeth i helpu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Yn dilyn hyn, trefnwyd cyfarfod gyda'r penaeithiaid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y gwasanaeth. Hefyd, cyhaliodd Media Academy Cymru a'r Tîm Atal Trais weithdy mewn ysgolion ar gyfer cyllyll ac arfau.

## Cyflawni

I ddechrau, cafodd y Tîm Atal Trais drafferth ag atgyfeiriadau a dechreuodd weithio drwy dderbyniadau i ddod o hyd i gleifion sy'n cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer atgyfeiriad. Yn fwy diweddar,

mae atgyfeiriadau'n cael eu gwneud, ond mae angen parhau i wirio derbyniadau ar y system electronig a'r adroddiad TG, a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer y Tîm gyda pharmedrau wedi'u pennu yn ôl y gofyn. Mae'r Tîm Atal Trais wedi datblygu siart llif atgyfeirio ar gyfer staff yr Adran Achosion Brys i'w defnyddio os byddant yn cwestiynu a ddylai'r tîm gynorthwyo claf a sut i'w atgyfeirio ato. Pan fydd aelod o'r tîm atal trais ar y safle, gellir gwneud atgyfeiriad drwy alwad ffôn i aelod o'r tîm a fydd yn gallu gweld y claf ar unwaith. Os na fydd ar gael, dylid dilyn y llwybr atgyfeiriad a byddai'n cael ei weithredu ar y diwrnod gwaith nesaf. Ar ôl derbyn atgyfeiriad, byddai'r Tîm Atal Trais yn gweld y claf/yn cysylltu â'r claf, yn cynnal asesiad ac yn argymhell yr opsiynau gorau ar gyfer y claf; gwneir atgyfeiriadau os bydd y claf yn cytuno. Cysylltir â'r cleifion hynny a atgyfeiriwyd ond sydd wedi cael eu rhyddhau ers hynny dros y ffôn o fewn 72 awr. Mae'r tîm wedi cysylltu â'r staff i sicrhau bod y systemau atgyfeirio'n hawdd i'r staff eu defnyddio ac maent wedi darparu systemau amgen ar gyfer atgyfeirio, fel defnyddio sticeri i hysbysu'r tîm am glaf. Mae adroddiadau chwarterol i'r Uned Atal Trais wedi dangos bod hyn wedi bod yn llwyddiannus gan ei fod wedi arbed amser i'r atgyfeiriwr ac felly wedi arwain at gynydd yn nifer yr atgyfeiriadau a wneir gan y staff at y tîm ac achosion yn cael eu derbyn yn gyflymach.

*“...Felly pe bai staff yn yr Adran Achosion Brys am gwestiynu, a ddylid atgyfeirio at y Tîm Atal Trais, gallent ddilyn y llwybr atgyfeirio ar gyfer y Nyrs Atal Trais yn y Tîm Atal Trais. Os bydd hyn yn ystod oriau gwaith, gallant ffonio'r Nyrs Atal Trais. Fel arall, byddai angen defnyddio'r system sydd ar waith ar gyfer y rhan honno o'r adran” (Rhanddeiliad)*

I ddechrau, roedd y tîm yn defnyddio System Gweinyddu Cleifion Cymru i nodi unrhyw gleifion a ryddhawyd heb gael eu hatgyfeirio at y Tîm Atal Trais dros y 24 awr diwethaf. Roedd asesu nodiadau brysbennu o'r system yn galluogi'r Tîm Atal Trais i nodi cleifion ar y cyfle cynharaf. Caiff yr adroddiad TG ei wirio bob diwrnod a chaiff unrhyw achosion a nodwyd a allai fod yn gysylltiedig ag anaf o drais eu gwirio er mwyn ceisio peidio â cholli unrhyw bobl ifanc a oedd yn bresennol.

*“Y peth arall rydym yn ei wneud ar hyn o bryd am nad yw pobl wedi arfer â'n cael o gwmpas, yw defnyddio system o'r enw System Gweinyddu Cleifion Cymru. Rwy'n gallu mynd arni i weld pwy sydd wedi bod i mewn yn ystod y 48 awr diwethaf a gwneud nodyn o'r bobl sydd wedi bod i mewn ac wedi cael eu rhyddhau tra roeddem i ffwrdd... doedden ni ddim am gollu cleifion wrth aros am atgyfeiriadau, roedden ni am allu dechrau cefnogi pobl” (Rhanddeiliad)*

Yn ystod y cyswllt cyntaf, bydd aelodau'r Tîm Atal Trais yn cyflwyno eu hunain ac yn hysbysu'r claf am y gwasanaeth a ddarperir ganddynt. Bydd y claf yn penderfynu a yw am ymgysylltu ac os felly, bydd yn trafod ei sefyllfa. Yn dilyn o hyn, cytunir ar gamau gweithredu a/neu atgyfeiriadau priodol. Os bydd y person ifanc yn gwrthod, ni chymerir unrhyw gamau pellach oni chaiff materion diogelu eu nodi. Yn yr achosion hyn, bydd y tîm yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan i sicrhau diogelwch y claf. Ym mhob achos, caiff manylion y claf eu cofnodi ar y gronfa ddata oherwydd y posibilrwydd y gall ddod drwy'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys eto. Os yw'r cleifion dan 18 oed, bydd y Tîm Atal Trais yn siarad â'u rhieni i ddechrau i gael cydsyniad cyn siarad â nhw.

*“Dim ond galwad ffôn gyflym i ddweud pwy ydym ni, pa wasanaeth ydym ni'n ei ddarparu, ac a yw'r claf am ymgysylltu...yn amlwg os nad yw am wneud hynny, mae'n iawn, ond bydd y claf yn cael ei gofnodi ar y gronfa ddata o hyd oherwydd bod posibilrwydd y bydd yn dychwelyd a byddwn yn cael cyfle arall i ymgysylltu ag ef” (Rhanddeiliad)*

Mae anghenion y cleifion yn amrywio. Cydnabuwyd bod y Tîm Atal Trais yn atgyfeirio'n bennaf at gymorth i ddiodefnydd, fodd bynnag, mae nifer cynyddol o atgyfeiriadau i MAC bellach hefyd. Cafwyd cynnydd mewn diogelwch cyd-destunol a nodwyd hefyd mewn cyfarfodydd amlddisgyblaethol



priodol, yn benodol ar gyfer yr amgylchiadau hyn. Er y disgwylir i'r Tîm Atal Trais ymgysylltu â'r claf ar y diwrnod y bydd yn mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu hyd at 72 awr ar ôl iddo gael ei ryddhau, awgrymodd y tîm bod yn well gan rai cleifion aros gyda'r Tîm Atal Trais am gyfnod hirach na'r cyfnod penodol cyn cael eu hatgyfeirio at y sefydliadau priodol, am fod angen mwy o amser iddynt i feddwl pa benderfyniad sydd orau iddynt.

*“Drwy fynd i gyfarfodydd diogelu cyd-destunol, cawsom drosolwg o'r materion sy'n gysylltiedig â thrais sy'n arwain at anafiadau yn y ddau Awdurdod Lleol” (Rhanddeiliad)*

Dangosodd adroddiadau chwarterol i'r Uned Atal Trais hefyd fod y Tîm Atal Trais wedi cwrdd â Thîm Cydlynu Adsefydlu ar ôl Trawma Mawr yr ysbyty i esbonio rôl y Tîm Atal Trais. Mae hyn wedi golygu bod cleifion a drosglwyddwyd allan o'r ardal oherwydd trawma mawr wedi cael eu hatgyfeirio at y tîm ar ôl dychwelyd i Ysbyty Treforys i gael triniaeth barhaus, a chydabu'r Tîm Atal Trais bod hyn wedi bod yn llwyddiannus gyda chleifion yn gallu manteisio ar y gwasanaeth ar ôl dychwelyd.

Cydnabuwyd bod y gwaith papur cychwynnol a ddatblygwyd ar gyfer y Tîm Atal Trais yn fan dechrau da ar gyfer casglu data, ond yn fwy diweddar, roedd y gwaith papur wedi cael ei fireinio i lenwi unrhyw fylchau a nodwyd yn y wybodaeth a gasglwyd. Llwyddodd y gwasanaeth i addasu ei ffurflenni'n gyflym drwy ychwanegu meysydd angenrheidiol a dileu'r rhai nad oeddent yn ofynnol. Yn yr un modd y llwybrau atgyfeirio, a newidiwyd yn benodol ar gyfer yr adrannau gwahanol e.e. Yr Uned Achosion Brys i Blant.

*“Rwy'n credu mai un o'r pethau da yw ein bod wedi gallu newid y gwaith papur...wrth i ni fynd yn ein blaen, oherwydd rydych chi'n sylweddoli'n sydyn, mae angen i mi gael y wybodaeth honno a doedd gennym ni ddim unrhyw le i'w chofnodi'n benodol. Felly mae'n ... eithaf hyblyg” (Rhanddeiliad)*

## **Rhwystrau**

Nodwyd bod recriwtio staff yn broblem o ran darparu'r gwasanaeth oherwydd nifer o newidiadau ymhlith y staff ac, ar adegau, dim ond un aelod o staff oedd yn y swydd. Nid yw hyn yn broblem mwyach gan fod dwy Nyrs Atal Trais wedi'u penodi ynghyd ag Arweinydd Atal Trais ar gyfer y Tîm dros weddill cyfnod y prosiect. Er bod capasiti'r tîm yn isel yn ystod y flwyddyn gyntaf, cytunwyd nad oedd wedi effeithio ar ymyriadau'r Tîm Atal Trais. Ar ôl adfer lefelau staffio llawn, roedd cyfle i gynnig hyfforddiant ychwanegol ar gyfer cydweithwyr mewnol ac allanol i hyrwyddo'r defnydd o'r gwasanaeth. Gwelwyd hyn hefyd fel cyfle i fynd i ddigwyddiadau lleol a chysylltu â nhw, a all arwain at gyfradd uwch o roi gwybod am ddigwyddiadau treisgar.

Y rhwystr mwyaf sylweddol a wynebwyd gan y tîm yw gwelededd ymysg staff ysbytai. Yn ystod pandemig COVID-19, roedd llawer o salwch ymysg staff yr ysbyty, a oedd yn golygu y bu'n rhaid i adrannau ddibygnu ar nyrsys asiantaeth. Mae'r defnydd hwn o staff asiantaeth wedi parhau hyd heddiw am fod staff wedi gadael ac, o ganlyniad, mae wedi bod yn anodd i'r Tîm Atal Trais ddod i adnabod yr holl staff am eu bod yn newid yn gyson. Hefyd, roedd diffyg dealltwriaeth gyffredinol ynghylch yr hyn y mae'r Tîm Atal Trais yn ei ddarparu. Trafodwyd bod hyn wedi gwaethygu ymhellach oherwydd y ffaith bod ganddynt swyddfa dros dro a oedd allan o'r ffordd, a oedd yn golygu bod staff yr ysbyty'n llai tebygol o ddod o hyd i aelod o'r tîm os oedd angen help arnynt. Mae sefyllfa'r swyddfa yn parhau i beri anhawster i'r tîm.

*“Mae angen mynd i mewn i'r adran yn aml ac atgoffa'r staff nad yw pawb yn atgyfeirio, efallai am eu bod yn staff asiantaeth ac nad ydynt yn ymwybodol o'r Tîm Atal Trais. Mae rhai pobl yn dda am atgyfeirio, ac mae rhai nad ydynt cystal, ond mae angen ymgysylltu â nhw. Mae'n dibynnu pwy sy'n gweithio a phwy sy'n gwybod am y gwasanaeth” (Rhanddeiliad)*

*“Dydyn ni ddim wedi gallu dod o hyd i swyddfa iddo [y Tîm Atal Trais] am nad oes swyddfeydd ar gael yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Rydym wedi llwyddo i ddod o hyd i le iddynt ond yn anffodus nid yw'n addas. Mae pethau bach syml fel hynny wedi'i gwneud yn anoddach i roi'r gwasanaeth ar waith am ein bod am iddynt fod yn weledol i bawb” (Rhanddeiliad)*

Mewn achosion lle roedd y staff yn gwybod am y tîm, teimlwyd bod staff yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn aml yn rhy brysur i gwblhau'r broses atgyfeirio, neu nad oeddent yn meddwl y tu hwnt i'r hyn oedd o'u blaenau. Er enghraifft, ni fyddant yn meddwl beth sydd wedi digwydd er mwyn creu'r sefyllfa bresennol, a ph'un a all y claf fod wedi wynebu trais. Codwyd pryderon ynghylch gwasanaethau'n cael eu dyblygu. Cydnabuwyd bod nyrs diogelu ar gyfer plant a all fod yn atgyfeirio gyda'r un bobl â'r Tîm Atal Trais. Er bod y ddwy rôl ar wahân ac yn wahanol o ran eu cylch gwaith, teimlwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod eu rolau ar wahân, ac ni fyddai dim yn newid gyda staff mewn perthynas â dilyn y prosesau diogelu sydd ar waith. Pwysleisiwyd i staff yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys fod y Tîm Atal Trais a'r rolau diogelu yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd, a'u bod yn deall y gwahaniaethau rhwng y gwasanaethau.

*“Gofynnwyd i aelod o staff atgyfeirio ddoe ac roedd yn amlwg yn rhy brysur ac ni wnaeth hynny. Felly ni ddaeth i mewn a dyna un o'r pethau rydym am orfod gwthio yn ei gylch, nad ydynt yn ystyried ei fod yn flaenoriaeth ar hyn o bryd” (Rhanddeiliad)*

Mae adroddiad chwarterol yr Uned Atal Trais ar gyfer y Tîm Atal Trais yn nodi bod lleoliad yn broblem i'r Tîm Atal Trais o hyd, o ran ble y mae wedi'i leoli a ble y gall weld cleifion yn gyfrinachol. Mae'r sefyllfa wedi codi i lefel uchel, ond cydnabuwyd bod sawl problem sy'n creu rhwystr ac nad yw'n hawdd eu goresgyn ar hyn o bryd. Un rhwystr cychwynnol arall a nodwyd oedd oriau gwaith Nyrs Atal Trais y Tîm Atal Trais a oedd yn gweithio rhwng 8am a 4pm. Teimlwyd y gallai fod cyfleoedd yn cael eu colli i ymgysylltu â phobl ifanc a oedd yn mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys y tu allan i'r oriau hyn ac o ran gallu cysylltu â rhieni am gydsyniad y gall fod yn anodd cael gafael arnynt oherwydd eu horiau gwaith eu hunain. Mae hyn wedi newid ers hynny a gyda chapasiti staff llawn ar waith, caiff diwrnod 12 awr ei gwmpasu rhwng 8am ac 8pm. Mae'r Tîm Atal Trais wedi ehangu i gwmpasu Uned Mân Anafiadau Castell-nedd Port Talbot am ddwy shift yr wythnos. Mae hyn hefyd wedi arwain at fwy o atgyfeiriadau am fod y staff yn yr adran bellach yn gwbl ymwybodol o'r gwasanaeth ac yn gwneud atgyfeiriadau rheolaidd. Yn ystod cyfnod y problemau staffio a nodwyd uchod, teimlwyd hefyd y gallai atgyfeiriadau posibl fod yn cael eu colli ar y wardiau, fodd bynnag, mae arwyddion bod hyn yn gwella gan fod y gwasanaeth yn cael ei hyrwyddo mwy o fewn yr ystyby.

*“Mae'n mynd yn ôl i waith shift. Os byddwch chi'n gweithio rhwng wyth a phedwar, yn aml byddwch chi'n colli pobl ifanc am eu bod yn tueddu i ddod i mewn ar ôl i'r ysgol orffen ac felly fyddwch chi ddim yn eu gweld wyneb yn wyneb. Os oes gennych chi rieni sy'n gweithio, mae'n anodd iawn cysylltu â nhw i gael cydsyniad i siarad â'r person ifanc, felly mae'n gwneud pethau'n anoddach. Ar ôl pump o'r gloch, mae'n aml yn haws cael gafael ar bobl” (Rhanddeiliad)*

Mae'r Tîm Atal Trais yn cydnabod ei bod yn bwysig ymgysylltu â phobl ar yr adeg fregus honno yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, ond nid yw hynny'n bosibl bob amser. Nodwyd anawsterau o ran ymgysylltu â chleifion pan fyddant wedi gadael yr ystyby. Teimlwyd, pan fydd claf wedi mynd adref, nid yw amgylchiadau'r hyn a ddigwyddodd yn ymddangos mor bwysig, am ei fod wedi cael ei drin a'i fod yn symud ymlaen, felly yn llai tebygol o geisio cymorth. Hefyd, efallai y bydd rhai pobl ifanc yn amharod i ymgysylltu dros y ffôn.

*“Ar ôl iddynt fynd adref a myfyrio, maen nhw'n meddwl, na, na, dyna ddiwedd ar hynny. Maen nhw'n troi eu cefn ar eu gorffennol, neu os yw'n gysylltiedig â throseddau, efallai fod un o'r troseddwyr wedi cysylltu â nhw ac efallai eu bod wedi cael eu bygwth i beidio â dweud dim. Felly, er ei bod yn swnio'n ofnadwy, mae angen i chi eu dal ar yr adeg fregus honno” (Rhanddeiliad)*

Wrth gysylltu â chleifion yn ôl-weithredol, gall fod yn anodd nodi achosion oherwydd efallai na fydd data a gymerir yn y dderbynfa yn gywir. Trafododd un rhanddeiliad, pan fydd claf yn cyrraedd yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, gall ddweud wrth y derbynnydd ei fod wedi cael damwain, ond pan fydd yn cyrraedd y gwasanaeth brysbennu, efallai y bydd yn datgelu ei fod wedi bod yn ymladd neu yr ymosodwyd arno. Awgrymwyd bod hyn wedi'i briodoli i ddiffyg cyfrinachedd yn y ciw yn y dderbynfa. Mae hyn yn rhwystr i'r Tîm Atal Trais oherwydd, wrth edrych ar gudd-wybodaeth data i nodi cleifion priodol, os na chaiff y data eu cofnodi'n gywir fel ymosodiad, caiff rhai cleifion eu colli. Mae angen i'r Tîm Atal Trais gysylltu ag unrhyw gleifion sy'n cyrraedd gydag anafiadau a allai fod o ganlyniad i ymosodiad, felly mae angen systemau i chwilio am gleifion priodol i gysylltu â nhw, fel y disgrifiwyd uchod.

*“Os bydd cleifion yn cyrraedd gydag anaf i goes neu fraich a bod hynny o ganlyniad i ymosodiad, ni chaiff y wybodaeth am yr ymosodiad ei chofnodi ar y gudd-wybodaeth ddigidol am ei bod wedi'i chynnwys o dan god gwahanol. Caiff ei chofnodi fel anaf i goes neu fraich. Felly, pan fyddwn yn edrych ar y data, ni fydd yn edrych fel bod llawer o ymosodiadau ar y system electronig” (Rhanddeiliad)*

*“Nid yw pobl bob amser yn dod i mewn ac yn dweud bod rhywun wedi ymosod arnynt. Felly, mae'n golygu nodi cleifion fel rhywun sydd ag anaf i'w ben neu anaf i'w arddwrn...dysgu sut i'w nodi. Yna wrth edrych ar grynoded brysbennu'r claf, mae'n dweud yr ymosodwyd arno. Felly mae'n golygu nodi'r mathau hynny o bethau gwahanol – mae angen dod o hyd i ffordd o amgylch y system sy'n golygu ei bod yn haws i ni wneud hynny” (Rhanddeiliad)*

Mae'r Tîm Atal Trais wedi treialu oriau gwaith gwahanol i fodloni gofynion pobl ifanc sy'n mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Roedd y gwasanaeth ar gael yn bersonol i ddechrau rhwng 8am a 4pm a byddai'r Tîm Atal Trais yn cysylltu ag unrhyw un a oedd yn cyrraedd y tu allan i'r oriau hyn, y nodwyd bod ganddo anaf a oedd yn gysylltiedig â thrais, dros y ffôn ar ôl ei ymweliad â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Cydnabu'r Tîm Atal Trais bod sgysiau personol yn arwain at ymgysylltiad gwell â'r Tîm Atal Trais a nododd bwysigrwydd defnyddio'r 'cyfle dysgu digymell' hwnnw pan fydd person ifanc yn yr ysbyty a gall fod yn fwy tebygol o ymgysylltu â chymorth. Mae'r tîm wedi adolygu'r niferoedd sy'n cyrraedd yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys i asesu pan fydd mwy o bobl ifanc yn cyrraedd ac, felly, mae wedi treialu agor y gwasanaeth ar y safle ar ôl oriau ysgol, yn hwyrach gyda'r nos ac ar adegau prysur eraill fel gwyliau banc a phenwythnosau. Teimlwyd ei bod yn bwysig i Abertawe dreialu gweithio oriau anghymdeithasol ar benwythnosau a gwyliau banc oherwydd nifer uchel y bobl sy'n cyrraedd yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys ar yr adegau hyn, ar ôl yfed gormod o alcohol wrth gymdeithasu, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd ymosodiadau'n digwydd. Mae'r Tîm Atal Trais hefyd yn nodi ei fod yn fwy tebygol o ymgysylltu â rhieni i gael cydsyniad i weithio gyda'u plant y tu allan i oriau ysgol ac oriau gwaith pan fydd mwy o rieni ar gael. Pan oedd y gwasanaeth yn rhedeg gydag un aelod o staff, 8am-4pm oedd yr oriau craidd o hyd; ond ar ôl i'r tîm gael ei sefydlu'n llawn, newidiodd yr oriau i gwmpasu cyfnod o 12 awr rhwng 8am ac 8pm, ar system rota er mwyn sicrhau bod gan y Tîm Atal Trais bresenoldeb a'i fod yn ymgysylltu â'r grwpiau y gallai fod wedi bod yn eu colli yn y gorffennol. Cydnabu'r Tîm Atal Trais ei fod yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n cyrraedd yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys dros fisoedd yr haf pan na fyddant yn yr ysgol,

fodd bynnag, nid oedd y niferoedd wedi cynyddu yn ôl y disgwyl. Nododd hefyd ei fod wedi disgwyl i'r niferoedd fod yn uchel o gwmpas Calan Gaeaf. Bydd cynnal archwiliad rheolaidd o'r amseroedd a'r diwrnodau y bydd pobl ifanc yn cyrraedd ac adolygu'r tueddiadau yn helpu i ddiwallu anghenion y gwasanaeth.

*“Ar ôl gadael yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, nid ydynt yn tueddu i dderbyn y gwasanaeth gymaint. Ond os byddant yn eu cael eu gweld pan fyddant yn dal i fod yn yr ysbyty, bydd y gyfradd yn uchel iawn. Felly rwy'n meddwl bod mwy nag 80% o bobl am ymgysylltu â nhw” (Rhanddeiliad)*

Ers i bobl ifanc ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn y pandemig, mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd yn y galw ar gyfer ymosodiadau yn yr ysgol, a chynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n dod ato yn dilyn ymosodiadau sylweddol yn yr ysgol. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei rhannu yn ystod cyfarfodydd CMET ac mae dull amlasiantaeth ar waith ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Teimlwyd bod y ffaith bod y Tîm Atal Trais ar gael i ddelio â thrais sy'n digwydd mewn ysgolion yn fuddiol, am fod adroddiadau gan rieni yn nodi bod ysgolion wedi eu cynghori i beidio â rhoi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau. Yn lle hynny, bydd yr ysgol yn delio â'r sefyllfa. Mae'r Tîm Atal Trais yn hysbysu rhieni mai nhw sydd i benderfynu a ydynt am roi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau. Ni all ysgolion atal rhieni rhag gwneud hyn ac mewn achosion lle na roddwyd gwybod am ymosodiadau, bydd y Tîm Atal Trais yn rhoi gwybod i'r heddlu amdanynt. Nodwyd bod ysgolion sydd am reoli'r digwyddiadau hyn eu hunain yn rhwystr-, a hysbyswyd CMET am hyn. Nodwyd y byddai'n werthfawr cysylltu â MAC a CMET i weithio gydag ysgolion i'w hyfforddi ar bwysigrwydd rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

*“Roeddwn i'n ffonio'r ysgolion oherwydd... roeddwn i'n gofyn i rieni a roddwyd gwybod i'r heddlu am y digwyddiad. Na. Iawn. Pam felly? Mae'r ysgol wedi dweud wrthym am beidio â gwneud hynny, ac y bydd yn delio â'r peth. Na, mae'n ymosodiad cas, mae angen i chi roi gwybod i'r heddlu amdano. Rydyn ni'n gwybod bod y rhan fwyaf o ysgolion yn dweud nad oes unrhyw fwlio'n digwydd er nad yw hynny'n wir, ac mae hyn yn fwy nag ychydig o fwlio llafar. Maen nhw'n ymosodiadau cas, gyda phobl ifanc yn cymryd fideos ac yn eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol” (Rhanddeiliad)*

## Effaith

Mae'r Tîm Atal Trais yn casglu amrywiaeth o ddata, gan gynnwys data ar atgyfeiriadau, nifer yr ymyriadau a ddarparwyd, nifer y plant a'r bobl ifanc unigryw a gyrhaeddwyd, grwpiau oedran, rhywedd, a grŵp ethnig. Mae hefyd wedi bod yn casglu data ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn nad yw wedi gweithio cystal. Mae'n gobeithio casglu data ar y canlyniadau mwy meddal, er mwyn dangos yr ymdrech sy'n cael ei gwneud i ennyn hyder y bobl y mae'n gweithio gyda nhw; er enghraifft er mwyn iddynt gael eu hatgyfeirio at MAC am gymorth ychwanegol.

Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan y Tîm Atal Trais yn dangos bod y Tîm wedi gwneud 90 o atgyfeiriadau rhwng mis Mai a mis Medi 2022. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 53 o atgyfeiriadau ar gyfer pobl ifanc rhwng 10 a 25 oed. Cafodd cyfran fawr o atgyfeiriadau'r Tîm Atal Trais eu gwneud at Cymorth i Ddiodefwyr a MAC. Yn ystod blwyddyn gyntaf y Tîm Atal Trais (Mai-Medi 2022), ymgysylltodd yn llwyddiannus â 46% o bobl ifanc (gwrthododd 32% ac ni chafwyd ymateb gan 22%).

Teimlai rhanddeiliaid fod y gwasanaeth yn gwella canlyniadau i bobl ifanc drwy eu cysylltu â gwasanaethau a sefydliadau perthnasol a all gefnogi eu hanghenion. Mae'r gwasanaeth wedi cael effaith sylweddol ar deuluoedd hefyd. Yn benodol, mae'r gwasanaeth wedi treulio llawer o amser gyda mamau sy'n aml wedi'u hysgwyl gan yr hyn sydd wedi digwydd i'w plentyn. Mae nifer o atgyfeiriadau ar gyfer cam-drin domestig wedi'u gwneud o ganlyniad i hyn.

*"Darllenais ambell un o'r astudiaethau achos a hebddynt, rwy'n gwybod y byddai pethau wedi bod yn wahanol iawn i'r plant hynny a'u teuluoedd" (Rhanddeiliad)*

*"...Oherwydd maen nhw [y mamau] wedi'u trawmateiddio gan yr hyn sydd wedi digwydd i'w plant ac yna siarad â nhw. Rwy'n gwybod eu bod nhw wedi nodi llawer o gam-drin domestig ac wedi gwneud llawer o atgyfeiriadau ar gyfer cam-drin domestig gan eu bod yn gweld y darlun ehangach o ran dynameg y teulu hefyd, nid dim ond o ran yr hyn sy'n digwydd i'w plentyn pan fydd yn gadael y tŷ" (Rhanddeiliad)*

O ran cynaliadwyedd, roedd y Tîm Atal Trais o'r farn y byddai angen ystyried hyn ymhellach pan fydd yr ymyriad wedi bod ar waith am gyfnod hwy, er mwyn ystyried ei effaith a deall sut y gellir cynnal y gwasanaeth yn y tymor hwy. Darparodd y Tîm Atal Trais (gan gynnwys MAC) nifer o astudiaethau achos a senarios dienw i ddangos taith cymorth pobl ifanc ac oedolion a'r effeithiau arnynt<sup>9</sup>:

### **Senario 1 y Tîm Atal Trais**

Ymosododd dau ddyn (a oedd wedi bod yn yfed) yn ddireswm ar berson ifanc 16 oed a oedd allan gyda ffrindiau. Dechreuodd yr ymosodiad wrth i'r dynion ymddwyn yn ymosodol ar lafar tuag at y person ifanc. Yna, taflywyd gwydryn peint at wyneb y person ifanc a chafodd ei ddyrnu gan ddyn arall. Rheddodd dynion eraill ar ôl ffrindiau'r person ifanc hefyd, ond ni chawsant eu hanafu. Cysylltodd rheolwr y lleoliad â rhiant y person ifanc i roi manylion yr ymosodwyr iddo. Nid oedd y rheolwr wedi galw'r heddlu er mwyn eu symud ymaith. Roedd y person ifanc yn gobeithio mynd i'r coleg, ond erbyn hyn, mae am adael yr ardal o ganlyniad i'r ymosodiad a'i ofn o ran y goblygiadau. Yn dilyn yr ymosodiad, rhoddodd y person ifanc y gorau i gysylltu â'i ffrindiau ac roedd arno ofn mynd allan rhag ofn nad oedd yr ymosodwyr wedi cael eu dal. Rhoddwyd gwybod i'r heddlu am y digwyddiad. Dywedwyd bod y tad yn bryderus iawn am iechyd meddwl ei fab. Siaradodd y tad a'r person ifanc â'r Tîm Atal Trais a chafodd atgyfeiriadau eu gwneud at Cymorth i Ddiodefwyr a MAC.

### **Senario 2 y Tîm Atal Trais**

Ymosododd person ifanc anhysbys ar fachgen 14 oed mewn parc. Cafodd yr ymosodiad ei ffilmio gan dystion, a chafodd y fideo ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Aeth y person ifanc i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys gyda'i rieni. Rhoddodd aelod o'r cyhoedd wybod i'r heddlu am y digwyddiad. Wrth drafod â'r Tîm Atal Trais, dywedodd y fam ei bod bellach yn ymwybodol bod ei mab wedi bod yn derbyn negeseuon testun bygythiol cyn yr ymosodiad. Cafodd y person ifanc ei atgyfeirio gan y Tîm Atal Trais at MAC a Cymorth i Ddiodefwyr. Cafodd y fam hefyd ei hatgyfeirio at Cymorth i Ddiodefwyr.

### **Senario 3 y Tîm Atal Trais**

Ymosododd merch 14 oed ar ferch 16 oed mewn gorsaf drenau leol. Dywedwyd bod y person ifanc wedi colli ymwybyddiaeth a phan ddaeth ati hi ei hun, bod ei hesgidiau wedi cael eu tynnu a'u taflu ar y cledrau. Dywedwyd bod y digwyddiad wedi cael ei ffilmio gan berson ifanc a oedd gyda'r ymosodwr. Yn dilyn y digwyddiad, dywedodd y person ifanc ei bod wedi cael ei bygwth drwy negeseuon e-bost ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Nid oedd am fynd allan mwyach. Rhoddwyd gwybod i'r heddlu am y digwyddiad, ond nid oedd y person ifanc am fynd â'r achos ymhellach am ei bod yn poeni am y goblygiadau. Cytunodd y person ifanc y gallai'r Tîm Atal Trais ei hatgyfeirio at MAC.

### **Senario 4 y Tîm Atal Trais**

---

<sup>9</sup> Noder bod manylion penodol am y digwyddiadau, gan gynnwys anafiadau, wedi'u dileu.

Ymosododd cyd-ddisgybl yn ddifrifol ar ferch 14 oed yn yr ysgol. Cafodd yr ymosodiad ei ffilmio gan ddisgybl arall a chafodd y fideo ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn dilyn ail ymosodiad, nid yw'r person ifanc wedi dychwelyd i'r ysgol am fod arni ormod o ofn, ac mae arni ofn mynd allan ar ei phen ei hun lle mae'n byw, am fod rhai o'r merched yn byw yn yr un ardal. Rhoddodd mam y person ifanc wybod i'r heddlu am y digwyddiad hwn. Cytunodd y person ifanc y gallai'r Tîm Atal Trais ei hatgyfeirio at MAC.

### ***Astudiaeth achos 1 MAC***

Cafodd dyn ifanc ei atgyfeirio at MAC ar ôl bod i Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn dilyn ymosodiad tra roedd allan gyda ffrindiau. Cyfarfu MAC â'r person ifanc i gyflwyno ei hun a chynnig cymorth. Dywedodd y person ifanc nad oedd angen cymorth arno ar y pryd, a'i fod ond am gael rhywun i siarad ag ef am y digwyddiad. Disgrifiodd y digwyddiad a'r ffordd y gwnaeth iddo deimlo. Roedd yn bryderus, ond roedd yn teimlo'n llawer gwell ac yn fwy hyderus i adael y tŷ. Mae'n gwybod bod manau diogel y gall fynd iddynt os bydd mewn sefyllfa debyg eto. Mae'n edrych ymlaen at fynd i'r coleg ac yn gobeithio dechrau a rhedeg ei gwmni eu hun ryw ddiwrnod. Cynigiwyd cymorth yn y dyfodol a bydd y person ifanc yn fwy na pharod i dderbyn y cynnig hwn os bydd yn teimlo bod angen.

### ***Astudiaeth achos 2 MAC***

Cafodd merch ei hatgyfeirio at MAC yn dilyn ymosodiad. Cyn y digwyddiad, roedd wedi bod yn cael ei bwlio gan grŵp o ferched yn yr ysgol. Dywedodd ei bod wedi bod yn yfed alcohol oherwydd pwysau gan gyfoedion am gyfnod o amser a bod hynny wedi dod yn broblem, a'i bod wedi cymryd cyffuriau gan ddeliwr lleol dan gochl "lledaenu'r gair". Roedd y person ifanc yn wynebu risg o ddod yn destun achos o gamfanteisio'n droseddol ar blentyn, yn ogystal â risgiau i'w hiechyd. Oherwydd y risgiau hyn, roedd yn wynebu problemau o ran ei chydberthynas â'i mam. Roedd am i bethau ddychwelyd i'r hyn oeddent o'r blaen. Ers gweithio gyda MAC, mae'r person ifanc wedi symud i ysgol arall ac mae'r bwlio wedi dod i ben. Lluniwyd cynllun diogelwch er mwyn sicrhau y byddai ganddi'r wybodaeth hanfodol am beth i'w wneud pe bai mewn sefyllfaoedd tebyg eto. Mae ei chydberthynas â'i mam wedi gwella'n fawr ac mae wedi parhau'n sobr. Mae'n gwneud yn llawer gwell ers i'r gwaith ddechrau ac yn teimlo y bydd yn gallu gwneud penderfyniadau gwell a mwy diogel yn y dyfodol.

Uned Atal Trais Cymru, Siambrau'r Farchnad, 2-  
5 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AT  
PHW.ViolencePreventionUnit@wales.nhs.uk | 02920  
338450



Uned Atal Trais  
Violence Prevention Unit